------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Ionawr 2022

Amser: 09.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru


## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-12.50)

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Papur(au) i'w nodi**

(09.30)

**2.1 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

(Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

Y Bil Cymwysterau Proffesiynol

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

(Tudalennau 4 - 6)

**Dogfennau atodol:**

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 7 - 8)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.**

(Tudalennau 9 - 10)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio etc.) (Rhif 2) 2021

**2.5 Llythyr gan Hybu Cig Cymru**

(Tudalennau 11 - 13)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 11 Tachwedd (Saesneg yn unig)

**2.6 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.**

(Tudalennau 14 - 15)

**Dogfennau atodol:**

Gorchymyn Trwyddedau Pysgota am Gregyn y Moch (Cymru) 2021

**2.7 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd**

(Tudalennau 16 - 17)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022

**2.8 Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Dylan Morgan, Pennaeth Polisi, NFU Cymru**

(Tudalennau 18 - 19)

**Dogfennau atodol:**

Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru)

**2.9 Llythyr gan Rachel Sharp, Ymddiriedolaethau Natur Cymru**

(Tudalennau 20 - 21)

**Dogfennau atodol:**

Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Saesneg yn unig)

**2.10 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

(Tudalennau 22 - 23)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at y Prif Weithredwr ynglŷn â defnyddio'r term BAME

**2.11 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalennau 24 - 27)

**Dogfennau atodol:**

Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 11 Tachwedd

**2.12 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Gwir Anrhydeddus Nadhim Zahawi AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.**

(Tudalennau 28 - 29)

**Dogfennau atodol:**

Y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16: (Saesneg yn unig)

**2.13 Llythyr gan Weinidog yr Economi**

(Tudalen 30)

**Dogfennau atodol:**

Fframwaith Cyffredin ar gyfer Taliadau Hwyr

**2.14 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

(Tudalennau 31 - 32)

**Dogfennau atodol:**

Cywiro'r Cofnod – Dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Diddymwyd), 23 Tachwedd 2021

**2.15 Llythyr gan Gyswllt Amgylchedd Cymru**

(Tudalennau 33 - 35)

**Dogfennau atodol:**

Tystiolaeth atodol i'r Ymchwiliad i Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (Saesneg yn unig)

**2.16 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.**

(Tudalennau 36 - 37)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

**2.17 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

(Tudalennau 38 - 39)

**Dogfennau atodol:**

Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

**2.18 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.**

(Tudalen 40)

**Dogfennau atodol:**

Gosod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd

**2.19 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.**

(Tudalennau 41 - 42)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesurau Dros Dro) (Coronafeirws) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

**2.20 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.**

(Tudalen 43)

**Dogfennau atodol:**

Gosod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd

**2.21 Llythyr gan y Llywydd**

(Tudalennau 44 - 52)

**Dogfennau atodol:**

Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(09.30-11.00) (Tudalennau 53 - 97)

Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Tim Render, Cyfarwyddwr Tir, Natur a Bwyd

Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol

Gareth Furminger, Uwch-reolwr Cyllid

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Tystiolaeth gan Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

**Egwyl (11.00–11.15)**

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022–23: Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog yr Economi

(11.15–12.45) (Tudalennau 98 - 160)

Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Sioned Evans, Cyfarwyddwr Busnes a Rhanbarthau

Huw Morris, Cyfarwyddwr Grŵp SAUDGO

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Tystiolaeth gan Gweinidog yr Economi

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.45)

## 6 Preifat

(12.45–13.15) (Tudalennau 161 - 164)

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022–23: Ystyried tystiolaeth

Adolygiad Strategol y Pwyllgor

Adolygu amserlen y pwyllgor a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

**Dogfennau atodol:**

Adolygiad Strategol y Pwyllgor (Saesneg yn unig)

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
SeneddEconomi@senedd.cymru

6 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul

Ysgrifennaf atoch i hysbysu'r Pwyllgor bod y Bil Cymwysterau Proffesiynol (y Bil) bellach wedi symud ymlaen drwy gyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ac y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd.

**<u>Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi</u>**

Cyflwynodd Llywodraeth y DU dri gwelliant ar 2 Tachwedd i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd, lle cytunwyd ar y gwelliannau hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud gwelliannau i Gymal 1 y Bil ac wedi mewnosod cymalau 14 a 15 ychwanegol, fel y cytunwyd yng Nghyfnod Adrodd yr Arglwyddi. Mae'r tri chymal yn gwneud darpariaethau y gallai Senedd Cymru ddeddfu drostynt mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac sy’n parhau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Cymal 1 – Pŵer i ddarparu ar gyfer trin unigolion fel rhai sydd â chymwysterau o’r DU**

Mae'r cymal yn rhoi pŵer i'r "awdurdod cenedlaethol priodol" ddarparu drwy reoliadau pa gymwysterau proffesiynol neu brofiad arall a geir y tu allan i'r DU y gellir eu cydnabod o fewn y DU. Ni chaiff rheoliadau ond gwneud darpariaeth ar gyfer unigolion sy'n bodloni'r meini prawf a bennir yn y cymal hwn, sef eu bod wedi derbyn cymwysterau neu brofiad tramor; a bod rheoleiddiwr wedi penderfynu bod eu cymwysterau neu brofiad yr un fath i bob pwrpas â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr neu, fel arall, eu bod wedi cymryd unrhyw brofiad neu gymwysterau eraill yn ôl yr angen. Mae'r gwelliant i'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr amodau ychwanegol y caniateir eu pennu mewn rheoliadau.

**Cymal 14 - Diogelu ymreolaeth rheoleiddwyr**

Mae'r cymal newydd hwn yn atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau o dan adran 1, 3 neu 4 o'r Bil oni bai ei fod wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adrannau (2) a (3) o’r cymal 14 newydd wedi eu cyflawni. Ychwanegwyd y cymal hwn i roi sicrwydd i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

reoleiddwyr mai dim ond pan na fyddai gwneud hynny'n cael effaith andwyol ar ymreolaeth reoleiddiol y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol ddeddfu.

Er y gall y gwelliant gynnig rhywfaint o gysur i reoleiddwyr, yr anhawster o hyd yw mai mater i'r awdurdod cenedlaethol priodol yn unig yw penderfynu a yw'n fodlon bod y naill neu'r llall o'r amodau hyn yn cael eu bodloni ai peidio, ac nad mater i bob rheoleiddiwr unigol yw penderfynu.

Mae'r gwelliant hwn yr un mor berthnasol i bob un o'r awdurdodau cenedlaethol priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn yn golygu, pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor yn gweithredu fel yr awdurdod, bod ganddynt y pŵer i benderfynu bod yr amodau ychwanegol yn cael eu bodloni, hyd yn oed wrth reoleiddio mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi rheoleiddwyr Cymru neu Weinidogion Cymru.

**Cymal 15 – Ymgynghori â rheoleiddwyr**

Mae'r cymal newydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol ymgynghori â rheoleiddiwr proffesiwn rheoleiddiedig cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 1, 3 neu 4 os yw'r awdurdod o'r farn bod y rheoliadau'n debygol o effeithio ar y rheoleiddiwr neu ei bod fel arall yn briodol ymgynghori â'r rheoleiddiwr. Er y gall rhai rheoleiddwyr groesawu'r cyfaddawd hwn, nid yw'n mynd mor bell ag atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau y mae'r rheoleiddwyr wedi'u gwrthwynebu yn ystod ymgynghoriad o'r fath.

Fel Cymal 14, mae'r gwelliant hwn yr un mor berthnasol i bob un o'r awdurdodau cenedlaethol priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol na'r Arglwydd Ganghellor, wrth weithredu fel yr awdurdod, rhag gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi rheoleiddwyr Cymru neu Weinidogion Cymru.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru**

Er fy mod yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth y DU hyd yma o ran yr angen i wneud newidiadau i'r Bil fel y mae, credaf fod angen gwelliannau pellach i fynd i'r afael â'm pryderon mewn perthynas â'r pwerau cydredol yn y Bil ac felly ni allaf argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil.

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

Fel y gwyddoch, mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol "fel rheol" o fewn pythefnos i gyflwyno gwelliannau Llywodraeth y DU, yn yr achos hwn erbyn 16 Tachwedd. Mae'r gwelliannau'n codi nifer o faterion cyfansoddiadol cymhleth y mae eu dadansoddiad wedi arwain at oedi cyn gosod.

Os bydd unrhyw welliannau pellach sy'n gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn cael eu cyflwyno neu eu cytuno wrth i'r Bil fynd drwy Dŷ'r Cyffredin, efallai y bydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach a byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

Rwyf wedi ysgrifennu i'r un perwyl at Huw Irranca Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ac wedi rhoi copi o'r llythyr hwn i holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Cyllid
—
Welsh Parliament
Finance Committee

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

07 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

Ar 16 Gorffennaf 2021, ysgrifennais atoch i rannu syniadau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ein rhaglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill a sut byddwn yn gwneud y gwaith craffu. Rwyf yn ysgrifennu nawr i roi'r diweddaraf am y gwaith hwn.

### Ymgysylltu

Rhwng 17 Medi a 26 Tachwedd 2021, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad yn ceisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar dudalen y Pwyllgor Cyllid.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws i gasglu safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion Cymru sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau mewn meysydd penodol, neu mae penderfyniadau'r gyllideb ddrafft yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Bydd adroddiad yn crynhoi'r materion a themâu allweddol o'r grwpiau ffocws hyn ar gael ganol mis Rhagfyr a bydd eich clercod yn anfon y linc i hwn atoch.

Ffocws y Gyllideb

Mae'n debygol y bydd adferiad Covid-19 yn parhau i effeithio ar Gyllideb Ddrafft 2022-23. Hefyd, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Sut dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau y mae angen eu blaenoriaethu'n arbennig;*
- *I ba raddau y dylid blaenoriaethu lleddfu newid hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;*
- *Sut mae dyraniadau'r gyllideb yn cefnogi dyheadau cynllun Sero Net Cymru;*
- *Polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod;*
- *Sut i wario i atal problemau a sut caiff hyn ei gynrychioli yn nyraniadau'r gyllideb (gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac yn lleddfu galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau;*
- *Sut mae tystiolaeth yn llywio proses Llywodraeth Cymru o bennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;*
- *Sut dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethiant a benthyca;*
- *Cymorth ar gyfer busnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio yr UE;*
- *Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddiad gan y Llywodraeth i gefnogi 'ailadeiladu'n well' (e.e. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud yn well o ran cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*

Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a hoffwn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws eich gwaith o graffu ar y gyllideb.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

8 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd. Fe wyddoch fy mod wedi cefnogi cyfarwyddyd y Senedd ym mis Mehefin am bwyllgor perthnasol i 'adolygu ar frys' Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Gallaf eich sicrhau fy mod yn bendant yn bwriadu mynychu'r Pwyllgor ETRA a darparu tystiolaeth. Nid yw fy safbwynt yn newid wrth awgrymu i sesiwn y Pwyllgor i dderbyn fy nhystiolaeth gael ei ohirio nes bod dyfarniad yr Adolygiad Barnwrol wedi'i gyhoeddi ac nad yw'r cyfyngiadau ar fy nhystiolaeth yn berthnasol mwyach.

Fel yr ydych wedi cydnabod yn eich llythyr, mae'r adolygiad barnwrol parhaus yn ychwanegu lefel o gymhlethdod. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r llys yn sylweddol ac yn cwmpasu rhannau helaeth o'r broses datblygu polisi a chynnwys y Rheoliadau. Nid yw'r barnwr wedi gwneud ei benderfyniad eto ac ymddengys nad oes llawer o gyfle i mi ddarparu'r ymatebion ystyrlon llawn yr hoffwn eu rhoi neu graffu ar y Pwyllgor i'r lefel y mae'r pwnc yn ei haeddu.

Fel Gweinidog, fi yw'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau cyfrifol mewn perthynas â'r Rheoliadau a byddai unrhyw dystiolaeth a ddarperir i'r Pwyllgor, sy'n destun craffu cyhoeddus, yn cael ei thrin yn wahanol iawn gan y llysoedd o'i gymharu â chyfranogwyr eraill. Mae'n bwysig nodi bod cynrychiolwyr a fynychodd wrandawiad y Pwyllgor hyd yma yn wahanol i'r rhai sy'n darparu datganiadau tyst i'r llys. Hefyd, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan CNC, yr undebau ffermio a'r cyrff amgylcheddol fel rhan o adolygiad y Pwyllgor yn annhebygol o gael effaith debyg ar benderfyniad y llys.

Er bod eich llythyr yn cyfeirio at y posibilrwydd o oedi hir oherwydd y posibilrwydd o apelio, byddai'r cyfyngiadau'n debygol o gael eu cyfyngu i sail yr apêl ac ni fyddai'n cyfateb i ail wrandawiad. Byddai apêl fel arfer ar bwynt cyfreithiol, a rhagwelir, hyd yn oed pe byddai apêl yn cael ei wneud, ac yn amodol ar y sail, dylai fod digon o gyfle i ddarparu atebion manwl i ystod gymharol eang o gwestiynau yn dilyn unrhyw ddyfarniad cychwynnol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn eich sicrhau, unwaith y bydd dyfarniad wedi'i wneud, a'r canlyniadau yn hysbys, y byddaf yn edrych ymlaen at ymgysylltu'n llawn â'r Pwyllgor ac rwy'n parhau i fod yr un mor ymrwymedig i graffu'n agored ar y Rheoliadau hyn gan y Pwyllgor, fel y gwneuthum wrth gefnogi'r cyfarwyddyd gwreiddiol ym mis Mehefin. Bydd fy swyddogion yn parhau i gysylltu â chlercod y Pwyllgor ynghylch dyddiadau addas.

Cofion



**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf MA-LG-3874-21

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

8 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio etc.) (Rhif 2) 2021**

Mae'r rheoliadau a enwir uchod ("Rheoliadau 2021") yn ymwneud â mesurau sy'n berthnasol i bysgodfeydd, stociau pysgod a materion technegol sy'n ymestyn y tu hwnt i Barth Cymru. Er mwyn iddynt fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn berthnasol o fewn y DU ac i bob cwch sy'n gweithredu yn nyfroedd y DU.

Yn benodol, mae rheoliadau 2021:

• Yn gwneud diwygiadau i'r rhwymedigaethau glanio yr UE a ddargedwir a'r pedwar cynllun gwaredu sy'n pennu esemptiadau o'r rhwymedigaeth glanio ("esemptiadau gwaredu"). Mae rheoliadau 2021 yn gwneud diwygiadau i'r eithriadau gwaredu unigol ac yn ymestyn eu cais o fis Ionawr 2022 am dair blynedd arall;

• Ymestyn y defnydd o'r Rhaglen Amlflwydd ar gyfer casglu a rheoli data pysgodfeydd (Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/909 a Phenderfyniad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/910 (fel y'i diwygiwyd yng nghyfraith yr UE a ddargedwir)) am dair blynedd arall hyd at ddiwedd Rhagfyr 2024;

• Gwneud diwygiadau i ddarpariaethau sy'n rheoleiddio pysgodfeydd y môr, gan ymestyn a chynyddu lefel draenogod y môr Ewropeaidd y gellir eu dal fel sil-ddalfa i barthau'r Alban a Gogledd Iwerddon o derfynau pysgodfeydd Prydain. Bydd hyn yn caniatáu i bysgod gael eu glanio a oedd gynt yn cael eu taflu. Mae maint y rhwyll y gellir ei ddefnyddio mewn rhwydi statig i gymryd draenogod y môr yn Sianel Lloegr hefyd yn cael ei gynyddu;

• Yn dirymu erthygl 12a sydd bellach wedi dod i ben o Reoliad y Cyngor a ddargedwir (UE) 2020/123 (gosod cyfleoedd pysgota yn nyfroedd yr Undeb a dyfroedd nad ydynt yn rhan o'r Undeb) sy'n ymwneud â'r tymor caeedig ar gyfer pysgota llymrïaid yn nyfroedd y DU. Bydd pysgodfeydd llymrïaid yn cael eu rheoli gan amodau trwyddedau cychod pysgota yn y dyfodol;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

• Diweddaru Rhestr Cychod Pysgota Anghyfreithlon ac Anrheoleiddiedig nas Hysbysir amdano (IUU) y DU i gyd-fynd â phenderfyniadau a wnaed gan Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol (RFMOs) y mae'r DU bellach yn aelod ohonynt fel Gwladwriaeth Arfordirol annibynnol.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau 2021 fel bod y darpariaethau ynddo yn gymwys yng Nghymru. Deallaf y bydd Rheoliadau 2021 yn cael eu gosod gerbron y Senedd ar 9 Rhagfyr a bydd yr OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

O dan yr amgylchiadau hyn pan fo angen cynnal fframweithiau pysgodfeydd rheoleiddiol ledled y DU, mae'n briodol fy mod yn cydsynio i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar y nifer o faterion o fewn Rheoliadau 2021. Pe bawn yn atal cydsynio, byddai angen gwneud y materion hyn drwy ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad ac yn ysgrifennu mewn termau tebyg i Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales

Our Ref: GH/KH/Cons.

8 December 2021

Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Email: SeneddEconomy@senedd.wales

Dear Paul

**Priorities for the Committee - Farming Organisations - Questions not reached**

Thank you for the opportunity to attend the Committee's meeting on 11 November 2021. I welcomed the opportunity to contribute to the discussion on the Committees priorities for the Sixth Senedd.

In response to the request for comments on whether enough is being done to promote the UK Geographical Indication (GI) Scheme, I would make the following comments.

**Background**

As a result of the UK leaving the EU, on the 01 January 2021 the EU Protected Food Name Scheme was replaced in the UK by a UK GI Scheme. As Welsh Lamb and Welsh Beef are protected under the EU Protected Food Name (PFN) Scheme as products with PGI status, these changes relate to both Welsh Lamb and Welsh Beef. PGI Welsh Lamb and PGI Welsh Beef are now protected by EU and UK legislation.

PGI status provides a guarantee of provenance and a mark of quality; reinforcing consumer confidence in the product and allowing it to be sold at a premium. Both domestic and global gains rely on effective premiumisation and the ability to

Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC)
Tŷ Rheidol, Parc Merlin,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth
SY23 3FF

Tel: 01970625050
Fax: 01970615148
www.hccmpw.org.uk

differentiate and promote branded products, as such HCC considers the status of PGI to be of enormous economic importance to the Welsh red meat industry.

**Promotion**

During 2021, HCC reviewed the Welsh Lamb and Welsh Beef brand guidelines in light of the changes, and updated branding guidance was shared with the industry. A dual approach for Welsh Lamb and Welsh Beef branding is being adopted, where:

- The EU PGI logo will continue being used (alongside the Welsh Lamb/ Welsh Beef trademark logo) on products being sold into the EU (and Northern Ireland).
- The UK GI logo will be used (alongside the Welsh Lamb/ Welsh Beef trademark logo) on products being sold within GB and into other international markets (beyond the EU).

The deadline for the UK GI logos introduction is January 2024, however HCC is encouraging businesses to adopt the new UK GI logos at their earliest opportunity.

Recognition of the new UK GI scheme and logos is therefore crucial. Recognition of the EU PFN scheme logos had been rising in the UK since the schemes' introduction in 1993, and the switch to new logos in the UK will obviously have a negative effect, reducing the logo awareness back to zero. HCC would therefore encourage Government to commit sufficient resources towards a promotion/ awareness campaign, to encourage sufficient promotion amongst the retail sector and consumers.

A market and promotion scheme (like the EU promotional scheme) could be introduced to raise awareness of the UK GI scheme and its products within the UK. Significant support was obtained by HCC in the past through European Union funds for promoting foods with PGI status - HCC benefited from two rounds of this funding, focused on marketing of Welsh Lamb and Welsh Beef within the EU (including the UK). The EU scheme was funded 50% by the EU; and 50% by HCC.

**Enforcement**

Resourcing the enforcement of the UK GI scheme is also important, to ensure it is fully robust. Historically, there has been a limited amount of enforcement action taken in regard to PFN product protection within the UK, partly as a result of a lack of bespoke enforcement legislation in this area, but also due to the lack of resourcing and understanding amongst enforcement authorities.

We would also urge the Government to maintain the EU's current robust approach to assessing new applications in the new UK GI scheme, as it is important that only products which demonstrate genuine quality credentials, linked to a defined geographical area, be awarded UK GI protection.

I am content to meet to discuss this further if needed.

Your sincerely

**Gwyn Howells**
**Chief Executive**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-LG-3970-21

Paul Davies AS
Cadeirydd – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

9 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul,

Ar 7 Rhagfyr, llofnodais Orchymyn Trwyddedau Pysgota am Gregyn y Moch (Cymru) 2021. Pwrpas y Gorchymyn yw diogelu cregyn y moch ym mharth Cymru a sicrhau bod y bysgodfa'n gynaliadwy trwy ei rheoli mewn ffordd addasol.

Mae'r Gorchymyn yn effeithio ar holl gychod pysgota trwyddedig y DU a thramor sydd am bysgota am gregyn y moch ym Mharth Cymru ac yn rhoi'r canlynol ar y statud:

**Trwyddedau** – bydd angen trwydded flynyddol gydag amodau ar unrhyw un sy'n pysgota am gregyn y moch â chewyll ym mharth Cymru. O 2023, codir ffi am y drwydded.

**Cyfnod y Drwydded** - bydd tymor pysgota blynyddol y drwydded yn para o 00:01 1 Mawrth bob blwyddyn tan 23:59 ar ddiwrnod olaf mis Chwefror y flwyddyn ganlynol.

**Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL)** – Bydd Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) o 5298 o dunelli ar gyfer y fflyd drwyddedig dros gyfnod y drwydded gyntaf. Bydd arolygon blynyddol o gregyn y moch yn casglu data i bennu terfynau dalfeydd blynyddol y dyfodol ar sail gwir lefel y stoc.

**Terfyn Dalfa Misol Hyblyg (MCL)** – Bydd pob deiliad trwydded yn cael yr un MCL mewn unrhyw fis penodol.
**Ffurflenni Dalfa Misol –** Bydd gofyn i bawb sydd â thrwydded gyflwyno ffurflen o fanylion cywir dalfa ei gwch.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd rhagor o fanylion am y Gorchymyn ar gael ar llyw.cymru o 14 Rhagfyr 2021.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

09 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Rwy’n ysgrifennu atoch i hysbysu’r Pwyllgor am y bwriad i roi ein cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a chyflwyno Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â’r UE) 2022 erbyn 18 Ionawr.

Mae llythyr wedi cyrraedd oddi wrth Victoria Prentis AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd yn gofyn am ein cydsyniad ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Mae’r Rheoliad yn ymdrin â pholisi datganoledig ac yn effeithio ar Gymru. Gallai’r Rheoliad gael ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau. Bydd y Rheoliad yn effeithio ar Gymru, Lloegr a’r Alban ac mae cais tebyg wedi’i anfon i Weinidogion yr Alban am eu cydsyniad.

Caiff y Rheoliadau eu gwneud gan arfer y pwerau a roddir gan adran 8(1) Deddf Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (c.16) i unioni diffygion yng nghyfraith yr UE a gedwir i weithredu’n effeithiol a diffygion eraill (yn arbennig o dan adran 8(2)(a) yn sgil ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd.

Mae’r Rheoliadau hyn yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol ddiangen yr UE sydd wedi’i dargadw sy’n rhan o’r drefn ar gyfer rheoleiddio cynnyrch amddiffyn planhigion (“PPP”) a’r lefel gweddillion uchaf (“MRL”), fel y gall y trefniadau hyn barhau i weithredu’n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Mae’r dirymiadau hyn yn ymdrin â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddaeth i rym tuag at ddiwedd y cyfnod gweithredu (nad oedd OSau Ymadael cynharach yr UE yn ymdrin â nhw). Dônt i rym ym Mhrydain Fawr trwy ddarpariaethau pontio yn OSau Ymadael cynharach yr UE a’r cofrestrau statudol cenedlaethol. O’r herwydd, nid oes angen mwyach y ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir a gaiff ei dirymu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor cyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy’n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a’u diwygio yng Nghymru, y tro hwn oherwydd aliniad polisïau y tair llywodraeth a manteision amlwg, o gofio’r pwnc, gwneud y gyfraith sy’n ymwneud â Chymru, Lloegr a’r Alban o fewn un offeryn, rwyf o’r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai’r ffordd fwyaf priodol o sicrhau’r newidiadau angenrheidiol na chwaith y defnydd doethaf o adnoddau Llywodraeth Cymru o gofio’i blaenoriaethau eraill pwysig.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith SeneddClimate@senedd.wales a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig SeneddEconomy@senedd.wales er eu gwybodaeth.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Eitem 2.8

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Dylan Morgan
Pennaeth Polisi, NFU Cymru

9 Rhagfyr 2021

Annwyl Dylan,

Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Diolch am eich llythyr ar 2 Rhagfyr ynglŷn â'r dystiolaeth a ddaeth i law yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 25 Tachwedd gan sefydliadau amgylcheddol.

Rwy'n nodi'r pwyntiau y gwnaethoch yn eich llythyr, a gafodd ei drafod yn ffurfiol gan y Pwyllgor fel papur i'w nodi yn ein cyfarfod ar 9 Rhagfyr. Hefyd, bydd eich llythyr yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ynghyd â thystiolaeth arall ar gyfer yr adolygiad.

O ran y pwynt a wnaeth Rachel Sharp o Ymddiriedolaethau Natur Cymru ynghylch hormonau tyfu, byddwch yn nodi o drawsgrifiad y cyfarfod ar 25 Tachwedd fy mod innau fel Cadeirydd, a Samuel Kurtz fel aelod o'r Pwyllgor, wedi herio'r pwynt hwn gyda Rachel Sharp yn ystod y cyfarfod, a rhoddwyd cyfle iddi ymateb. Mae hyn i'w weld ym mharagraffau 155-168 o gofnod y trafodion. Fel y byddwch yn ymwybodol ar ôl rhoi tystiolaeth eich hun, caiff pob tyst ei wahodd hefyd i adolygu'r trawsgrifiad drafft a chodi unrhyw faterion yn ymwneud â chywirdeb neu eglurder gyda ni.

O ran y pwyntiau eraill a wnewch yn eich llythyr ynghylch Afon Gwy, gwelyau morwellt ac ansawdd dŵr, rydym hefyd yn nodi eich barn ar y dystiolaeth hon, ac mae ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Pe bai'r sefydliadau amgylcheddol sy'n rhoi tystiolaeth yn dymuno darparu rhagor o wybodaeth i ni am y pwyntiau hyn, yna mater iddyn nhw fydd hynny wrth gwrs.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, ac ar ran yr Aelodau, gallaf roi sicrwydd cryf i chi y bydd pob darn o dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad, gan gynnwys lle mae sefydliadau gwahanol yn anghytuno â'r dystiolaeth hon, yn cael ei hystyried yn ofalus gan yr Aelodau cyn i ni adrodd ar ein casgliadau. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, yn ein trafodaethau mae gennym

hefyd gymorth galluog ymchwilwyr a chynghorwyr cyfreithiol o ran profi cywirdeb a phwyso a mesur yr holl dystiolaeth a gawn.

Diolch eto am eich llythyr, ac am eich cyfraniad llawn at adolygiad y Pwyllgor.

Rwyf wedi copïo Rachel Sharp yn y llythyr hwn er mwyn bod yn agored.

Yn gywir,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 2.9

Paul Davies MS
Chair
Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

YMDDIRIEDOLAETHAU natur CYMRU
WILDLIFE TRUSTS WALES

**Wildlife Trusts Wales**
Baltic House, Mount Stuart Square,
Cardiff Bay, CF10 5FH
T: (0)29 2048 0070
info@wtwales.org
www.wtwales.org

Registered Company: 3032775
Registered Charity: 1045167

10th December 2021

**Re: Review of the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations**

Dear Chair,

Thank you for forwarding the NFU letter to the committee. I spoke to the Clerk to the committee to correct my statement to say veterinary medicines and hormones entering into rivers.

I would like to take this opportunity to address two further points the NFU raised in their letter. Firstly, the issue of Intensive Poultry Units (IPU's) on the River Wye. I raised this as in the last ten years; there has been increasing concern that phosphate is causing algae blooms on the River Wye.

The NRW report on the Compliance Assessment of the River Wye SAC Against Phosphorus Targets shows over 60% of the River Wye and its catchments fail against targets. The report states that *Comparison of phosphorus concentrations in the Wye against targets indicate widespread failures, some of them large in magnitude. Fourteen water bodies passed their targets, 28 failed, and three were unknown.* Wildlife Trusts Wales (WTW) and other eNGO's do not agree with NRW statement that *the overall pattern of failures in the Wye does not support the hypothesis that poultry units are the main or even a particularly important reason for nutrient failures on the Wye".*

WTW would welcome receiving NRW evidence for this statement. WTW remain concerned that NRW has only 10 testing stations on the entire Wye SAC and that these are only tested once a quarter, which doesn't provide robust data. Also, the statement doesn't suggest what is causing the phosphate levels. Within this time frame, there hasn't been a significant increase in population in Powys (1991 - 119,703 to 2020 133,030). However, there has been an increase in IPU's. Today there is estimated to be 30% more nutrient within the Wye Special Area of Conservation (SAC) than is required to fertilise crops.

There is no monitoring of manure management plans, and the plans that are submitted against planning applications lack any detail. We have recommended that within the catchment, there is a need for caps on the level of phosphate and that these levels should be actively monitored and enforced by NRW. As part of the evidence, concerns were raised about the lack of resources that NRW have to monitor and investigate pollution incidences.

100% recycled Ailgylchwyd 100%


NRW must be resourced fully to undertake proactive and determined monitoring and enforcement. In particular, they should monitor compliance with the existing Slurry, Silage and Agricultural Fuel Oil (SSAFO) regulations (NRW reported that 2 out of 3 farms are non-compliant). Also, a temporary manure heap can stay in situ for 12 months, which risks leaching and run-off.

Our concern is that large agri-businesses are concentrating production in one catchment, causing a cumulative impact. It has been estimated that there could be over 20 million chickens in the Wye Catchment (no official figures are kept; this is an estimate based on the number of known IPU's). Earlier this year Avara Foods, a large egg producer, admitted responsibility for Wye catchment pollution. All of these factors raise concerns that diffuse pollution is entering into the River Wye. It's clear that further research is needed, and we are awaiting the Lancaster University's RePhokus project study of agricultural phosphorous in the Wye catchment.

Secondly, the NFU has drawn the committee's attention to bathing water quality monitoring undertaken by NRW in their letter. Bathing Water designations don't cover the whole of the Welsh coast, only 105 sites. This monitoring is only conducted between May and September and not in the winter when run-off is higher. The Bathing Water Directive classifications in 2020 were based on two microbiological parameters: *Escherichia coli* (E. coli) and intestinal enterococci, but not nutrients. I raised the point on seagrass beds as these are very sensitive habitats and have suffered significant losses and the study by University College London Historical Analysis Exposes Catastrophic Seagrass Loss for the United Kingdom highlight this. This is at a time when the importance of marine habitats in storing carbon is being recognised and leading to seagrass restoration projects in Wales. Therefore, it is critical that we ensure that pollution from any source doesn't undermine efforts to restore these blue carbon stores.

I hope this clarifies my evidence, and WEL will respond to the two further questions asked by the committee on the 7th of December, in due course. I have asked the committee clerk to ask the NFU to contact me to discuss these points, but I haven't heard back from them to date. WTW wish to work productively with all sectors to restore river ecosystems for people and wildlife in Wales and so welcome further dialogue.

Yours sincerely



Rachel Sharp
Director WTW

100% recycled Ailgylchwyd 100%

Gwarchod **Natur** ar gyfer y Dyfodol

Protecting **Wildlife** for the Future

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Manon Antoniazzi
Y Prif Weithredwr a'r Clerc
Comisiwn y Senedd

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Manon

Defnyddio'r term BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol)

Wrth i'r Pwyllgor drafod ei adroddiad drafft, Craffu ar Gyfrifon: Comisiwn y Senedd 2020-21, roedd nifer o gyfeiriadau at yr acronym BAME. Gofynnodd un Aelod i ni beidio â defnyddio'r term hwn am fod dinasyddion sy'n cynrychioli'r gymuned hon yn teimlo ei fod yn sarhaus. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno'n llwyr, ac oni bai am ddyfyniadau uniongyrchol o gyhoeddiadau neu Gofnod y Trafodion, newidiwyd pob cyfeiriad i ddweud 'cymunedau lleiafrifoedd ethnig' yn lle hynny. Rwy'n siŵr y byddwch wedi gweld yr ymadrodd hwn yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Gofynnodd y Pwyllgor i mi ysgrifennu atoch yn gofyn i Gomisiwn y Senedd roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Cyhoeddodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig Adroddiad ym mis Ebrill 2021 ar gyfer Llywodraeth y DU a oedd yn ymchwilio i wahaniaethau hil ac ethnig yn y DU. Un o'r meysydd a ystyriwyd oedd defnyddio'r termau BAME a BME, ac ym mis Mawrth 2021, argymhellodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig y dylai Llywodraeth y DU roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Mae Llywodraeth y DU yn trafod ei hymateb i Adroddiad y Comisiwn ar hyn o bryd.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn Comisiwn y Senedd ar y cais hwn unwaith y bydd wedi'i drafod yn llawn.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion pob Pwyllgor yn gofyn iddynt ystyried peidio â defnyddio'r term BAME yng ngohebiaeth a chyhoeddiadau eu pwyllgorau.

Diolch.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/0633/21

Paul Davies MS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

13 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Tachwedd yn gofyn am wybodaeth am gwestiynau na chyrhaeddwyd gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ystod ei sesiwn graffu gyffredinol ar 11 Tachwedd.

**Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer polisi ymchwil ac arloesi yn y cyfnod interim rhwng nawr a'r Comisiwn newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil sy'n cael ei sefydlu?**

O ran cylch gwaith y Comisiwn, mae gennym bum blaenoriaeth, sef;

• Sicrhau bod gan Gymru gyfran deg o'r cyllid ymchwil, datblygu ac arloesi sydd ar gael, sy'n cyfateb o leiaf i'r rhai a gawsom yn hanesyddol, drwy'r Undeb Ewropeaidd.

• Defnyddio gallu ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein *Rhaglen Lywodraethu* i ganolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd, adfer amgylcheddol a datgarboneiddio

• Meithrin ein gallu ymchwil, datblygu ac arloesi ym maes iechyd a gwyddorau bywyd tra'n sicrhau bod Cymru'n bartner llawn wrth gyflawni Gweledigaeth Gwyddorau Bywyd y DU.

• Datblygu strategaeth arloesi newydd ar draws Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ysgogi effaith.

• Parhau i gynyddu gallu Cymru ar gyfer ymchwil ragorol drwy lansio cam nesaf Sêr Cymru.

Er bod cylch gwaith y Comisiwn ar gyfer ymchwil a datblygu o fewn sefydliadau addysgol, mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad ehangach i ddod ag ymchwil ac arloesi yn nes at y farchnad, gan gefnogi anghenion diwydiannol, busnes ac amgylcheddol Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymchwil, datblygu ac arloesi cydweithredol sy'n cael ei wneud gan y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Ein blaenoriaethau yma yw;

• Defnyddio gallu ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu sy'n canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd, adfer amgylcheddol a datgarboneiddio;

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

• Adeiladu ymhellach ar allu ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru yn y Gwyddorau Iechyd a Bywyd;
• Datblygu strategaeth arloesi ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a datblygu sgiliau yn ein sylfaen ymchwil ac arloesi sefydledig;

Bydd ein strategaeth arloesi integredig newydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â chyfleoedd a heriau i adeiladu ar y momentwm mewn arloesedd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a achosir gan bandemig Covid-19. Bydd hefyd yn cynnwys gwaith i fynd i'r afael â mesur carbon fel y gallwn ddeall yn llawn yr effaith a gawn ar leihau allyriadau carbon.

Gyda'r rhan fwyaf o gyllid Arloesi Llywodraeth Cymru yn ERDF, bydd cyllid dilynol yn hanfodol i barhau â'r gwaith hwn, o ganlyniad i'r cronfeydd strwythurol sy'n dod i ben yng Nghymru.

**Pa gamau y byddwch yn eu cymryd ar argymhellion adolygiad Reid i wella cystadleurwydd ymchwil ac arloesi yng Nghymru?**

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran Adolygiad Reid 2017. Rydym wedi sefydlu Swyddfa Llundain fel yr argymhellwyd gan Reid, i sicrhau bod gan Gymru lwyfan a chysylltiad â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chymuned ymchwil y DU yno. Rydym wedi cyflawni'r argymhelliad i ailosod cronfa arloesi, dyrannwyd £15m drwy hyn yn 21/22, ochr yn ochr â £88.3m ar gyfer ymchwil o safon (QR), sy'n mynd yn uwch na'r lefel o £71m a argymhellwyd gan Reid.

Rydym wedi dyrannu £4.25m i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) eleni i gefnogi bwrsariaethau cymhellion ôl-raddedig, sy'n canolbwyntio'n benodol ar STEMM, sy'n sbardun allweddol i wella ein cymuned a'n diwylliant ymchwil presennol ac yn y dyfodol.

Yn dilyn yr Adolygiad Reid dilynol yn 2020, mae prifysgolion yng Nghymru wedi sefydlu Rhwydwaith Arloesi Cymru (WIN) i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ceisiadau cydweithredol mewn ymchwil ac arloesi, gan godi amlygrwydd galluoedd Cymru mewn nifer o feysydd pwysig ar gyfer busnes a datblygu cymunedol. Mae CCAUC wedi buddsoddi £1m yn WIN dros dair blynedd, ac mae cyfarwyddwr dros dro newydd gael ei benodi.

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu, gyda phartneriaid yng Nghymru, Strategaeth Arloesi traws-Lywodraeth newydd. Wrth ddyfeisio'r strategaeth mae angen canolbwyntio ymdrechion arloesi tuag at adferiad a thwf. Mae adolygiad yr Athro Reid yn un ffynhonnell o dystiolaeth a fydd yn llywio'r gwaith hwn, ond o dan y tymor hwn o Lywodraeth, mae ein blaenoriaethau a'n ffocws, o anghenraid, hefyd wedi esblygu, gan ystyried y cyfyngiadau ariannu presennol.

Byddwn yn parhau i weithio gydag UKRI ac Innovate UK ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ymchwil ac arloesi gyda phwyslais cynyddol ar Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn nes at y farchnad ac yn cyd-fynd ag anghenion diwydiannol, busnes a chymdeithasol Cymru.

Y gwir amdani, fodd bynnag, yw bod llywodraeth y DU yn parhau i weithredu mewn ffordd nad yw'n ymgysylltu â llywodraethau datganoledig. Nid yw'n glir beth mae cyhoeddi'r gyllideb ddiweddar o £22 biliwn erbyn 2026/27 yn ei olygu i'w ddosbarthu yng Nghymru ac mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau lefelau ariannu sy'n cyfateb o leiaf i'r rhai a gafodd Cymru yn hanesyddol drwy'r UE, yn ogystal â mynd i'r afael â thanariannu hanesyddol o ffynonellau buddsoddi cystadleuol ac anghystadleuol yn y DU.

**Ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â Covid-19 a newid yn yr hinsawdd, a'r rôl y mae ymchwil ac arloesi yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r rhain, i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu cyllid a gweithgarwch ymchwil ac arloesi ac yn ei chysoni â'i nodau yn y meysydd hyn?**

**Covid-19**

Y llynedd, nododd ein Tîm Peirianneg Gofynnol Cyfarpar Hanfodol (CERET) sydd newydd ei sefydlu anghenion y GIG a'r sectorau gofal, gan gynnwys cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol, dulliau Rheoli Heintiau, offer profi, a thechnegau diheintio. Sefydlodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cymorth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi gwerth £5.5m, proses garlam gan ddefnyddio ein cyfres SMART o gymorth arloesi a'n prosesau her caffael. Cymeradwywyd dros 40 o geisiadau gan fusnesau Cymru gan gynnwys;

• Llinellau cynhyrchu o fewn 6 busnes yng Nghymru sydd â'r gallu i gynhyrchu 18 miliqn o fasgiau wyneb y mis.
• 800,000 gŵn dolen bawd y mis
• Dylunio, adeiladu a dilysu cychwynnol peiriant anadlu sy'n gweithio yn gyflymach y gellir ei gynhyrchu mewn niferoedd mawr.
• Cefnogi cydweithio rhwng prifysgolion a diwydiant i werthuso Protocolau Prawf Cyflym Covid-19.
• 2 ddistyllfa o Gymru yn defnyddio eu harbenigedd i ateb y galw am ethanol wrth gynhyrchu hylif diheintio dwylo - 7,000 litr y mis.
• Cymorth ar-lein i helpu cyflenwr technoleg oeri brechlynnau yng Nghymru i reoli heintiau'n effeithiol mewn gwledydd sy'n datblygu.
• Llwyfan i olrhain canlyniadau profion coronafeirws, gan ddarparu canlyniadau amser real, geo-fapio i helpu i ddefnyddio adnoddau hanfodol fel staff gofal iechyd, Cyfarpar Diogelu Personol, profion diagnostig, meddyginiaethau a brechlynnau.

Mae'r gwaith hefyd wedi cefnogi sefydliadau i arallgyfeirio eu busnes, gan gadw gweithwyr a fyddai fel arall wedi cael eu rhoi ar ffyrlo, creu swyddi newydd a model busnes mwy hyblyg sy'n eu rhoi mewn gwell lle nawr ac yn darparu gwydnwch ar gyfer y dyfodol.

Roedd ein Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect Diheintio Ambiwlansys yn Gyflym i helpu i gyflymu'r amser a gymerir i lanhau ambiwlansys a cherbydau eraill, ac yn y pen draw achub bywydau yn y frwydr genedlaethol yn erbyn y pandemig.

**Newid yn yr Hinsawdd**

Mae ein gweithrediadau SMART Cymru ac Arbenigedd presennol wedi cefnogi 144 o brosiectau Carbon Isel a Bioamrywiaeth gyda chyfanswm gwerth prosiect o £27.2 Miliwn a chyfraniad grant o £12 Miliwn. Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi 2 alwad ar wahân yn benodol ar gyfer prosiectau datgarboneiddio gan fusnesau yng Nghymru, gan ddyfarnu £447,000 tuag at gyfanswm costau prosiect o £860,000 o'r 11 cynnig gorau.

Mae ein gwasanaeth Cynhyrchiant a Dylunio SMART, ochr yn ochr â'n diagnosteg SMART a thalebau arloesi, wedi helpu dros 4,000 o fusnesau gyda thechnegau darbodus, cyfluniad prosesau, dyluniadau newydd gan gynnwys deunyddiau, pecynnu, ac eco-ddylunio, effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff, i gyd yn cyfrannu at strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol a phrosesau digidol glanach.

Dangosodd ein hymateb cydgysylltiedig ac ystwyth yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn y rôl hanfodol y mae'n rhaid i arloesi ei chwarae i fusnesau, y byd academaidd a phobl Cymru.

O ran canlyniadau, mae angen inni gofio bod ymchwil a datblygu ac arloesi yn brosesau cynyddrannol ac mae datblygiadau mawr yn cymryd amser. Yn aml, mae angen addasu systemau cymhleth ar feysydd fel datgarboneiddio, dealltwriaeth o sut mae pethau'n cydgysylltu, a’r awydd i fusnesau a dinasyddion eu mabwysiadu. I'r perwyl hwn, bydd ein strategaeth arloesi newydd yn cynnwys gwaith i fynd i'r afael â mesur carbon fel y gallwn ddeall yn llawn yr effaith gyfannol yr ydym yn ei chael ar ddatgarboneiddio.

Wedi dweud hynny, byddwn yn parhau i gyflawni ein hagenda arloesi:

**Fel cyd-fuddsoddwr a chyfranwr risg mewn busnes Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.** Mae ein rhaglenni cyfredol yn helpu busnesau i ddatblygu cynhyrchion a phrosesau carbon isel newydd. Asesir pob cais yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

**Fel ysgogydd i arferion caffael cyhoeddus newydd.** Rydym yn partneru ag Innovate UK Llywodraeth y DU, wrth ddatblygu cystadlaethau SBRI sy'n galluogi cyrff y sector cyhoeddus i chwilio am atebion arloesol i'w materion anhyblyg, llawer ohonynt yn ymwneud â'r agenda datgarboneiddio; e.e., helpu Cyngor Caerdydd i gynnal cystadleuaeth ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy cludadwy fel y gall leihau'r angen am bŵer diesel mewn digwyddiadau mawr yn y ddinas.

**Fel un sy'n darparu ar gyfer cyfleusterau arloesi yn y DU**. Roedd gweithio gyda thimau ym maes Tai, Ynni a Sgiliau yn allweddol i sicrhau Canolfan Adeiladu Egnïol £36m Cronfa Her y DU ar gyfer Abertawe. Mae'r ganolfan yn datblygu cynhyrchion a thechnegau'r genhedlaeth nesaf sy'n cynhyrchu, storio a rhyddhau ynni. Mae hyn yn adeiladu ar waith y Sefydliad SPECIFIC, hefyd yn Abertawe, a ddatblygodd un o'r ystafelloedd dosbarth effeithlon o ran ynni cyntaf yn ddiweddar.

**Fel un sy’n sganio gorwelion arfer gorau cenedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang.** Drwy ein gwaith o fewn partneriaethau arloesi rhyngwladol, llawer ohonynt gyda rhanbarthau eraill yr UE.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/4120/21

Rt Hon Nadhim Zahawi MP
Secretary of State for Education
Sanctuary Buildings Great Smith Street
Westminster
London SW1P 3B

13 December 2021

Dear Nadhim

Thank you for your letter of 2 December in connection with the UK Government's amendments tabled to the Skills and Post-16 Education Bill at House of Commons Committee stage and your updated devolution analysis of the Bill.

**Local Skills Improvement Plans**

The UK Government's amendments tabled on 23 November and subsequently agreed at Commons Committee stage on 2 December remove Welsh further and higher education institutions from the scope of the local skills improvement plans duties under clause 1 of the Bill. I am pleased to confirm that the amendments address my concerns about the imposition of statutory duties on Welsh institutions.

I welcome the constructive engagement that has taken place between our officials and your recognition of the devolved matters affected by the local skills improvement plans proposals. In light of the amendments made to the Bill I consider that **clauses 1 and 4** no longer require the consent of the Senedd.

**Devolution analysis of the Bill**

Thank you for providing your updated devolution analysis of the Bill.

I consider **clause 15** (clause 14 in the Bill as introduced) engages section 107(6) of the Government of Wales Act 2006. The Legislative Consent Memorandum which I laid before the Senedd in July indicates that I am content to recommend that the Senedd gives its consent in respect of this clause.

I agree with your conclusions regarding **clauses 27, 28 and 35** concerning insolvency and designation arrangements. It is my view that these clauses do not require the legislative consent of the Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Clause 17** concerning Universal Credit conditionality does not, in my view, require the legislative consent of the Senedd.

Finally, in respect of **clauses 18 and 25** my view is that these clauses would require the consent of the Senedd if they remained in the Bill. It is important that any legislation affecting further and higher education in Wales takes into consideration the specific Welsh context. It appears that these clauses have not taken either the devolution settlement or the Welsh context into account. I am therefore pleased to note that the UK Government has tabled amendments which seek to remove them from the Bill.

I have laid a further supplementary Legislative Consent Memorandum (Memorandum No. 3) in respect of amendments to the Bill.

**Prohibition of essay mills**

I would also like to note the amendments accepted at House of Lords Report stage on essay mills. I consider a UK-wide approach is needed to tackle this issue. I am encouraged to note Baroness Barran, in her letter to peers on 6 October, stated that the UK Government does want to continue discussions on a UK-wide approach to this issue with the devolved governments. I discussed this matter with your colleague Michelle Donelan MP, Minister of State for Higher and Further Education, on 8 December and I am pleased that she is supportive of joint working. I am grateful for the continued engagement of your officials with my officials during the passage of the Bill. This is something I support and encourage. I hope that discussions at official level to consider how a UK-wide approach to tackling essay mills might be achieved can commence as soon as possible.

I am copying this letter to the Secretary of State for Wales, to my colleague Vaughan Gething MS, Minister for Economy and to Jayne Bryant MS, Chair of the Children, Young People, and Education Committee, Huw Irranca-Davies MS, Chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee and Paul Davies MS, Chair of the Economy, Trade, and Rural Affairs Committee.

Yours sincerely,

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-VG-3923-21

Paul Davies MS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomi@senedd.cymru

16 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul,

Mae'n bleser gennyf rannu gyda'r Pwyllgor Fframwaith Cyffredin dros dro ar gyfer Taliadau Hwyr.

Mae'r Fframwaith hwn yn pennu disgwyliadau cyffredin o ran meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â chydweithio ac mae'n disgrifio sut y bydd gwledydd y DU yn cynnal unrhyw ymarfer yn y dyfodol o rn pwerau Deddfwriaethol yn y maes hwn ac o fewn cyd-destun y ffaith bod y DU wedi ymadael â'r UE. Cytunodd pedair gweinyddiaeth y DU i gydweithio er mwyn pennu dulliau cyffredin, ar ffurf Fframweithiau Cyffredin, mewn meysydd polisi a arferai fod yn amodol ar gyfraith yr UE ac sy'n cyd-fynd â meysydd cymhwysedd datganoledig.

Mae swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru, ar y cyd â swyddogion cyfatebol ar draws y DU, wedi cydweithio i ddatblygu'r Fframweithiau hyn, gan eu rhannu gyda'u Pwyllgorau craffu perthnasol fel y gall y Seneddau graffu arnynt.

Gallwch weld y gyfres o ddogfennau yma.

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Copi at: Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. SeneddLJC@senedd.wales
Mark Isherwood MS, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. SeneddPAPA@senedd.wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-2314-21

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

16 Rhagfyr 2021

Annwyl Elin,

**Cywiro'r Cofnod – Dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd), 23 Tachwedd 2021**

Ysgrifennaf i gywiro'r cofnod ynghylch sylwadau a wnaed yn ystod y ddadl uchod ar 23 Tachwedd.

Yn ystod y ddadl, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad[1] nad oeddwn wedi ymateb yn ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil, gan gadarnhau bod llythyr wedi'i dderbyn a anfonwyd at yr holl Aelodau ynglŷn â dau argymhelliad penodol yn adroddiad y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd.

Yn fy ymateb[2], dywedais fy mod wedi ymateb i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, roeddwn mewn gwirionedd yn cyfeirio at lythyr a gyhoeddwyd ar 20 Tachwedd a oedd ym ymateb i sylwadau a wnaed ar is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

Hoffwn gadarnhau nad oeddwn, adeg y ddadl ar 23 Tachwedd, eto wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol i adroddiad y Pwyllgor. Ond rwyf wedi gwneud hynny yn y cyfamser, gan roi ymateb ffurfiol ar ei adroddiad i'r Pwyllgor ar 9 Rhagfyr. Rwy'n ymddiheuro am unrhyw ddryswch y gallai fy sylwadau fod wedi'u hachosi.

[1] RoP, paragraff 385
[2] RoP, paragraff 404

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, gan fod y ddau Bwyllgor wedi adrodd ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Paul Davies MS, Chair of Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

**17 December | 2021**

Dear Paul Davies MS,

**Re: Supplementary evidence to the Control of Agricultural Pollution Regulations Inquiry**

Thank you for the opportunity to provide further evidence on the points below.

**1. The funding support from Welsh Government to implement the changes**

WEL believes that sufficient funding needs to be provided by Welsh Government to implement the changes required by these regulations. This is important both in terms of the farm businesses and the regulator.

WEL members are aware of farms that will be able to achieve compliance with the 2021 regulations without Government funding. There are other farm businesses which will look for grant aid to become compliant. Some grant aid should be made available to assist compliance, along with advisory support.

If NRW is to enforce the regulations effectively it must be funded to do so. The effectiveness of regulation is affected by the perceived likelihood of offending being detected. The regulator must have sufficient resources to undertake credible regulation. We are aware of difficulties within the NRW Dairy Project caused by the way it is funded. Funding is on an annual basis. People are employed on contracts of a year or less. They obtain permanent jobs within NRW and leave the Dairy Project. As of 15th November 2021 there were five vacancies out of just twelve posts, as well as

a vacancy for the team leader. This has been a recurring theme since the project was set up. Officers do not gain the necessary experience to carry out what can be a challenging role. We appreciate this is an advisory role and not a regulatory role, but its aim is to achieve compliance. It is illustrative of the need for appropriate funding.

Advice can be given to farmers by others but only NRW has the power to regulate. NRW must receive funding to regulate, which includes the resources to undertake regular monitoring, and must itself allocate resources appropriately in its position as sole regulator. NRW should be accountable for this funding by demonstrating that it has accurate data on farm compliance and evidence that it is taking enforcement action against farmers that fail to comply.

**2. The impact of incorporating the regulations into the National Minimum Standards that will need to be met to access support through the proposed Sustainable Farming Scheme.**

WEL would welcome the incorporation of the regulations into the National Minimum Standards as part of a range of regulatory and enforcement options available to the regulator. This would add to the proposed range of options suggested under the proposed Agriculture Bill. It is important that there is a clear, effective regulatory baseline that underpins the Sustainable Farming Scheme. This should be easy for farmers to understand and bring all the relevant regulation together in one place.

Under the current timeline for implementation of the regulations, all requirements should be in place for farmers by the end of 2024, just before the Sustainable Farming Scheme is officially launched. The phasing in of the requirements of the regulations over 3.5 years should assist farmers to be compliant by the time the Sustainable Farming Scheme starts, so we do not see the inclusion of the regulations in National Minimum Standards as a barrier to farmers joining the Scheme.

One concern is the extent to which regulatory non-compliance would be monitored and the extent to which access to support through the proposed Sustainable Farming Scheme would be restricted. A lack of proper monitoring or only limited restriction might not be a deterrent to poor practice. There will be cases where a formal

regulatory response is required ranging from formal caution, through to fixed or variable penalty, enforcement undertaking and prosecution.

One area being investigated by the Committee is whether the 2021 regulations should be applied across Wales or restricted to discreet NVZs. On 25th November 2021 Creighton Harvey referred to evidence provided to the WLMF agricultural pollution subgroup by Nicola Salter of NRW, and recorded in the minutes of the May 2020 meeting, in which she referred to pop-up New Zealand style farms. We would wish the committee to be aware of an article published by Farmers Weekly online on 29th November. This was not available at the time of our presentation before the Economy, Trade and Rural Affairs Committee.

The article refers to an upland beef and sheep farmer in mid-Wales converting to dairy production. The article gives advice to farmers wishing to make the same change. Under advice point 7, farmers are advised to consider agricultural pollution regulations as ‘Nine times out of 10 the stocking rate is the limiting factor on how much milk a business is going to be able to produce.’ The article illustrates the potential for more intensive agriculture spreading into new areas and the need for regulation to be in place before this happens.

Best regards,

Creighton Harvey,
Independent Trustee, Afonydd Cymru

Rachel Sharp
Director, Wildlife Trusts Wales

**Swyddfa Caerdydd**
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Trydar: @WalesLink

**Cardiff Office**
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Twitter: @WalesLink

www.waleslink.org



Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Joint Directors: Susan Evans and Karen Whitfield.
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675

# Eitem 2.16

Ein cyf/Our ref: MA-LG-3951-21

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

paul.davies@senedd.cymru

20 Rhagfyr 2021

Annwyl Paul

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud yr Offeryn Statudol (OS) a enwir uchod ("yr Offeryn") o dan bwerau a roddir gan:

- erthygl 144(6) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor, a pharagraff 2 o Atodiad 6 i'r Rheoliad hwnnw, ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso; a
- pharagraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Mewn deddfwriaeth ar weithredadwyedd a wnaed ddiwedd 2020 o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, nodwyd y byddai 'cyfnod pontio trosiannol', er mwyn caniatáu i reolaethau ar fewnforion SPS (iechydol a ffytoiechydol) o'r UE gael eu cyflwyno dros nifer o fisoedd. Bwriedir i'r cyfnod pontio helpu sectorau masnach a'r seilwaith rheolaethau cysylltiedig i fod yn barod ar gyfer gwiriadau bioddiogelwch ychwanegol, sy'n un o ganlyniadau'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Offeryn yn diwygio, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, ddyddiad dod i ben penodedig y cyfnod pontio trosiannol i'r graddau y mae'n ymwneud â gwiriadau ar ddogfennau, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a sgil-gynhyrchion penodol anifeiliaid. Mae'r offeryn hwn hefyd yn hepgor y gofyniad rhag-hysbysu mewn perthynas â nwyddau a fewnforir o ynys Iwerddon.

Bydd y ddeddfwriaeth a ganlyn yn cael ei diwygio:

- Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso;
- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 (yn gymwys i Loegr yn unig);
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Lloegr) 2018 (yn gymwys i Loegr yn unig);

- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) Rheoliadau 2020;
- Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2020 (yn gymwys i Loegr yn unig); a
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021.

Caiff diwygiadau eu gwneud i ddeddfwriaeth Cymru er mwyn adlewyrchu diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ar gyfer Lloegr yn unig a restrir uchod.

Nid yw penderfyniad munud olaf Llywodraeth y DU i hepgor y gofynion rhag-hysbysu ar gyfer nwyddau o Ogledd Iwerddon *ac* Iwerddon yn ddelfrydol oherwydd na fydd swyddogion yn cael data am y llif masnach a ragwelir rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf i'w cynorthwyo gyda gwaith cynllunio a pharatoi. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn codi cwestiynau mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Fodd bynnag, rwy'n fodlon nad Gweinidogion Cymru sy'n atebol am y risgiau hyn.

At hynny, heb y diwygiadau hyn, bydd yn ofynnol i fusnesau mewnforio ac allforio ym Mhrydain Fawr a'r UE, o 1 Ionawr 2022 ymlaen, gydymffurfio â'r gofynion rheoli iechyd a ffytoiechydol (SPS) fel y'u nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth – gan gynnwys yr angen i ddod i mewn i Brydain Fawr drwy Safle Rheoli Ffiniau.

Bydd yr estyniad yn caniatáu i fusnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt gan y pandemig ymgyfarwyddo â'r gofynion cydymffurfio newydd mewn perthynas â chynhyrchion iechydol a ffytoiechydol (SPS) a systemau TG. Bydd hefyd yn fodd i sicrhau bod y seilwaith a'r prosesau angenrheidiol ar waith mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau, gan leihau'r risg o darfu ar fasnach.

Rwy'n ysgrifennu atoch felly i roi gwybod ichi fy mod yn rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr Offeryn mewn perthynas â Chymru. Rwy'n deall y bydd yr OS yn cael ei osod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 15 Rhagfyr o dan y weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nad yw'r gofynion yn dod i rym o 1 Ionawr 2022 ymlaen, bydd yr Offeryn yn torri'r confensiwn 21 diwrnod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeirydd

**Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol**

Yr wythnos diwethaf cafodd ein hadroddiad ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ei nodi gan y Senedd.

Hoffwn dynnu eich sylw at yr adroddiad hwn, sy'n cynnwys y Cytundeb.

Mae'r Cytundeb yn cynrychioli'r sefyllfa a gytunwyd rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru ar y wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru, lle y bo'n briodol, yn ei darparu i'r Senedd am ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel Gweinidogion, concordatiau, cytundebau a memoranda cyd-ddealltwriaeth.

Bwriad y Cytundeb yw cefnogi gallu'r Senedd i graffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru ac i ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif yn yr arena rynglywodraethol. Felly, mae'n bosibl y bydd y Cytundeb o ddiddordeb i chi yng nghyd-destun unrhyw waith craffu y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/LG/4207/21

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

06 Ionawr 2022

Annwyl Paul,

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda phob awdurdod polisïau pysgodfeydd arall ledled y DU i ddatblygu Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) drafft.

Yn hyn o beth rwy'n cyfeirio at fy llythyr blaenorol a anfonwyd ym mis Tachwedd a oedd yn rhoi gwybod i chi am fy mwriad i gyflwyno'r JFS drafft at ddiben ymgynghori i'r Senedd ar 10 Ionawr 2022. Roedd yn angenrheidiol gohirio'r cyflwyno ac o'r herwydd bydd angen newid dyddiad y cyfnod craffu. Ar yr un sail â hyn, byddwn hefyd yn gohirio dyddiad lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Byddaf yn cysylltu â chi eto yn fuan i nodi'r dyddiad newydd, ond yn y cyfamser gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i reoli eich blaenraglen waith. Edrychaf ymlaen at drafod y JFS â chi ar 3 Chwefror, ar yr amod y bydd wedi'i osod ddigon ymlaen llaw.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

6 Ionaawr 2022

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesurau Dros Dro) (Coronafeirws) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Daeth yr OS a enwir uchod oedd yn diwygio Rheoliad Cadw (UE) 2020/466 i ben ar 31 Rhagfyr 2021. Mae gofyn iddo ganiatáu i fesurau dros dro penodol i'r system o reolaethau swyddogol a weithredir o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws barhau tan 1 Gorffennaf 2022.

O ran Cymru, mae'r diwygiad yn rhoi'r gallu i awdurdodau cymwys barhau i gyflwyno mesurau dros dro i helpu i atal tarfu ar y gadwyn cyflenwi bwyd, gan sicrhau y gellir parhau i gynnal rheolaethau swyddogol yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol ehangach a gweithdrefnau a roddir ar waith i ddelio â phrinder staff o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

Mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a chafodd ei osod gerbron y Senedd ar 4 Ionawr 2022 gyda dyddiad cychwyn o 30 Rhagfyr 2021. Esboniodd Llywodraeth y DU mai problemau gweithdrefnol ynghylch cael caniatâd dros y gwyliau oedd y rheswm dros ôl-ddyddio ei ddyddiad dod i rym, a hefyd er mwyn sicrhau bod y mesurau dros dro'n parhau'n gyfreithlon.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi, gan fod y diwygiadau hyn yn hawddfreintiau brys dros dro, fy mod wedi rhoi fy nghaniatâd, yn unol ag Erthygl 3(2B)(b)(i) o Reoliad Cadw (UE) 2017/625, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr OS hwn mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn
https://senedd.cymru/media/q40bwmoc/ws-ld14807-w.pdf

Fel arfer, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu ar faterion sydd â chymhwysedd datganoledig; fodd bynnag, yn yr achos hwn rwy'n rhoi fy nghaniatâd gan fod angen dybryd gwneud y newidiadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2021. Rhoddais fy nghaniatâd i estyniadau cyfatebol i'r rheoliadau hyn ym mis Ionawr a mis Mai eleni.

Mae'r mesurau hyn yn rhai dros dro ac nid ydynt yn diwygio deddfwriaeth bresennol Cymru. Ceir Fframweithiau Cyffredin o fewn y DU ym meysydd polisi Iechyd a Lles Anifeiliaid, Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, ac Iechyd Planhigion sy'n darparu trefniadau llywodraethu cadarn. Mae consensws rhwng swyddogion polisi pob llywodraeth ym Mhrydain

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fawr fod y mesurau hyn yn fuddiol, yng nghyd-destun y pryderon cynyddol mewn perthynas â Covid-19 a’r pwysau ehangach ar yr awdurdodau sy'n gyfrifol am y rheolaethau swyddogol. Bydd y mesurau hyn yn helpu i ddiogelu'r awdurdodau hyn a'u staff rhag rhagor o darfu.

Gallai peidio â bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth hon neu ei gohirio olygu na fyddai awdurdodau cymwys yng Nghymru yn elwa o fesurau rheoli swyddogol dros dro pan fo’u hangen. Gallai hyn, o bosibl, beryglu eu gallu i gynnal rheolaethau swyddogol tra'n lleihau'r risgiau i staff rhag Covid-19 ar adeg o bwysau ehangach ar y cyflenwad llafur yn sgil Ymadael â'r UE, yn enwedig yn y gweithlu milfeddygol o fewn y diwydiant cig.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog dros Iechyd Meddwl a Lles a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/4207/21

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

12 Ionawr 2022

Annwyl Paul,

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda phob awdurdod polisïau pysgodfeydd ledled y DU i ddatblygu Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS) drafft.

Yn hyn o beth rwy'n cyfeirio at fy llythyr dyddiedig 6 Ionawr a oedd yn rhoi gwybod i chi am oedi o ran cyflwyno'r JFS drafft at ddiben ymgynghori i'r Senedd. Gallaf bellach roi gwybod ein bod yn disgwyl mai 17 Ionawr 2022 fydd y dyddiad cyflwyno ledled y DU. Felly, dyddiad y cyfnod craffu fydd 18 Ionawr - 25 Chwefror. Ar yr un sail â hyn, 18 Ionawr fydd dyddiad yr ymgynghoriad cyhoeddus hefyd.

Edrychaf ymlaen at drafod y JFS â chi ar 3 Chwefror.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

At: Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd, dros ebost

7 Ionawr 2022

Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Byddwch yn cofio bod Fforwm y Cadeiryddion, ar 16 Rhagfyr 2021, wedi ystyried, a chymeradwyo, y dull a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cynnal adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau.

Mynegodd y Cadeiryddion amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol yn y cyfarfod ar 21 Rhagfyr, gyda rhai Cadeiryddion yn gweld yr amserlen bresennol yn heriol, tra mynegodd eraill bryderon ynghylch newid y dull presennol. Ni leisiwyd unrhyw bryderon ynghylch cylchoedd gwaith pwyllgorau, er y cynigir y bydd cylchoedd gwaith yn parhau i ddod o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

I adeiladu ar hyn, rwy'n eich gwahodd i drafod yr adolygiad gyda'ch pwyllgorau ac i roi ymateb ysgrifenedig i'r adolygiad. Ffocws yr elfen hon o'r adolygiad yw casglu barn gytûn pob pwyllgor.

Wrth wneud hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad, a nifer o gwestiynau penodol. Er y bydd mynd i'r afael â'r cwestiynau yn ddefnyddiol, ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol.

Mae'r cylch gorchwyl, a'r cwestiynau, wedi'u hamgáu gyda'r llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn amgáu copi o'r papur a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion.

Er yr hoffech efallai gyfeirio at adborth a gawsoch gan randdeiliaid allanol yn eich ymateb, nid yw'r Pwyllgor Busnes yn disgwyl i bwyllgorau ymgynghori â rhanddeiliaid yn yr amser sydd ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn.

Mae'r amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn yn dynn, gan fod y Pwyllgor Busnes yn anelu at weithredu unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad ar ddechrau tymor yr haf 2022.

O ganlyniad, fel y cytunwyd yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 16 Rhagfyr 2021, bydd angen i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn dechrau mis Mawrth er mwyn rhoi digon o amser i bwyllgorau gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir.

I alluogi hyn, cyflwynwch eich ymateb ysgrifenedig erbyn 12pm ddydd Gwener 4 Chwefror 2022. Mae hyn wythnos yn hwyrach na'r dyddiad cau gwreiddiol a gynigiwyd yn y dull a awgrymwyd.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn â phwyllgorau, bydd Rheolwyr Busnes yn trafod yr adolygiad gyda'u Grwpiau, a bydd aelodau unigol pwyllgorau'n cael eu harolygu hefyd.

Bydd cynigion drafft, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, yn cael eu trafod yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 17 Chwefror 2022. Bydd y Pwyllgor Busnes wedyn yn gwneud penderfyniadau am amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau yn y dyfodol yng ngoleuni'r drafodaeth honno.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chlerc Fforwm y Cadeiryddion, Alun Davidson, sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Busnes gyda'r adolygiad hwn.

Elin Jones

Elin Jones AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**[Atodedig 1]**

# Y Pwyllgor Busnes: Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

## Cylch gorchwyl a chwestiynau'r ymgynghoriad

### Cylch gorchwyl

- Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

#### Amserlen – y sefyllfa bresennol

I ba raddau y mae'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau yn sicrhau:

- digon o amser i bwyllgorau ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol?
- digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth yn y pwyllgorau a/neu ofynion busnes yn y dyfodol o ran capasiti pwyllgorau ychwanegol?
- cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

#### Amserlen - dewisiadau amgen i'r sefyllfa bresennol

- Pa newidiadau y gellid eu gwneud i amserlen y pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau,  a chadw hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer busnes ychwanegol y pwyllgorau, a chydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?
- Os ydym am wneud newidiadau i'r amserlen, pryd y dylid gweithredu'r newidiadau hyn?

#### Cylchoedd gwaith

- Ydych chi'n credu bod angen addasu cylch gwaith eich pwyllgor? Er enghraifft, cydbwyso gwaith ar draws pwyllgorau, a/neu wella llinellau atebolrwydd.

## Mesur effeithiolrwydd eich pwyllgor

- A yw eich pwyllgor wedi sefydlu ffordd o asesu effeithiolrwydd ei waith?

*Gofynnir y cwestiwn hwn er mwyn penderfynu a ellir monitro unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn y cyd-destun hwn.*

**[Atodedig 2 - Papur Pwyllgor Busnes]**

# Adolygiad o amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau: Ymdriniaeth ddrafft

## Diben

1. Darparu ymdriniaeth ddrafft o amserlen ddiwygiedig y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes..

## Cefndir

2. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen o gyfarfodydd bob pythefnos ar gyfer y pwyllgorau ar ddechrau'r Chweched Senedd, ar y sail y byddai'n sicrhau:

    - digon o amser cyfarfod i bwyllgorau gyflawni eu rolau;
    - cydbwysedd teg rhwng yr amser y disgwylir i aelodau ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach;
    - hyblygrwydd i bwyllgorau gynnal cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen cwblhau gwaith â chyfyngiad amser iddo, a/neu fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth; a
    - digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer pwyllgor ychwanegol yn y system, pe bai angen (y Pwyllgor Diben Arbennig ar hyn o bryd).

3. Yn ogystal ag amserlen bythefnosol, cynyddodd y Pwyllgor Busnes faint o amser sydd ar gael yn ystod yr wythnos y gallai pwyllgorau gyfarfod – mae hyn yn cynnwys boreau Llun a'r defnydd achlysurol o ddydd Gwener ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 o Filiau.

4. Cadwyd wythnosau gwarchodedig, i ddarparu amser penodedig i Fforwm y Cadeiryddion, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, ac amser cyfarfod ychwanegol pellach i bwyllgorau ofyn amdanynt pe bai angen.

5. Un amcan eilaidd, a fynegwyd ar yr adeg y cytunwyd ar yr amserlen, oedd annog pwyllgorau i wneud defnydd effeithlon o'u hamser cyfarfod. Er enghraifft, cynnal trafodaethau bord gron untro ar gyfer rhanddeiliaid i gasglu ystod o dystiolaeth yr un pryd, yn hytrach na defnyddio'r dull "panel ar ôl panel" mwy traddodiadol o gasglu tystiolaeth dros nifer o wythnosau.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes eisoes i adolygu amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau, adeg y Pasg 2022 h.y. ar ôl dau dymor o weithredu.

**7.** Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau gan bwyllgorau am gyfarfodydd ychwanegol, a'r pryderon a fynegwyd gan rai pwyllgorau gyda'r amserlen bresennol, wedi arwain at gyflwyno'r adolygiad hwn.

**8.** Mae'r Llywydd hefyd wedi nodi yr ymgynghorir â Fforwm y Cadeiryddion ar yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror.

**9.** Mae'r rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd hyd yma wedi bod yn ymwneud ag amserlennu, yn hytrach na chylchoedd gwaith, er bod pryderon wedi'u codi ynghylch ehangder y cylch gwaith a bennwyd ar gyfer y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

**10.** Mae'r cynigion yn y papur hwn yn awgrymu adolygu'r amserlen a chylchoedd gwaith ar yr un pryd, oherwydd y rhyngddibyniaeth bosibl rhwng y ddau h.y. pe bai adolygiad o gylchoedd gwaith yn arwain at greu pwyllgor newydd, byddai angen i'r amserlen ystyried hyn.

**11.** Byddai'n bosibl gwahanu'r adolygiadau hyn, pe bai hynny'n well gan y Pwyllgor Busnes, er y gallai adolygiad o gylchoedd gwaith a gynhaliwyd yn ddiweddarach olygu bod angen newidiadau pellach i'r amserlen.

## Cylchoedd gorchwyl drafft

**12.** Argymhellir cylchoedd gorchwyl drafft yn y blwch isod::

### Cylchoedd gorchwyl drafft

*Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach.*

**13.** Bydd yr adolygiad yn ystyried y sefyllfa bresennol a'r opsiynau ar gyfer gweithredu'r amserlen yn y dyfodol.

**14.** O dan y penawdau isod, ceir cwestiynau sy'n ehangu ar y cylch gorchwyl, a gellid mynd i'r afael â hwy yn ystod yr adolygiad:

### Amserlen – y sefyllfa bresennol

A yw'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau yn sicrhau:

- digon o amser i bwyllgorau ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol?
- digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth yn y pwyllgorau a/neu ofynion busnes yn y dyfodol o ran capasiti pwyllgorau ychwanegol?
- cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

### Amserlen – dewisiadau amgen i'r sefyllfa bresennol

- Pa newidiadau y gellid eu gwneud i amserlen y pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau, a chadw hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer busnes ychwanegol y pwyllgorau, a chydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?
- Os ydym am wneud newidiadau i'r amserlen, pryd y dylid gweithredu'r newidiadau hyn?

### Cylchoedd gwaith

- Ystyried a ddylid addasu cylchoedd gwaith y pwyllgorau. Er enghraifft, cydbwyso gwaith ar draws pwyllgorau, a/neu wella llinellau atebolrwydd.

## Cyd-ddibyniaethau

**15.** Bydd angen i'r adolygiad ystyried:

- yr adnoddau a/neu'r cyfyngiadau technolegol o ran amserlennu, a sut y dylid rheoli hyn yn y dyfodol e.e. nifer y cyfarfodydd pwyllgor (a'r math o gyfarfodydd) y gellir eu cynnal ar yr un pryd; a'r
- effaith ar adnoddau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys staffio, unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r adolygiad hwn (neu gynnal y sefyllfa bresennol, os mai hynny fyddai'r opsiwn a ffefrir).

## Effeithiolrwydd pwyllgorau

**16.** Gallai'r adolygiad ystyried i ba raddau y mae Pwyllgorau wedi sefydlu dulliau o asesu effeithiolrwydd eu gwaith, fel y gellir monitro unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn y cyd-destun hwn.

**17.** Gellid ymestyn hyn i gasglu unrhyw arloesedd o ran pwyllgorau sydd wedi codi mewn ymateb i amserlen bythefnosol (a mwy hyblyg) e.e. dulliau amgen o gasglu tystiolaeth, gwaith a wneir y tu allan i gyfarfodydd ac ati.

## Casglu tystiolaeth

**18.** Cynigir y dull canlynol o gasglu tystiolaeth:

- Pwyllgorau – mae'r Pwyllgor Busnes yn gwahodd pob pwyllgor i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir gan yr adolygiad.
- Aelodau'r Pwyllgorau – gwahoddir aelodau'r pwyllgorau i gwblhau arolwg i gael eu barn ar yr amser a ddyrennir ar hyn o bryd ar gyfer gwaith pwyllgorau, eu barn ar beth ddylai'r cydbwysedd cywir fod rhwng yr amser a gaiff ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach, a lefel y flaenoriaeth y gallant ei neilltuo i waith pwyllgorau.
- Cadeiryddion – ymgynghorir â Fforwm y Cadeiryddion ar unrhyw gynigion ar gyfer newid sy'n deillio o'r adolygiad, cyn i'r cynigion gael eu cwblhau.
- Grwpiau Pleidiau - Mae Rheolwyr Busnes yn gwahodd barn gan eu grwpiau pleidiau.
- Data – gellir darparu data ar y defnydd o amser neilltueg, amser cyfarfod ychwanegol, a mathau o weithgarwch y pwyllgorau.

## Amserlen

### Rhagfyr 2021

- Ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion ar gylch gorchwyl a dull o ymdrin â'r adolygiad (16 Rhagfyr).

### Ionawr 2022

- Cyfnod o dair wythnos o gasglu tystiolaeth (10 - 28 Ionawr).

### Chwefror 2022

- Y Pwyllgor Busnes yn ystyried cynigion drafft, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd (8 Chwefror)
- Fforwm y Cadeiryddion yn ystyried y cynigion drafft ac amseriad o ran cyflwyno unrhyw newidiadau i'r amserlen (17 Chwefror).

### Mawrth 2022

- Y Pwyllgor Busnes yn cadarnhau cynigion (1 Mawrth).

- Y Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi adroddiad ac yn cyflwyno unrhyw gynigion sydd eu hangen i weithredu newidiadau i gylchoedd gwaith (os bydd angen rhai) (i'w wneud yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mawrth).

Ebrill 2022

- Newidiadau i'r amserlen i'w gweithredu ar ddechrau tymor yr haf.

## Ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion

**19.** Er bod awydd i ddatrys trafferthion canfyddedig gyda'r amserlen yn gyflym, mae tensiwn rhwng hyn a'r amser arweiniol sydd ei angen i bwyllgorau gynllunio eu gwaith.

**20.** Efallai yr hoffai'r Pwyllgor Busnes ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion, yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, ar gwmpas ac amserlen yr adolygiad cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Materion Gwledig ar gyfer 2022-23**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – 20 Ionawr 2022**

## 1.0 Diben

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch y cynigion Materion Gwledig (Prif Grŵp Gwariant) a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr. Mae hefyd yn darparu diweddariad ynghylch meysydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor. Mae'r crynodeb o strwythur y gyllideb i'w weld yn adran 3 o'r papur tystiolaeth.

## 2.0 Cyd-destun Strategol

# 1. Cyfrifoldebau Gweinidogol

### 1.1 Datblygu'r Sector Amaethyddiaeth

Mae'r Is-adran Amaethyddiaeth a Chynaliadwyedd yn arwain gweithgareddau Llywodraeth Cymru drwy bob cam o gynhyrchu, prosesu a marchnata cynhyrchion - fferm, bwyd a bio, o'r ffermwr i'r defnyddiwr, o'r fferm i farchnadoedd byd-eang. Mae'r tîm yn gyfrifol am:

- ddatblygu a chyflwyno polisi amaethyddol ar ffermio cynaliadwy, datblygu'r sector, masnach, cynlluniau wrth gefn a thenantiaethau amaethyddol;
- cefnogi'r diwydiant drwy gyngor, arweiniad a chynlluniau i wella cydnerthedd, arloesedd, lles, iechyd a diogelwch. Rydym hefyd yn noddi'r Cyrff Ardollau;
- darparu cyllid drwy Glastir, y Grant Busnes i Ffermydd (FBG) a'r Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG);
- datblygu rheoliadau amaethyddol, gan gynnwys Rheoliadau Llygredd Amaethyddol, rheolaethau adnabod a symud da byw, a gorfodi iechyd a lles anifeiliaid gan Awdurdodau Lleol.

#### 1.1.1 Polisi Adnabod a Symud Da Byw

Lansiais fy ymgynghoriad ar Newid Trefn Adnabod, Cofrestru a Rhoi Gwybod am Symudiadau Da Byw ar 30 Medi. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio cysoni rhai o'r rheolau ynghylch rhoi gwybod am symudiadau a chofrestru ar gyfer pob math o dda byw. Mae hefyd yn cynnwys newidiadau y cytunwyd arnynt ar fanylion tagiau EID Gwartheg a'r defnydd gorfodol o system Rheoli Fy CPH Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn darparu mwy o allu i olrhain pob math o dda byw a chyflwyno arbedion effeithlonrwydd electronig i wella perfformiad ffermydd, ochr yn ochr â datblygu EIDCymru.

Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 2 Ionawr 2022 a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am ganlyniadau'r ymgynghoriad ac yn cyhoeddi fy mhenderfyniad ar y newidiadau a'r dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer EID Gwartheg.

### 1.1.2 Rheoli Parthau Perygl Nitradau

Nid yw Parthau Perygl Nitradau yn bodoli yng Nghymru mwyach.

Drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 (CDG), sy'n rhedeg tan ddiwedd mis Mawrth 2023, rydym yn parhau i gefnogi busnesau fferm i weithredu gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Rydym yn datblygu ein cynigion ar gyfer cyllid i ddisodli cyllid yr UE. Wrth i ffermwyr a rheolwyr tir bontio tuag at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, bydd cymorth yn y dyfodol yn cynnwys ffocws ar welliannau amgylcheddol, rheoli tir ar raddfa fferm, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Bydd gwella ansawdd dŵr a chynorthwyo ffermydd i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd yn elfen o'r cymorth hwn. Bydd rhagor o fanylion am gynlluniau ariannu yn y dyfodol yn cael eu cyhoeddi unwaith y byddaf wedi cael cyfle i ystyried cynigion a gyflwynwyd gan fy swyddogion. O ganlyniad i'r galw parhaus am Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio a'r cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) ym mis Ionawr 2021, sicrhaodd y Gwasanaeth Cynghori £1,125,000 ychwanegol a ddyfarnwyd i sicrhau parhad y Gwasanaeth hyd at fis Mawrth 2023. Cyfanswm dyraniad y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Cyswllt Ffermio yn ei chyfanrwydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yw £9,621,575.00. Mae'r rhaglen yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth trosglwyddo gwybodaeth, gan gynnwys cyngor, taflenni ffeithiau, gweithdai a fideos, ymhlith pethau eraill, i gefnogi'r sector i weithredu'r Rheoliadau.

Dyrannwyd £358,000 i'r Gwasanaethau Cyngor Technegol, sy'n cynnwys gwariant a arweinir gan y seiliedig ar alw sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau, gan gynnwys cyngor cyfreithiol, gwasanaeth cyngor i ffermydd a ddarperir gan RSK ADAS Ltd ac ar gyfer gwariant arall sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Rheoliadau.

### 1.1.3 Ceffylau

Mae Rheoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob ceffyl yng Nghymru gael ei adnabod gyda microsglodyn o 12 Chwefror 2021 a bod â phasbort dilys. Er bod Defra yn bwriadu ymgynghori ar newidiadau i drefniadau adnabod ceffylau cyn diwedd 2021, nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau ar hyn o bryd.

## 1.2 Datblygu'r Sector Bwyd-Amaeth

Mae'r Is-adran Bwyd yn fy nghynghori ar bob mater yn ymwneud â strategaeth a pholisi bwyd. Mae'r tîm yn:

- ymgysylltu'n uniongyrchol â'r diwydiant bwyd a diod yn ddyddiol;
- darparu cyfres o raglenni ac ymyriadau cymorth i'r diwydiant sy'n galluogi twf cynaliadwy'r sector gweithgynhyrchu bwyd yng Nghymru – gan sbarduno twf a chynnydd mewn cynhyrchiant ar hyd y gadwyn fwyd;
- ariannu rhaglenni ar draws y sbectrwm bwyd, gan ysgogi adnoddau ariannol gan Lywodraeth Cymru yn ehangach, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Gwledig, EFF, ERF ac amryw o fentrau llai o faint, yn ogystal â ffynonellau cyllid allanol megis Bargeinion Twf;
- cefnogi goroesiad a chydnerthedd busnesau ar ôl Covid-19 ac ar ôl ymadael â'r UE drwy ysgogi cyllid i gefnogi twf y sector bwyd, gweithio gyda

manwerthwyr i'w hannog i werthu mwy o gynnyrch bwyd a diod o Gymru, helpu i sicrhau presenoldeb ar-lein cynyddol i gynhyrchwyr o Gymru a gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu cyfran gweithgynhyrchwyr bwyd Cymru o'r cyflenwad i'r sector gwasanaethau bwyd, twristiaeth a'r sector cyhoeddus;
- hyrwyddo diwydiant bwyd Cymru drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau rhyngwladol a ddyluniwyd i gynyddu mewnfuddsoddiad.

### 1.2.1 Bwyd a Diod Cymru

Ar 19 Tachwedd, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021'. Y bwriad yw adeiladu ar lwyddiant y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru gydag amcan cyffredinol i sicrhau cadwyn cyflenwi bwyd a diod sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol ac sydd ag enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth. Un uchelgais allweddol yw tyfu'r diwydiant yn gynaliadwy ar gyfradd sy'n uwch yn gymesur â gweddill ardaloedd y DU, tra bydd cymorth busnes yn y dyfodol yn gysylltiedig â nodau ac uchelgeisiau'r Contract Economaidd.

Mae cynllun Gwybodaeth Ddaearyddol (GI) newydd y DU wedi sicrhau bod ein 16 cynnyrch o Gymru a gofrestrwyd yn wreiddiol o dan gynlluniau'r UE yn parhau i gael eu gwarchod yn yr UE, yn ogystal â throsglwyddo'n awtomatig i gael eu gwarchod o dan gynllun GI newydd y DU.

Cymru oedd y wlad gyntaf i gofrestru dau gynnyrch newydd yn llwyddiannus o dan gynllun GI y DU, gan gynyddu teulu GI Cymru o gynhyrchion gwarchodedig i 18 aelod. Mae Cymru bellach mewn sefyllfa unigryw a gwahaniaethol o ardaloedd bwyd gwarchodedig a bydd yn parhau â'r momentwm hwn. Felly, uchelgais Cymru yn y weledigaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod o 2021 yw sicrhau bod hyd at chwe ardal cynnyrch allweddol arall yng Nghymru wedi'u cofrestru o dan gynllun GI y DU erbyn 2025. Mae Cymru'n cydnabod pwysigrwydd y mesur gwarchod hwn, sy'n dangos y cysylltiadau â'n treftadaeth fwyd, ein cymunedau a'n diwylliant.

Mae'r marchnata a'r cyfathrebu yn gysylltiedig â Dyfodol Cynaliadwy a byddant yn cael eu hadeiladu ar achrediadau amgylcheddol BCORP ac achrediadau eraill. Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r ddeddfwriaeth a themâu Bwyd ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r neges gynaliadwy hon yn gosod taith bwyd a diod Cymru ar wahân ac mae bellach yn cael ei rhannu'n eang mewn marchnadoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Yn ystod BlasCymru/TasteWales 2021, rhoddodd y National Geographic Traveller and Food Supplement sylw i'r meysydd hyn ac roedd fideo ar-lein yn sôn am Gymru a'i huchelgeisiau cynaliadwy – dyma'r sylw cyntaf o'r fath i unrhyw un o wledydd y DU.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant wrth i ni adfer o effeithiau'r pandemig Covid-19. Bydd 'Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021' a lansiwyd yn ddiweddar yn gwneud cyfraniad allweddol at y gwaith o leoli'r diwydiant ac mae ganddi'r gallu i fod yn hyblyg fel y gall ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Cyhoeddais y byddai digwyddiad cyntaf BlasCymru/TasteWales yn cael ei ohirio oherwydd y pandemig Covid-19 fis Mawrth diwethaf. Llwyddom i gynnal digwyddiad hybrid diogel o ran Covid ar 27 a 28 Hydref 2021. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol (ICC) yng Nghasnewydd. Thema'r digwyddiad oedd bwyd cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr adborth cychwynnol

gan bob cynrychiolydd yn gadarnhaol iawn a sicrhaodd y broceri busnes cychwynnol £14 miliwn mewn contractau ar gyfer busnesau yng Nghymru. Dengys y digwyddiad ein penderfynoldeb clir i barhau i hyrwyddo'r gorau sydd gan ddiwydiant bwyd a diod Cymru i'w gynnig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, ynghyd â datblygu mwy ar enw da Cymru drwy'r byd fel Cenedl Fwyd gynaliadwy.

## 1.3 Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)

Ers mis Ebrill 2015, mae'r rhan fwyaf o brofion croen TB buchol wedi'u cynnal gan filfeddygon preifat drwy Bartneriaid Cyflenwi Milfeddygol (VDP) o dan gontract. Mae rheolau caffael yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r farchnad gael ei hail-brofi, a dechreuodd contractau 'ail genhedlaeth' newydd ym mis Gorffennaf 2021. Mae'n anochel bod ail-brofi'r farchnad wedi cynyddu cost y contract Cymru a Lloegr sylweddol hwn.

Mae'r gyllideb yn cynnwys cynnydd yng nghostau rhedeg APHA, datblygu a gweithredu polisi TB yn hyblyg sy'n ofynnol mewn ymateb i nifer yr achosion o glefydau, mesurau rheoli ffiniau ychwanegol a gwiriadau am glefydau anifeiliaid ac adar egsotig.

Gallai methu â dangos rheolaeth effeithiol ar glefydau a bioddiogelwch anifeiliaid, gan gynnwys rheolaethau mewnforio, danseilio canfyddiad partneriaid masnachu allanol o sicrwydd rheolaethau swyddogol Cymru. Gallai hyn gael effaith ar allu'r DU gyfan i fasnachu â gwledydd eraill.

### 1.3.1 Rhaglen Dileu TB Buchol (gan gynnwys y Cynllun Cyflawni, profion ac iawndal)

Mae'r Rhaglen Dileu TB yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar bedair egwyddor allweddol rheoli clefydau heintus: Ei Gadw Allan, Ei Ddarganfod yn Gyflym, Ei Rwystro Rhag Lledaenu a Chael Gwared Arno. Rydym wedi gweld cynnydd da ers sefydlu ein rhaglen am y tro cyntaf, gyda gostyngiadau hirdymor yn nifer yr achosion a mynychder achosion. Rhwng 2009 a 2020, bu gostyngiad o 48% mewn digwyddiadau newydd ac mae'n werth atgoffa ein hunain bod 94.8% o fuchesi yng Nghymru yn rhydd o TB ar ddiwedd mis Mehefin 2021.

Fel rhan o'i hymrwymiadau yn y *Rhaglen Lywodraethu 2021-26,* mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wahardd difa moch daear fel rhan o'r Rhaglen Dileu TB. Mae cyllid yn parhau i fod ar gael i gefnogi cynlluniau brechu preifat ledled Cymru, ac asesu'r defnydd mwyaf priodol a chosteffeithiol o'r brechlyn BCG Moch Daear fel mesur amddiffynnol.

Lansiwyd dull rhanbarthol o ddileu TB yn 2017, gan greu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel, ac mae polisïau wedi parhau i gael eu mireinio, gan ymateb yn ddeinamig i'r darlun newidiol o'r clefyd, gan ymateb i'r heriau penodol sy'n deillio o'r pandemig Covid-19 ar yr un pryd

Gwnaeth y Gweinidog Ddatganiad ar 16 Tachwedd ar y Rhaglen Dileu TB ac aeth ati hefyd i lansio ymgynghoriad ar fesurau gwell, gan geisio barn ar agweddau megis taliadau am wartheg â TB, profion TB a phrynu gwybodus. Bydd yr ymgynghoriad yn para 12 wythnos gyda'r ymatebion i ddod i law erbyn 8 Chwefror 2022 a bydd yn llywio'r gwaith o adnewyddu'r Rhaglen Dileu TB.

*Profion TB*
Yng Nghymru, defnyddir prawf croen (*SICCT*) ar wddf gwartheg i adnabod anifeiliaid heintiedig. Mae hyn yn cymharu'r adweithiau i chwistrellu twbercwlin buchol ac adar. Yn gyffredinol, ystyrir bod anifeiliaid sy'n adweithio i'r twbercwlin buchol yn fwy na'r twbercwlin adar yn adweithyddion prawf croen.

Mae hwn yn brawf sydd wedi hen ennill ei blwyf, ac fe'i defnyddir yn fyd-eang fel y prif brawf gwyliadwriaeth ar gyfer rhaglenni rheoli TB. Mae'r prawf yn debygol o nodi dim ond un canlyniad 'positif anghywir' ym mhob 5,000 o wartheg nad ydynt wedi'u heintio. Ond, ar y gorau, efallai mai dim ond 80% o anifeiliaid heintiedig a nodir. Ar hyn o bryd, nid oes prawf, na chyfuniad o brofion, a fydd yn:

- nodi'r holl wartheg sydd wedi'u heintio â TB; a
- nodi'r holl wartheg nad ydynt wedi'u heintio fel anifeiliaid negatif.

Defnyddir prawf gwaed Interfferon-gama hefyd mewn rhai buchesi (fel prawf atodol) i helpu i nodi anifeiliaid heintiedig eraill.

Yng Nghymru, rydym yn profi:

- pob buches bob blwyddyn
- unrhyw anifail cyn iddo symud oddi ar y fferm, ac eithrio gwartheg risg isel yn yr Ardal TB Isel
- unrhyw anifail sy'n symud o fuches y tu allan i'r ardal TB Isel i fuches yn yr Ardal TB Isel

Rydym yn archwilio anifeiliaid yn y lladd-dy i nodi unrhyw rai sydd wedi'u heintio â TB na nodwyd yn y rhaglen gwyliadwriaeth profion (maent yn dod yn "achosion lladd-dy" ac yn arwain at brofion dilynol yn y fuches darddiad).

*Iawndal TB*
Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad statudol i dalu iawndal TB.

Mae hwn yn faes gwariant a arweinir gan y galw sy'n uniongyrchol gysylltiedig â faint o anifeiliaid sy'n cael eu lladd oherwydd TB. Mae newidynnau megis nifer yr anifeiliaid a laddir, gwerth pob anifail ar y farchnad a swm y gwerth digolledu sy'n gymwys i bob anifail yn cael effaith ar lefel y gwariant a'r derbyniadau digolledu a dderbynnir.

Mae Llywodraeth Cymru yn talu arian i berchnogion anifeiliaid am wartheg a laddir oherwydd TB, fel y nodir yng Ngorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) (Y Gorchymyn TB). Mae'r taliad yn cael ei gyfrifo ar hyn o bryd ar sail gwerth pob anifail unigol ar y farchnad. Amlinellir amryw o opsiynau talu amgen yn yr ymgynghoriad.

Yn dilyn rhywfaint o drafod, cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd Gynllun Dileu TB y DU ar gyfer 2019 a'r cyd-gyllid cysylltiedig o €8.99 miliwn i'w rannu rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## 1.4 Iechyd a Lles Anifeiliaid

Mae Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn nodi ein cynllun ar gyfer gwelliannau parhaus a pharhaol mewn safonau iechyd a lles anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a gedwir, gan helpu hefyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gwneud cyfraniad at yr economi a'r amgylchedd.

Caiff y gwaith o weithredu'r cynllun ei gefnogi a'i fonitro gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Mae'r wyth aelod a benodir yn gyhoeddus yn dod â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth ac yn deillio o ystod eang o sectorau a meysydd arbenigedd.

Mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael ag amryw o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, yn ogystal â gwaith parhaus ar bolisïau Cymru a chydweithrediadau polisi y DU/Prydain Fawr:

- Datblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, cyflwyno cofrestru ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid, bridwyr masnachol ar gyfer anifeiliaid anwes neu ar gyfer saethu, ac arddangosion anifeiliaid;
- Gwella'r cymwysterau ar gyfer arolygwyr lles anifeiliaid i godi eu statws proffesiynol;
- Gofyn am deledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy;
- Cyfyngu ar y defnydd o gewyll ar gyfer anifeiliaid a ffermir.

Gwaith parhaus ar bolisïau Cymru:

- Canllawiau Statudol ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021;
- Diweddaru Canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014;
- Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol (2020-23);
- Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid a Sefydliadau Anifeiliaid;
- Microsglodynnu Cŵn a Chathod;
- Codau ymarfer.

Cydweithrediadau polisi y DU/Prydain Fawr:

- Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir);
- Lles mewn Trafnidiaeth.

### 1.5 Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a'r Strategaeth

Mae'r Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth yn cydgysylltu, yn cefnogi ac yn arwain gweithgareddau pontio ac ymadael â'r UE ERA (gan gynnwys gweithredu swyddogaethau a strwythurau trawsbynciol newydd). Mae'r is-adran hefyd yn hwyluso, yn cydgysylltu ac yn darparu tystiolaeth strategol, modelau a'u cymhwysiad ymarferol i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau ehangach ERA. Rydym yn gyfrifol am:

- gysylltiadau rhynglywodraethol ym maes yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig (EFRA);
- tystiolaeth strategol, modelau a monitro i gefnogi datblygiad polisi ERA;
- materion Protocol Gogledd Iwerddon, gan gynnwys parodrwydd busnesau ar gyfer newidiadau cyfnod pontio'r UE;
- cydgysylltu'r broses o gwblhau fframweithiau cyffredin gan gynnwys craffu deddfwriaethol;

- darparu adnoddau a gallu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol mewn perthynas â tua 3,500 o bwerau newydd ar ôl cyfnod pontio'r UE;
- cyngor ar agweddau amgylcheddol ar gytundebau masnach.

### 1.6 Polisi Ffermio yn y Dyfodol a Thaliadau Uniongyrchol i Ffermwyr

Mae'r Is-adran Diwygio Rheoli Tir yn gyfrifol am ddylunio fframwaith polisi a rhaglen newydd i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yng Nghymru ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r rhaglen wedi'i halinio'n strategol â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru o ran ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi colli bioamrywiaeth a sicrhau bod ffermio yng Nghymru yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n cynnwys dylunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, datblygu'r fframwaith deddfwriaethol sylfaenol a phob agwedd ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a newid busnes o fewn y diwydiant amaethyddol.

### 1.7 Y Môr a Physgodfeydd

Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd yn gweithio i sicrhau bod ein moroedd yn lanach, yn iachach, yn fwy diogel, yn fwy cynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol. Yn fwy cyffredinol, mae ei gwaith yn ymwneud â diogelu a gwella'r amgylchedd morol, a rheoli ein pysgodfeydd amrywiol yn gynaliadwy. Mae ei gwaith yn cynnwys:

- Mae'r is-adran yn gyfrifol am amrywiaeth eang iawn o feysydd polisi ac mae'n wynebu amryw o heriau a chyfleoedd polisi o ganlyniad i ymadael â'r UE, gan gynnwys cynhyrchu Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.
- Datblygu cronfa newydd yn lle EMFF. Bydd y cyllid o £2.1 miliwn rydym wedi'i gael yn rhywfaint o help i'r sector morol a physgodfeydd, sy'n arbennig o agored i niwed yn sgil y newidiadau a gyflwynir o ganlyniad i ymadael â'r UE. Caiff y cyllid ar gyfer pysgodfeydd a chymorth i ffermwyr ei adlewyrchu yn nyraniadau refeniw'r MEG.
- Gweinidogion Cymru yw Gweinyddwr Pysgodfeydd cymwys Cymru ac mae'r is-adran yn gyfrifol am amryw o swyddogaethau statudol yn y maes hwn – mae hyn yn cyfrif am tua dwy ran o dair o waith yr is-adran. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys Rheoli a Gorfodi Pysgodfeydd, Rheoli Pysgodfeydd Domestig a Rhyngwladol, Trafodaethau Gwladwriaethau Arfordirol (penderfynu ar gyfleoedd pysgota stociau a rennir), Gwyddoniaeth Pysgodfeydd, Rheoli Cwotâu.

### 1.8 Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG)

Mae Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth yn cyflwyno RhDG Cymru a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 26 Mai 2015, ac a addaswyd ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2021, yn amlinellu blaenoriaethau Cymru ar gyfer defnyddio'r bron i € 977 miliwn o arian cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer y cyfnod o 7 mlynedd o 2014-2020 (€ 651.6 miliwn o gyllideb yr UE, gan gynnwys € 288.2 miliwn a drosglwyddwyd o'r amlen ar gyfer taliadau uniongyrchol y PAC, a € 325.4 miliwn o gyd-gyllid cenedlaethol).

Drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-20 (RhDG), sy'n rhedeg tan ddiwedd 2023, rydym yn parhau i ddarparu ystod eang o gynlluniau sy'n cefnogi blaenoriaethau o fewn fy mhortffolio fy hun, yn ogystal â rhai eraill. Erbyn diwedd y rhaglen, byddwn wedi buddsoddi £838 miliwn[1] yng nghefn gwlad Cymru.

Mae'r RhDG yn canolbwyntio'n bennaf ar adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth a gwella hyfywedd ffermydd a chystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Gyda 56% o'r cymorth wedi'i ddyrannu i reoli adnoddau naturiol yn well ac annog arferion ffermio sy'n ystyriol o'r hinsawdd, y nod yw diogelu 270,000 hectar o dir fferm drwy reoli tir amgylcheddol wedi'i dargedu at amcanion bioamrywiaeth, rheoli dŵr ac erydu pridd penodol. Bydd cynhyrchiant ffermio a choedwigaeth yn cael hwb, a fydd yn arwain at dwf economaidd a mwy o swyddi. Bydd cymorth hefyd yn targedu twristiaeth ac ynni adnewyddadwy, yn ogystal â gwella seilwaith TGCh a band eang i oddeutu hanner miliwn o bobl.

Yn ogystal, bydd y rhaglen yn hyrwyddo partneriaethau economaidd lleol gwirioneddol a'r dull LEADER, gan gwmpasu bron i hanner y boblogaeth wledig. At hynny, bydd 34,000 o leoedd hyfforddi yn cael eu creu i feithrin arloesedd, trosglwyddo gwybodaeth, cydweithredu, arferion ffermio mwy cynaliadwy a busnesau gwledig cryfach.

### 1.8.1 Taliadau amaethyddol parhaus cyn pontio i'r cynllun newydd – Cynllun y Taliad Sylfaenol a'r Cynllun Datblygu Gwledig

Mae Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith o gyflwyno cynlluniau yn lle'r RhDG. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid sylweddol i ffermwyr, rheolwyr tir a chymunedau gwledig. Rydym wedi nodi ein bwriad i gynnal ein cefnogaeth i ffermwyr drwy Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn 2022 a 2023. Byddaf yn ystyried lefelau cyllid BPS yn y dyfodol maes o law.

Drwy Raglen Datblygu Gwledig 2014-20 (RhDG), sy'n rhedeg tan ddiwedd 2023, rydym yn parhau i ddarparu ystod eang o gynlluniau sy'n cefnogi blaenoriaethau o fewn fy mhortffolio fy hun, yn ogystal â rhai eraill. Erbyn diwedd y rhaglen, byddwn wedi buddsoddi £838 miliwn[2] yng nghefn gwlad Cymru.

Wrth i fusnesau ffermio a diwydiannau gwledig bontio i ffwrdd o gymorth drwy'r RhDG, byddwn yn defnyddio adnoddau sy'n disodli cyllid yr UE i fuddsoddi yn ein cymunedau gwledig. Am y tro cyntaf, bydd gweithgarwch yn ymateb yn uniongyrchol i ymrwymiadau domestig yn hytrach na blaenoriaethau'r UE. Mae'r ymyriadau'n cefnogi'r pontio i'r cynllun ffermio newydd drwy:

- gynnal a gwella gweithgarwch sy'n cyfateb orau i egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy, lle mae cynlluniau yn RhDG yr UE yn dod i ben cyn lansio'r cynllun ffermio newydd. Mae hyn er mwyn sicrhau parhad y cymorth yn ystod y cyfnod pontio;
- ariannu gweithgarwch newydd sy'n cyfateb i egwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy, lle mae hyn eisoes wedi'i alluogi drwy bolisi domestig.

---

[1] Yn amodol ar amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid.
[2] Yn amodol ar amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu ddiwygiedig, yn dilyn Cytundeb Cydweithio Llafur-Plaid Cymru, yn adlewyrchu'r angen am daliadau cynaliadwyedd i ffermwyr wrth iddynt bontio i system newydd o gymorth i ffermydd. Rwyf wedi nodi fy mwriad i gynnal BPS ar y lefel bresennol yn 2022 a 2023.

Drwy'r RhDG, rwyf wedi ymestyn contractau amaeth-amgylcheddol Glastir tan ddiwedd 2023 ar gost o tua £70 miliwn i sicrhau bod yr enillion a wneir drwy'r cynlluniau hyn yn cael eu cynnal, cyn cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd yr estyniadau hyn yn cefnogi ein hymrwymiadau i symud i Sero-Net a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Yn unol â'n hymrwymiadau i blannu llawer mwy o goed, mae ein cynlluniau Glastir Coetir yn darparu cyllid cyfalaf i greu a rheoli coetiroedd yn gynaliadwy. Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren yn darparu cyllid i berchnogion coedwigoedd preifat, coedwigoedd awdurdodau lleol neu goedwigoedd eraill y sector cyhoeddus, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwelliannau sy'n ychwanegu gwerth at goedwigoedd ar gyfer gweithgareddau rheoli coetiroedd, cynaeafu pren a/neu brosesu pren.

Disgwylir i blatfform TG Taliadau Gwledig Cymru gefnogi sawl cynllun, gan gynnwys; galluogi cymunedau i greu 30 o goetiroedd newydd; darparu dull rheoli llifogydd sy'n seiliedig ar natur ym mhob dalgylch afon mawr i ehangu cynefinoedd gwlyptiroedd a choetiroedd; a sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morwellt a morfa heli. Felly, bydd amryw o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn cael eu cefnogi, yn enwedig lleihau carbon a bioamrywiaeth.

Byddwn yn targedu cyllid sy'n disodli cyllid yr UE at ffermwyr a rheolwyr tir wrth iddynt bontio tuag at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – bydd hyn yn cynnwys ffocws ar welliannau amgylcheddol, rheoli tir ar raddfa ffermydd, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Byddwn hefyd yn targedu rheoli tir ar raddfa tirwedd a chadwyni cyflenwi bwyd. Mae'r holl flaenoriaethau hyn yn cefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Byddaf yn cyhoeddi rhagor o fanylion am gynlluniau ariannu yn y dyfodol ar ôl i mi gael cyfle i ystyried cynigion a gyflwynwyd gan fy swyddogion.

### 1.8.2 Yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ar gyfer cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol

Mae trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn parhau, er nad yw Llywodraeth y DU yn cynnig y lefelau blaenorol o gyllid amaethyddol a ddarparwyd i Gymru gan yr UE. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylid defnyddio'r broses datrys anghydfod sydd heb ei phrofi eto i geisio datrys y mater hwn.

## 1.9 Taliadau Gwledig Cymru

Taliadau Gwledig Cymru yw'r is-adran fwyaf yn Llywodraeth Cymru (gyda 350 o staff cyfwerth ag amser llawn) sy'n gweithredu fel yr asiantaeth dalu ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, ymhlith cynlluniau eraill.

Rydym yn gweithredu'r Cynllun Taliad Sylfaenol domestig a thros 30 o gynlluniau gwahanol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd

Ewrop (EMFF), gyda thaliadau blynyddol gwerth tua £340 miliwn yn cael eu dilysu a'u prosesu i dros 17,000 o ffermwyr, pysgotwyr, busnesau a chymunedau gwledig Cymru bob blwyddyn.

O dan y Cytundeb Ymadael â'r UE, bydd y RhDG ac EMFF yn gweithredu o dan gyfraith yr UE yn y DU tan fis Rhagfyr 2023 ac yn parhau i gael eu gweinyddu gan Taliadau Gwledig Cymru.

Sefydlwyd Rhaglen Newid Taliadau Gwledig Cymru i gau rhaglenni'r PAC ac EMFF yn ffurfiol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r rheolau yng Nghymru, ar yr un pryd â chynllunio a gweithredu'r broses o bontio o raglenni'r UE i'r cynlluniau newydd sydd i'w cyflwyno o dan bolisïau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir ym Mil Amaethyddol Cymru a'r Bil Pysgodfeydd.

### 1.10 Gweinidog Gogledd Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar Ogledd Cymru

Fel Gweinidog Gogledd Cymru, rwy'n benderfynol o sicrhau bod gan y Gogledd ddyfodol cryf, teg a disglair nad yw'n gadael neb ar ôl. Mae ein llywodraeth wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i gyflwyno cyfres o ddatblygiadau cyffrous i'r rhanbarth, o fuddsoddiad yn ein parciau cenedlaethol ac AHNE, hyd at sefydlu ysgol feddygol yn y Gogledd, i ymyriadau wedi'u targedu sy'n helpu i fynd i'r afael â'r heriau rydym wedi'u hwynebu o ganlyniad i'r pandemig. Rwyf wedi fy nghyffroi am ddyfodol y Gogledd a'r datblygiadau sydd i ddod.

Yn fy rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Sefydlog y Cabinet ar Ogledd Cymru, rwy'n arwain y Pwyllgor a'i aelodau wrth ystyried materion yn ymwneud â datblygiad cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy a chynhwysol, adferiad ar ôl y pandemig, a gwella iechyd ac ansawdd bywyd dinasyddion Cymru yn y Gogledd.

## 2. Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

### 2.1 Polisi Amaethyddol (gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig i Gymru)

Mae Llywodraeth y DU wedi mabwysiadu'r un fethodoleg mewn perthynas â chyllid sy'n disodli cyllid yr UE yn yr Adolygiad o Wariant hwn ag y gwnaethant eleni (2021/22). Rydym yn anghytuno â'r dull hwn, sy'n arwain at sefyllfa net mewn perthynas â gwariant yr UE sydd dros ben. Arweiniodd at ddiffyg cyllid disgwyliedig o £137 miliwn eleni, a bydd yr un dull yn golygu bod Cymru'n cael o leiaf £106 miliwn yn llai na'r disgwyl dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant hwn. Ynghyd â'i chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn amlinellu ein gwrthwynebiadau i'r dull hwn.

### 2.2 Dileu TB buchol

Mae DEFRA wedi cadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â chymryd rhan (fel trydedd wlad) yn Rhaglen Marchnad Sengl yr UE o 2021 ymlaen. Mae hyn yn golygu na fydd cyfle i gael rhagor o arian gan yr UE ar gyfer Rhaglen i

Ddileu TB Buchol y DU ar ôl 31 Rhagfyr 2021. Derbyniwyd y taliad terfynol o £1.09m o gyllid yr UE ym mis Awst 2021. Mae'r arian hwn ar gyfer y Rhaglen i Ddileu TB 2020.

Mae'r polisi TB buchol presennol yn cael ei lywio gan fframwaith yr Undeb Ewropeaidd, a ffurfiwyd gan ddeddfwriaeth (77/391/EEC a 78/52), sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddatblygu rhaglenni dileu er mwyn cyflymu, dwysáu neu gyflawni'r bwriad o ddileu TB buchol.

Adolygir ein Rhaglen Ddileu yn flynyddol fel rhan o'r broses o gyflwyno Cynllun Dileu TB y DU i'r CE ac mae wedi cael cymeradwyaeth gan y CE am naw mlynedd yn olynol.

Mae Cynllun y DU yn cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cyflawnodd yr Alban Statws Heb TB Swyddogol. Mae Cyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC yn nodi y gellir datgan bod Aelod-wladwriaeth neu ran o Aelod-wladwriaeth heb dwbercwlosis yn swyddogol os yw'n bodloni'r amodau canlynol:

- Nid yw canran y buchesi buchol a gadarnhawyd fel rhai sydd wedi'u heintio â thwbercwlosis wedi mynd y tu hwnt i 0.1% y flwyddyn o'r holl fuchesi am chwe blynedd yn olynol.
- Mae o leiaf 99.9% o fuchesi wedi cyflawni statws heb TB swyddogol bob blwyddyn am chwe blynedd yn olynol.
- Cyfrifir y ganran olaf hon ar 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn galendr.

Ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ni fyddwn yn llacio'r rheolaethau rydym yn eu gweithredu ar hyn o bryd. Wrth i ni symud tuag at ddileu TB, mae'n debygol iawn y bydd angen i ni weithredu mesurau llymach er mwyn lleihau'r clefyd ymhellach.

Mae cydweithwyr Llywodraeth Cymru wedi rhoi manylion i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllid yr UE ynghylch lefel cyllid yr UE a roddwyd i TB gan yr UE yn hanesyddol (tua £3 – 4 miliwn y flwyddyn ariannol) mewn ymgais i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael y lefel hon o gyllid gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar ôl y cyfnod pontio o'r UE. Mae Defra wedi cadarnhau nad oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi'i gytuno gan Drysorlys Ei Mawrhydi, ac y byddai angen i adolygiadau o wariant gyda'r Trysorlys geisio rhoi cyfrif am hyn.

Yn hanesyddol, mae cyllid yr UE wedi'i gapio ar €31 miliwn ar gyfer y DU. Ar gyfer 2017, dyrannodd yr UE €27.64 miliwn o gyllid i'r DU ac, ar gyfer 2018, 2019 a 2020, mae'r swm hwn wedi'i leihau ymhellach oherwydd ailflaenoriaethu cyllid o fewn y CE. Gwelir yr hanes ariannu yn y tabl isod.

Yn dilyn rhywfaint o drafod, cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd Gynllun Dileu TB y DU ar gyfer 2020 a'r cyd-gyllid cysylltiedig o €3.00 miliwn i'w rannu rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon. Rydym yn disgwyl derbyn y rhandaliad terfynol o £1.13 miliwn o gyllid yr UE ddiwedd 2021, a bydd hyn yn ymwneud â Rhaglen Ddileu 2020.

Mae DEFRA wedi cadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â chymryd rhan (fel trydedd wlad) yn Rhaglen Marchnad Sengl yr UE o 2021 ymlaen. Mae hyn yn golygu na fydd cyfle i gael rhagor o arian gan yr UE ar gyfer Rhaglen Dileu TB Buchol y DU ar ôl 2021

## 2.3 Polisi Pysgodfeydd (gan gynnwys cyflwyno Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a Chynlluniau Rheoli Pysgodfeydd)

Mae gennym ymrwymiad statudol i gyflwyno Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS), gyda gweinyddiaethau eraill y DU, a fydd yn nodi ein polisïau i gyflawni, neu gyfrannu at gyflawni, Amcanion Pysgodfeydd y DU. Mae'r Amcanion yn adlewyrchu conglfaen rheoli pysgodfeydd yn dda, felly bydd cyfran fawr o'n polisïau presennol a'n dull strategol yn y dyfodol yn cyflawni yn eu herbyn. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o reoli pysgodfeydd wedi'i ddatganoli a bydd pob awdurdod polisi pysgodfeydd yn gweithredu polisïau'r JFS yn unol â'r setliadau datganoledig. Bydd y JFS yn nodi rhestr o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs), i'w darparu dros oes y Datganiad cyntaf. Bydd yr holl asesiadau effaith angenrheidiol yn cael eu cynnal wrth ddatblygu unrhyw bolisïau newydd dros oes y JFS, gan gynnwys datblygu'r Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd.

Bydd rhai o'r FMPs hyn yn ddulliau gweithredu ar y cyd â Gweinyddiaethau eraill i adlewyrchu graddau daearyddol y stociau pysgod penodol. Bydd eraill yn gynlluniau rhanbarthol i Gymru a byddant yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r ystyriaethau rwy'n eu cymryd mewn perthynas â'n nodau a'n huchelgeisiau polisi ein hunain.

Byddaf yn ceisio barn ar y cynigion a'r amseru penodol ar gyfer cyhoeddi FMPs drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y JFS ym mis Ionawr. Bydd y Senedd yn craffu ar y JFS yn y Flwyddyn Newydd hefyd. Rhaid cyhoeddi'r JFS o fewn dwy flynedd i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 gael cydsyniad brenhinol, erbyn 23 Tachwedd 2022

## 2.4 Strategaeth Bwyd a Diod ar ôl Brexit

Cyhoeddwyd gweledigaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod ar 29 Tachwedd 2021 a bydd yn creu diwydiant cryf a bywiog sydd ag enw da yn fyd-eang am ragoriaeth, gydag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol yn y byd. Mae'n canolbwyntio ar nodau i:

- gynhyrchu twf busnes a chynyddu cynhyrchiant;
- lledaenu Gwaith Teg i weithwyr;
- cyrraedd lefelau uwch o gynaliadwyedd amgylcheddol; a
- chodi a hyrwyddo enw da a safonau proffesiynol y diwydiant.

Mae'r dull hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd dros y degawd diwethaf, yn cydnabod yr anawsterau a achoswyd gan ymadael â'r UE a Covid-19, ac mae'n seiliedig ar bartneriaeth gyda busnesau a rhanddeiliaid lle bydd cymorth Llywodraeth Cymru yn gynyddol amodol ar werthoedd a chamau gweithredu cyffredin.

Mae'r diwydiant yn gweithredu o fewn cyd-destun materion economaidd-gymdeithasol megis y pwyslais cynyddol ar fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol ac iechyd cynhyrchu bwyd a deiet, amgylchedd masnachu newydd yn y DU, yr angen dybryd i ddatgarboneiddio a lleihau gwastraff ac effaith amgylcheddol. Gyda busnesau wedi'u lleoli ledled Cymru, mae'r diwydiant bwyd a diod yn rhan o economi sylfaenol ac yn rhan annatod o gadwyni cyflenwi sy'n cysylltu, mewn rhai sectorau, â ffermio a physgota yng Nghymru, ac â manwerthu, cyfanwerthu a'r sector gwasanaeth lle mae cynnig cynnyrch y diwydiant yn cael ei werthfawrogi fwyfwy gan ddefnyddwyr, ac mae'n bwynt gwerthu unigryw ar gyfer twristiaeth.

Bydd ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddeg prif faes:

- seilio penderfyniadau ar bolisi a chymorth ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ymchwil, gwerthuso a dealltwriaeth o'r farchnad i lywio ac arwain, a chynorthwyo busnesau a rhanddeiliaid i ddatblygu gallu gwybodaeth i helpu eu hunain;
- tyfu busnesau cryfach sy'n gallu tyfu'n gynaliadwy a sicrhau â chynhyrchiant sydd gyda'r gorau yn y farchnad;
- adeiladu rhwydweithiau, ysgogi cydweithio drwy rwydweithiau, clystyrau, wedi'i integreiddio â chymorth technegol, i ledaenu arfer gorau a dod o hyd i gyfleoedd i ychwanegu gwerth;
- mynd i'r afael â gwendidau systemig megis cefnogi busnesau bach i fod yn fusnesau canolig, a busnesau canolig i fod yn fusnesau mawr, gan wella seilwaith safleoedd busnes, agregwyr a chyfanwerthwyr a chysylltu'r rhain i greu rhwydweithiau a chadwyni cyflenwi lleol, cryf.
- darparu cymorth technegol cryf, gan adeiladu ar lwyddiant Arloesi Bwyd Cymru;
- dod o hyd i gyfleoedd ym marchnad y DU a manteisio arnynt, datblygu rhagor ar ein Cynllun Manwerthu, gwneud cynnydd yn y sectorau gwasanaeth a chyfanwerthu, a manteisio ar y cyfleoedd i dyfu sianelau gwerthu yn Uniongyrchol i Ddefnyddwyr;
- cynyddu ein hallforion a defnyddio ein cynhyrchion a'n busnesau i arddangos Cymru, gyda Blas Cymru fel y prif ddigwyddiad i hyrwyddo'r diwydiant i gynulleidfa yn y DU ac yn rhyngwladol;
- creu brand cryf, gan ganolbwyntio ar gynhyrchion a busnesau sy'n cynrychioli'r gorau o Gymru, gan ehangu ein teulu o Enwau Bwyd Gwarchodedig;
- denu buddsoddiad i fusnesau a'n seilwaith bwyd;
- sicrhau bod ein cymorth yn ysgogi blaenoriaethau craidd Llywodraeth Cymru megis ar gyfer cynaliadwyedd, cymunedau ffyniannus, datgarboneiddio a gwaith teg.

Gan ategu ein strategaeth diwydiant, rydym wedi dechrau gweithio ar Strategaeth Bwyd Cymunedol a fydd, yn ein barn ni, yn arwain ac yn grymuso gweithgarwch ar lawr gwlad a diddordeb mewn bwyd. Drwy feithrin gallu, ein nod yw lleoleiddio cadwyni cyflenwi bwyd lle bo hynny'n ymarferol.

### 2.5 Digon o adnoddau staffio ar gyfer datblygu polisïau a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit

Mae Llywodraeth Cymru wedi recriwtio'n enwol i ymdrin â meysydd gwaith newydd hollbwysig sy'n deillio o ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd - er enghraifft, paratoi ein ffiniau. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â mwy nag adnoddau staff. Mae'n ymwneud hefyd â sut rydym yn addasu ac yn parhau i ymateb i ffordd gwbl newydd o weithio i Gymru, ein rôl yn y DU a'n hymgysylltiad â'r UE a chenhedloedd masnachu eraill. Er enghraifft, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd a minnau yn rhan o grŵp Rhyngweinidogol ffurfiol gyda Llywodraeth y DU (Defra), Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, lle mae'n rhaid i ni gytuno sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu polisi lle mae pwerau wedi llifo'n ôl o'r UE.

Cefnogir y gwaith hwn gan gyfres o fframweithiau cyffredin y bydd y pwyllgor yn craffu arnynt ar ôl eu cyhoeddi. Mae'r rhain yn gosod trefniadau ar gyfer sut rydym yn dod at ein gilydd ledled y DU mewn meysydd pwnc. At hynny, mae peirianneg TCA yr UE yn dal i esblygu ac yn gofyn i ni feddwl yn wahanol am sut rydym yn ymateb, yn yr un modd ag y mae angen i ni ddeall amgylchedd masnachu sy'n esblygu.

## 3. Deddfwriaeth

Byddwn yn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth ym mlwyddyn gyntaf y Senedd. Bydd hwn yn ddarn uchelgeisiol o ddeddfwriaeth sy'n diwygio degawdau o gymorth i ffermydd yr UE ac yn cynrychioli newid sylweddol i'r sector. Bydd y Bil yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol sydd eu hangen i gefnogi ffermwyr yn y blynyddoedd i ddod ac, yn hollbwysig, sefydlu system newydd o gymorth i ffermydd yn seiliedig ar egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth, byddwn yn cyhoeddi amlinelliad o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Nid hwn fydd y Cynllun terfynol, ond bydd yn cynnwys manylion am y strwythur a'r camau gweithredu penodol rydym yn cynnig y dylid gofyn i ffermwyr eu cymryd. Bydd y camau gweithredu yn y Cynllun wedi cael eu dadansoddi'n eang i amcangyfrif y gost economaidd i'r busnes fferm o'u cyflawni a'r manteision amgylcheddol cysylltiedig. Bydd hyn yn ein galluogi i gael sgyrsiau manwl gyda ffermwyr ar y cynigion a phrofi ein syniadau. Bydd hyn yn cael ei hwyluso drwy ail gam ein gwaith cyd-ddylunio. Byddwn hefyd yn lansio amrywiaeth o ymyriadau a fydd yn helpu i baratoi'r tir ar gyfer y cynllun newydd a threialu'r broses a fydd yn cael ei defnyddio i'w gyflawni. Mae dyraniad y gyllideb yn cefnogi'r gweithgarwch hwn.

## 4. Gwariant Ataliol

### 4.1 Manylion cyfran y gyllideb portffolio a ddyrannwyd i fesurau gwariant ataliol a sut mae hyn wedi cynyddu o gymharu â chyllideb y llynedd.

Mae'r cyllid a ddyrennir i'r RhDG a chyllid disodli yn ataliol – yn targedu gwelliannau amaeth-amgylcheddol drwy Glastir; gwell cynhyrchiant a hyfywedd busnesau drwy BPS, y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig; creu ac adfer coetiroedd; a llawer o gynlluniau eraill yn cael eu darparu a'u datblygu.

Rydym wedi cynnal elfen arian cyfatebol y RhDG hyd at ddiwedd y rhaglen, gan sicrhau y byddwn yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i ni. Mae'r holl gyllid amnewid a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn cael ei drosglwyddo i'm cyllideb, a ddefnyddir i gefnogi'r pontio i SFS ac ar gyfer blaenoriaethau eraill y Rhaglen Lywodraethu.

### 4.2 Manylion pa bolisïau neu raglenni penodol yn y portffolio y bwriedir iddynt fod yn ataliol.

Mae'r RhDG a rhaglenni cyllid cyfalaf disodli wedi'u dylunio mewn modd sy'n hyrwyddo arferion cynaliadwy ac yn sbarduno lleihad mren allyriadau carbon (ac felly'n gweithio i atal effaith y newid yn yr hinsawdd). Er enghraifft, drwy'r Grant Cynhyrchu

Cynaliadwy, a ddarperir drwy'r RhDG, mae grantiau'n amrywio o £12,000 i £50,000 fel uchafswm cyfraniad o 40% at gostau prosiect. Bydd yr eitemau a gefnogir yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, storfeydd slyri wedi'u gorchuddio a heb eu gorchuddio ac offer rheoli slyri. Bydd hyn yn gyfle i fwy o ffermwyr arwain y ffordd o ran mynd i'r afael â llygredd amaethyddol er mwyn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer.

## 5. Llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

5.1 Esboniad o sut rydych wedi defnyddio tystiolaeth wrth flaenoriaethu dyraniadau eich cyllideb ddrafft a sut y byddwch yn monitro a gwerthuso rhaglenni i sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian ac yn llywio prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.
Mae amgylchedd Cymru yn sail i'r sectorau amaethyddiaeth, pysgodfeydd, twristiaeth a choedwigaeth, ac mae'n bwysig hefyd i feysydd polisi eraill, yn cynnwys iechyd a llesiant, ynni a seilwaith. Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau sy'n meithrin cadernid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac er mwyn gwerthuso'r modd mae rhaglenni'n cael yn gweithredu, rydym yn buddsoddi'n flynyddol yn y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP).

Mae ERAMMP yn darparu rhaglen monitro a modelu amgylcheddol; mae'n casglu ac yn cymathu data, yn dadansoddi ac yn modelu, ac yn rhoi tystiolaeth wedi'i thargedu i dimau polisi, i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac i randdeiliaid.

O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, rwy'n cydnabod pa mor bwysig yw gwerthuso'r Rhaglen bresennol er mwyn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer unrhyw drefniadau yn y dyfodol. Cytunwyd yn ffurfiol ar gynllun gwerthuso'r Cynllun cyfredol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o broses gymeradwyo'r Rhaglen. Mae'r cynllun gwerthuso, a chyflawni yn ei erbyn, yn elfen orfodol o'r Rhaglen.

Byddaf yn sicrhau bod gwaith monitro a gwerthuso cadarn yn cael ei roi ar waith i asesu effaith ac effeithiolrwydd cynlluniau i'w darparu gyda chyllid disodli, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Byddwn yn ceisio dysgu o'r fframwaith monitro a gwerthuso sydd ar waith ar gyfer cyllid y RhDG. Bydd gwerth am arian yn gonglfaen i'r holl werthuso.

5.2 Manylion sut mae'r broses o ddatblygu'r gyllideb ddrafft wedi'i llywio a'i dylanwadu o ganlyniad i ymgynghori â rhanddeiliaid.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

### 6.1 Sut mae'r Ddeddf wedi llywio penderfyniadau ar ddyraniadau cyllideb penodol

Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb drafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Adolygwyd y tueddiadau cyfredol ac amcanestyniadau'r dyfodol a'u heffeithiau posib yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethom hyn er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn arwain at effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

Drwy'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy, rydym yn cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd sy'n cyflawni camau gweithredu sy'n gwella ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau fferm a gwledig a chymunedau gwledig. Bydd hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso'r gwaith o gydgysylltu â chynlluniau eraill i ymgymryd â'r camau hanfodol sydd eu hangen i wella gallu busnesau fferm a gwledig a chymunedau gwledig i wrthsefyll effeithiau'r hinsawdd. Mae'r SMS wedi'i ddylunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r angen i fynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau, megis y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth sy'n dirywio, yn golygu bod angen ymgymryd ag ymyriadau a chamau gweithredu i alluogi Cymru i dyfu, gwella cydnerthedd a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn effeithlon.

Bydd angen i'r holl gyllid disodli ar gyfer datblygu gwledig gyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u llunio o amgylch y ffyrdd y gall adnoddau naturiol gefnogi ein nodau llesiant a mynd i'r afael â'r risgiau i'r amgylchedd a'r manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu.

### 6.2 Sut mae'r broses asesu effaith wedi dylanwadu ar ddatblygu'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys enghreifftiau o ble mae penderfyniad wedi'i asesu yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru

Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, bu nifer o raglenni allweddol yn destun Asesiadau Effeithiau Integredig yn cwmpasu cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effeithiau integredig wedi'u prif ffrydio yn y broses llunio polisïau yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol.

Rwy'n falch o ddweud nad ydym wedi cyflwyno unrhyw ostyngiadau cyllidebol yn y gyllideb ddrafft hon, felly cynhaliwyd unrhyw asesiadau effeithiau ar nifer o fentrau polisi a chyllidebol newydd. Mae'r holl gynlluniau a phrosiectau y byddwn yn eu datblygu wedi'u hasesu o safbwynt ein hamcanion llesiant, a bydd angen i bawb gynnal asesiadau effaith i sicrhau cyllid.

Dengys canlyniadau'r asesiadau effeithiau nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd o ganlyniad i'r penderfyniadau cyllidebol hyn.

## 7. Asesiad Cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant

### 7.1 Effaith y gyllideb ddrafft ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg, gan gynnwys manylion unrhyw asesiadau effaith perthnasol

Dengys canlyniadau'r asesiadau effeithiau nad oes unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau a nodwyd o ganlyniad i'r penderfyniadau cyllidebol hyn.

### 7.2 Sut yr ystyriwyd hawliau plant ym mhenderfyniadau'r gyllideb ar gyfer y portffolio

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU, ac un o'r ychydig wledydd yn y byd, i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig trwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Caiff dyletswyddau'r Mesur eu gweithredu mewn dau gam ac maent yn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:

- a'i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisi a deddfwriaeth; a
- phan fyddant yn defnyddio eu holl bwerau neu ddyletswyddau cyfreithiol.

Ar draws fy mhortffolio, mae'n ofynnol i bob aelod o staff ystyried sut mae ei waith yn effeithio ar hawliau plant, ac mae'r broses hon wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant wrth bennu'r gyllideb hon.

## 8. Cyllideb

### 8.1 Manylion y sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau cyllidebol.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu dull strategol o ymdrin â Physgodfeydd, gan weithio gyda rhanddeiliaid. Bydd ffocws clir ar ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy, a reolir mewn ffordd addasol, gyda chyllideb wedi'u darparu ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol. Rwy'n bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i sefydlu'r blaenoriaethau ar gyfer cyflawni.

Un o'r galluogwyr allweddol fydd cael cynllun clir ar gyfer buddsoddi yn ein sector bwyd môr i ategu ein dull strategol. Yn hanfodol i'r buddsoddiad hwn fydd y cymorth a ddarparwn drwy ddisodli'r cynllun EMFF. Byddwn yn dylunio ac yn datblygu cynllun ariannu, a fydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau strategol.

Rhaid cyhoeddi'r JFS o fewn dwy flynedd i Ddeddf Pysgodfeydd 2020 gael cydsyniad brenhinol, erbyn 23 Tachwedd 2022. Bydd Cynlluniau Datblygu Pysgodfeydd a gwaith datblygu polisi sy'n gysylltiedig â'r JFS yn cael eu rheoli a'u blaenoriaethu o fewn costau rhedeg presennol yr is-adran a'i dyraniad o'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

Mae Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig (gweler paragraff 5.1). Yn ogystal, mae'r gwaith sy'n amcangyfrif effeithiau economaidd y Cynllun arfaethedig yn cael ei wneud gan gonsortiwm o academyddion ac ymgynghorwyr dan arweiniad ADAS. Mae'r gwaith hwn yn cynrychioli asesiad annibynnol o effeithiau economaidd ein cynigion. Mae'r gwaith yn amcangyfrif effeithiau economaidd y camau gweithredu allweddol rydym yn rhagweld y byddant yn rhan bwysig o'r Cynllun arfaethedig. Mae'r camau hyn yn cynnwys rheoli cynefinoedd; rheoli a chreu coetiroedd; a rheoli tir a maetholion.

### 8.2 Manylion y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau gydol y flwyddyn, gan nodi diffygion a gwargedau posibl, a chymryd camau unioni i gael y gyllideb yn ôl ar y trywydd iawn neu ddyrannu cyllid ychwanegol i wneud iawn am unrhyw ddiffyg

Mae'r holl gyllidebau'n parhau i gael eu monitro a'u herio'n fisol yn ystod 2021-22, a bydd hyn yn parhau yn 2022-23, i ystyried y rhagolygon a'r symudiadau cyllideb diweddaraf yn ôl yr angen. Rwy'n cael diweddariadau ariannol rheolaidd ar y rhagolygon ar gyfer y MEG er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n parhau ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau. Rydym yn parhau i fonitro'n agos iawn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle bo'r angen mwyaf, gan gefnogi ein blaenoriaethau ar yr un pryd – yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Mae trefniadau a strwythurau llywodraethu yn parhau i fod ar waith o amgylch y pandemig COVID-19.

### 8.2 Sut mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer gweithredu deddfwriaeth sy'n cael ei phasio yn y Senedd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol y DU.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC), y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) a Sancsiynau Sifil (CS) yn y Papur Gwyn Amaethyddol ac mae dau Fil wedi'u trefnu ar gyfer y tymor hwn. Er bod cysylltiad rhyngddynt, mae'r polisïau hyn yn bolisïau ar wahân sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain. Mae'r SGC yn darparu gwaelodlin rheoleiddiol sy'n berthnasol i bob ffermwr, mae SFS yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gefnogi'r rhai sy'n rhagori ar y gwaelodlin hwn ac mae CS yn darparu ystod o ddulliau gorfodi cymesur ar gyfer y rhai sy'n disgyn islaw'r gwaelodlin.
Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn bodloni ymrwymiadau'r Gweinidog ac yn sicrhau polisi amaethyddol cydgysylltiedig a chyson.

## 3.0 Strwythur y Gyllideb

## Crynodeb o Newidiadau i'r Gyllideb

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau a grynhoir ar lefel uchel fesul maes busnes ar gyfer y MEG Materion Gwledig.

Ceir crynodeb o gyfanswm y gyllideb refeniw yn Nhabl 1 isod:

**TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau**

| | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | | | | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 295,612 | 300,212 | 4,600 | 2% | 363,212 | 63,000 | 21% | 385,212 | 22,000 | 6% |
| Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | 31,699 | 41,499 | 9,800 | 31% | 41,499 | 0 | 0% | 41,499 | 0 | 0% |
| Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | 2,834 | 3,434 | 600 | 21% | 3,434 | 0 | 0% | 3,434 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **330,145** | **345,145** | **15,000** | **5%** | **408,145** | **63,000** | **18%** | **430,145** | **22,000** | **5%** |
| Nad yw'n Arian Parod | | | | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 11,554 | 10,817 | -737 | -6% | 10,817 | 0 | 0% | 10,817 | 0 | 0% |
| **Is-gyfanswm** | **11,554** | **10,817** | **-737** | **-6%** | **10,817** | **0** | **0%** | **10,817** | **0** | **0%** |
| **CYFANSWM** | **341,699** | **355,962** | **14,263** | **4%** | **418,962** | **63,000** | **18%** | **440,962** | **22,000** | **5%** |

Ceir crynodeb o gyfanswm y gyllideb cyfalaf yn Nhabl 2 isod:

| TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Cyfalaf | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
| Cyfalaf Cyffredinol | | | | | | | | | | |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | 14,456 | 37,200 | 22,744 | 157% | 37,200 | 0 | 0% | 37,000 | (200) | -1% |
| Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | 150 | 0 | (150) | -100% | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **14,606** | **37,200** | **22,594** | **155%** | **37,200** | **0** | **0%** | **37,000** | **(200)** | **-1%** |

## 3.1 Adnoddau

Nodir y cynnydd yn y gyllideb adnoddau o £100 miliwn dros y tair blynedd ariannol nesaf yn Nhabl 3 isod:

| TABL 3: Symudiadau'r Gyllideb Adnoddau Cyllidol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2022-23 £'000** | **2023-24 £'000** | **2024-25 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| ***Dyraniadau Ychwanegol*** | | | | |
| Cyllid Fferm yn Lle Cyllid yr UE | 0 | 63,000 | 22,000 | **85,000** |
| Iawndal TB | 5,000 | 0 | 0 | **5,000** |
| **Pwysau arall o'r Rhaglen Lywodraethu (sef yr isod)** | **10,000** | **0** | **0** | **10,000** |
| Iechyd Anifeiliaid | 4,800 | 0 | 0 | **4,800** |
| Ychwanegol i Gefnogi SFS | 3,350 | 0 | 0 | **3,350** |
| Strategaeth Bwyd Cymunedol | 1,850 | 0 | 0 | **1,850** |
| **Cyfanswm Symudiadau Adnoddau Cyllidol** | **15,000** | **63,000** | **22,000** | **100,000** |

Yn 2022-23, mae'r gyllideb Refeniw yn cynyddu £15 miliwn yn erbyn gwaelodlin 2021-22.
Mae'r dyraniad o £5 miliwn yn cefnogi fy rhwymedigaethau statudol i ariannu iawndal TB, yr wyf wedi bod yn ei reoli fel pwysau mewn blynyddoedd blaenorol ar draws fy MEG. Y dyraniadau sylfaenol eraill yw cefnogi Iechyd a Lles Anifeiliaid a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

Cyllid Fferm disodli gan y DU yw cyllid i ddisodli'n uniongyrchol gyllid yr UE a dderbyniwyd ar gyfer BPS a'r RhDG (pe baem wedi aros yn yr UE) ac felly nid yw'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer cyllid fferm wedi cynyddu.

## Cyfalaf

Nodir dyraniadau'r gyllideb cyfalaf o £37 miliwn y flwyddyn yn Nhabl 4 fel a ganlyn:

| TABL 4: Dyraniadau'r Gyllideb Cyfalaf | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 | 2024-25 £'000 | Cyfansw m £'000 |
| ***Dyraniadau*** | | | | |
| ***Cyfalaf Cyffredinol*** | | | | |
| Adnabod a Symud Da Byw | 1,000 | 1,000 | 1,000 | **3,000** |
| Y Môr a Physgodfeydd | 200 | 200 | 0 | **400** |
| Taliadau Gwledig Cymru – TG | 6,000 | 6,000 | 6,000 | **18,000** |
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – RhDG | 9,500 | 9,500 | 0 | **19,000** |
| Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig | 20,500 | 20,500 | 30,000 | **71,000** |
| **Cyfanswm Dyraniadau Cyfalaf** | **37,200** | **37,200** | **37,000** | **111,400** |

## 1.0 Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

| Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 295,612 | 300,212 | 4,600 | 2% | 363,212 | 63,000 | 21% | 385,212 | 22,000 | 6% |
| Nad yw'n Arian Parod | 11,554 | 10,817 | (737) | -6% | 10,817 | 0 | 0% | 10,817 | 0 | 0% |
| Cyfalaf | 14,456 | 37,200 | 22,744 | 157% | 37,200 | 0 | 0% | 37,000 | (200) | -1% |
| **CYFANSWM** | **321,622** | **348,229** | **26,607** | **8%** | **411,229** | **63,000** | **18%** | **433,029** | **21,800** | **5%** |

Esbonnir y dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch Llinell Wariant yn y Gyllideb yn yr adrannau canlynol.

## Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Amaethyddiaeth (2829) | 400 | 650 | 250 | 63% | 650 | 0 | 0% | 650 | 0 | 0% |
| Cyllid Fframwaith Awdurdodau Lleol (2831) | 200 | 200 | 0 | 0% | 200 | 0 | 0% | 200 | 0 | 0% |
| Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaeth (2860) | 400 | 400 | 0 | 0% | 400 | 0 | 0% | 400 | 0 | 0% |
| Prosiect Sir, Plwyf, Daliad (2861) | 500 | 500 | 0 | 0% | 500 | 0 | 0% | 500 | 0 | 0% |
| EID Cymru (2862) | 2,639 | 2,639 | 0 | 0% | 2,639 | 0 | 0% | 2,639 | 0 | 0% |
| Adnabod Da Byw (2863) | 1,647 | 1,647 | 0 | 0% | 1,647 | 0 | 0% | 1,647 | 0 | 0% |
| Gwasanaethau Cyngor Technegol (2864) | 358 | 358 | 0 | 0% | 358 | 0 | 0% | 358 | 0 | 0% |
| Deddf Tiroedd Comin (2866) | 433 | 433 | 0 | 0% | 433 | 0 | 0% | 433 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **6,577** | **6,827** | **250** | **4%** | **6,827** | **0** | **0%** | **6,827** | **0** | **0%** |

| CYFALAF Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EID Cymru (2862) | 2,100 | 0 | (2,100) | -100% | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| Adnabod Da Byw (2863) | 0 | 1,000 | 1,000 | 0% | 1,000 | 0 | 0% | 1,000 | 0 | 0% |
| Deddf Tiroedd Comin (2866) | 1,200 | 0 | (1,200) | -100% | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **3,300** | **1,000** | **(2,300)** | **-70%** | **1,000** | **0** | **0%** | **1,000** | **0** | **0%** |

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Cynghori Technegol (2864) yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ystod o ddyletswyddau statudol, datblygu polisi a gwasanaethau cymorth mewn perthynas ag amaethyddiaeth a'r amgylchedd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, brisiadau TB, Rheoliadau Amaethyddiaeth Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA), Dosbarthiad Tir Amaethyddol, iechyd planhigion, Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol, Cyflogau Amaethyddol, Panel Cynghori Amaethyddol Cymru a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2831 Dyrennir cyllid i Awdurdodau Lleol Cymru drwy'r Penaethiaid Safonau Masnach i ddarparu gweithgareddau gorfodi iechyd a lles anifeiliaid wedi'u targedu a rhai ychwanegol drwy Gynllun Datblygu Partneriaeth y cytunwyd arno gan awdurdodau lleol. Mae'r Cynllun yn cyflawni canlyniadau sy'n mynd y tu hwnt i gyfrifoldebau statudol yr awdurdodau lleol, yn ogystal â chanlyniadau i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid ac atal unrhyw achosion o glefydau anifeiliaid, ac ymateb yn fwy effeithlon iddynt. Mae hyn yn cyfrannu at liniaru'r costau sylweddol a'r pwysau ar adnoddau ar gyfer y llywodraeth a diwydiant o ganlyniad i achosion o'r fath.

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2860 Y gyllideb hon yw'r mecanwaith allweddol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid amaeth a'r diwydiant ehangach ar gynlluniau, polisïau a mentrau a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cynhyrchu diweddariadau copi caled i holl hawlwyr BPS a chefnogi ffermwyr i gydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant ffermwyr gan gynnwys Grŵp Cymorth i Ffermwyr Cymru a pharhau i hyrwyddo FarmWell Cymru.

Mae'r gyllideb yn cynnwys cyllid uniongyrchol i Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, yn ogystal â chymdeithasau sioeau eraill ledled Cymru. Bydd cyllid tuag at weithredu argymhellion adolygiad annibynnol o gydnerthedd sioeau amaethyddol mewn ymateb i Covid 19 yn cael ei gefnogi o'r gyllideb hon.

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2861 - Mae'r dyraniad yn ariannu'r Prosiect Sir, Plwyf, Daliad (CPH), sy'n rhesymoli ac yn glanhau'r dirwedd CPH yng Nghymru. Bydd y gyllideb a ddyrannwyd (£200,000) yn sicrhau bod Taliadau Gwledig Cymru yn parhau i weinyddu a datblygu'r platfform TG presennol, gyda'r £300,000 arall yn angenrheidiol i gefnogi gwaith achos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â newid rhifau CPH, er enghraifft, diwygio cofnodion APHA

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2862 EIDCymru yw'r gronfa ddata symudiadau defaid ar gyfer ffermwyr Cymru, sy'n bodloni'r safonau fel y'u nodir yn Rheoliad 21/2004 y Cyngor Ewropeaidd lle mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu'r sail ar gyfer system Ewropeaidd i nodi a chofnodi symudiadau defaid, geifr a cheirw. Gallai peidio â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn arwain at dorri cyfraith Ewropeaidd ac effeithio ar gytundebau masnach ar ôl ymadael â'r UE yn y dyfodol. Mae EIDCymru yn darparu mwy o allu i olrhain, gan helpu i liniaru'r gost sylweddol i'r llywodraeth a'r diwydiant pe bai achosion o glefyd defaid.

## Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol Colofn 1 Amaethyddiaeth yr UE (2787) | 238,000 | 238,000 | 0 | 0% | 238,000 | 0 | 0% | 238,000 | 0 | 0% |
| Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl (2790) | 6,694 | 9,194 | 2,500 | 37% | 9,194 | 0 | 0% | 9,194 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **244,694** | **247,194** | **2,500** | **1%** | **247,194** | **0** | **0%** | **247,194** | **0** | **0%** |

| CYFALAF Llinell Wariant yn y Gyllideb Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin - TG (2789) | 1,505 | 6,000 | 4,495 | 299% | 6,000 | 0 | 0% | 6,000 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **1,505** | **6,000** | **4,495** | **299%** | **6,000** | **0** | **0%** | **6,000** | **0** | **0%** |

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2787 Taliadau Uniongyrchol yw taliadau'r Polisi Amaethyddol Gyffredin a ariennir yn ddomestig 100%. Gwneir taliadau'n uniongyrchol i ffermwyr sy'n defnyddio'r arian i dalu eu treuliau busnes a threuliau eraill. Gwneir taliadau ar gyfer 2021 ym mis Hydref (blaendaliadau) a mis Rhagfyr (y gweddill) Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p.2),

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2790 Mae systemau TGCh Taliadau Gwledig Cymru yn cynnwys tair prif elfen:

- **CAPIT**: System seiliedig ar reolau ar gyfer dilysu a thalu ceisiadau.
- **Golygydd Cynllun**: System Adnabod Parseli Tir (LPIS) sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a ddefnyddir i fapio'r holl dir sy'n cael ei ffermio a'i hawlio yng Nghymru naill ai ar gyfer BPS neu Glastir
- **Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein**: Porth ar-lein i ffermwyr (hawlwyr) wneud cais i a hawlio gwahanol gynlluniau PAC a RhDG. Mae'r system hon yn cefnogi gwasanaeth cwbl ddigidol o fewn Taliadau Gwledig Cymru.

## Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig (2833) | 6,880 | 6,880 | 0 | 0% | 79,200 | 72,320 | 1051% | 118,382 | 39,182 | 49% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **6,880** | **6,880** | **0** | **0%** | **79,200** | **72,320** | **1051%** | **118,382** | **39,182** | **49%** |

| CYFALAF Llinell Wariant yn y Gyllideb Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Economi a Chynaliadwyedd Gwledig (2833) | 0 | 20,500 | 20,500 | 0% | 20,500 | 0 | 0% | 30,000 | 9,500 | 46% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **0** | **20,500** | **20,500** | **0%** | **20,500** | **0** | **0%** | **30,000** | **9,500** | **46%** |

Diben y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglen datblygu gwledig ddomestig o 2024, a datblygu a gweithredu cynlluniau pontio ar gyfer ffermwyr a rheolwyr tir rhwng 2021 a 2024 drwy Gyllid Amnewid yr UE. Bydd y cyllid yn darparu cymorth rhaglen i ddatblygu'r rhaglen tymor hwy. Bydd y canlyniadau a'r mesurau perfformiad ar gyfer cynlluniau sy'n cael eu datblygu drwy gyllid i ddisodli cyllid yr UE yn cael eu datblygu ar lefel rhaglen a chynllun.

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 (2949) | 26,502 | 26,502 | 0 | 0% | 17,182 | (9,320) | -35% | 0 | (17,182) | -100% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **26,502** | **26,502** | **0** | **0%** | **17,182** | **(9,320)** | **-35%** | **0** | **(17,182)** | **-100%** |

| CYFALAF Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 (2949) | 9,418 | 9,500 | 82 | 1% | 9,500 | 0 | 0% | 0 | (9,500) | -100% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **9,418** | **9,500** | **82** | **1%** | **9,500** | **0** | **0%** | **0** | **(9,500)** | **-100%** |

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2949 - Mae Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn rhaglen fuddsoddi 7 mlynedd sy'n cefnogi ystod eang o weithgareddau.

## Datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygiad seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymchwil a Gwerthuso (2240) | 520 | 520 | 0 | 0% | 520 | 0 | 0% | 520 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **520** | **520** | **0** | **0%** | **520** | **0** | **0%** | **520** | **0** | **0%** |

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn ariannu gweithgarwch ymchwil a gwerthuso pwysig mewn perthynas ag amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae dwy elfen i hyn:

1) Mae'r Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) yn arolwg blynyddol o fusnesau ffermio yng Nghymru. Fe'i cynhelir gyda'r prif ddiben o gasglu data ffisegol ac ariannol manwl am sefyllfa economaidd busnesau ffermio ledled Cymru. Yr arolwg yw'r brif ffynhonnell wybodaeth am sefyllfa economaidd busnesau ffermio. Mae'r arolwg yn darparu tystiolaeth o lefelau incwm mewn gwahanol sectorau amaethyddol yng Nghymru, perfformiad ariannol a sefyllfa ariannol ffermydd (asedau, rhwymedigaethau, gwerth net). Er enghraifft, yr Arolwg o Fusnesau Ffermio yw ffynhonnell y ffigur a ddyfynnir yn aml: ar gyfartaledd, mae 80% o incwm ffermwyr Cymru yn dod o'r Taliad Fferm Sylfaenol.
2) Mae prosiect ymchwil modelu economaidd FAPRI-UK yn mynd ati i ddatblygu a chynnal system modelu economaidd sy'n dangos y rhyngberthynas ddeinamig ymhlith y newidynnau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw ym mhrif sectorau amaethyddol Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd prosiect ymchwil FAPRI-UK yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth ar bolisi amaethyddol domestig.

## Pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Pysgodfeydd (2830) | 2,215 | 2,215 | 0 | 0% | 2,215 | 0 | 0% | 2,215 | 0 | 0% |
| Pysgodfeydd (2870) | 3,024 | 3,024 | 0 | 0% | 3,024 | 0 | 0% | 3,024 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **5,239** | **5,239** | **0** | **0%** | **5,239** | **0** | **0%** | **5,239** | **0** | **0%** |

| CYFALAF Llinell Wariant yn y Gyllideb Pysgodfeydd a dyframaethu, gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau Pysgodfeydd (2830) | 233 | 200 | (33) | -14% | 200 | 0 | 0% | 0 | (200) | -100% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **233** | **200** | **(33)** | **-14%** | **200** | **0** | **0%** | **0** | **(200)** | **-100%** |

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2830 - Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cefnogi cyd-ariannu Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) sy'n cynnig cyllid i'r diwydiant ac yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i weithredu'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig drwy ddatblygu pysgodfeydd a dyframaethu cynaliadwy. Mae'r cynllun yn cyfuno elfennau ariannu casglu data, polisi morol integredig a rheoli / gorfodi yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Mae EMFF yn gronfa yn y DU gyda dyraniad craidd o €145 miliwn. Cytunwyd ar y rhaniad mewnol yn y DU, yn dilyn trafodaethau rhwng Gweinyddiaethau'r DU ar lefel Gweinidogion ac uwch swyddogion.

**Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2870 yn cynnwys cyllid ar gyfer y canlynol;**

- **Bioamrywiaeth Forol** Gweithio gyda'r eNGOs i ddatblygu cynllun adfer tymor byr sy'n arwain at raglen adfer tymor hwy

- **Cynllunio Morol (gan gynnwys Ynni Adnewyddadwy)** Er mwyn cefnogi gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a chydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, darperir cymorth technegol arbenigol gan Ganolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS) i'r prosiect cynllunio morol. Mae'r gyllideb o £168,000 yn rhwymedigaeth gytundebol bresennol, wedi'i llofnodi, i staff CEFAS ddarparu'r cymorth hwn.
- **Gwyddor a Thystiolaeth Pysgodfeydd**

- **Systemau Digidol Pysgodfeydd** – Mae systemau rheoli pysgodfeydd digidol yn cynnwys amrywiaeth o systemau TG ar gyfer cofnodi dalfeydd, monitro llongau, cofnodi archwiliadau pysgodfeydd a thrwyddedau morol, cofnodion gwerthiant pysgod a systemau iechyd a diogelwch ar gyfer swyddogion gorfodi.

- **Polisi Pysgodfeydd Domestig** Bydd y Gangen Polisi a Rheoli Pysgodfeydd Domestig yn parhau i fodloni rhwymedigaethau statudol i reoli pysgodfeydd trwyddedig a chyflawni ymrwymiadau hirsefydlog i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar gyfer pysgodfeydd. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod ein pysgodfeydd yn gynaliadwy drwy ddiogelu'r amgylchedd, ac ar yr un pryd yn sicrhau eu bod yn cynnig y manteision economaidd a chymdeithasol gorau posibl i Gymru.

- **Masnach y Môr a Physgodfeydd** - cyllid craidd ar gyfer Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA)

- **Rheoli a Gorfodi** - Mae'r gyllideb Rheoli a Gorfodi yn cwmpasu'r holl gostau gweithredol sy'n gysylltiedig â staff Rheoli a Gorfodi, Tîm Gorfodi Patrolio Pysgodfeydd a Llongau Patrolio Pysgodfeydd, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw, tanwydd ac yswiriant.

- **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** - Mae gan y Môr a Physgodfeydd ddau grŵp rhanddeiliaid cyffredinol. Mae gan Grŵp Cynghori Cymru ar y Môr a Physgodfeydd (WMFAG) gadeirydd a benodir yn gyhoeddus, ac mae'n cynrychioli'r sector Pysgodfeydd. Mae gan Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG) hwylusydd cytundebol, ac mae'n cynrychioli'r sector morol. Mae costau'n rhwymedigaethau cytundebol, gyda'r arian sy'n weddill ar gyfer costau llogi lleoliadau, arlwyo a chostau cynhaliaeth cysylltiedig.

## Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hybu Bwydydd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant (2970) | 5,200 | 7,050 | 1,850 | 36% | 7,050 | 0 | 0% | 7,050 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **5,200** | **7,050** | **1,850** | **36%** | **7,050** | **0** | **0%** | **7,050** | **0** | **0%** |

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2970 yn ariannu rhaglenni ar draws y sbectrwm bwyd, gan ysgogi adnoddau ariannol o raglenni ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y RhDG, EFF, ERF ac amryw o fentrau llai o faint, yn ogystal â ffynonellau ariannu allanol megis Bargeinion Twf;

- cefnogi goroesiad a chydnerthedd busnesau ar ôl Covid-19 ac ar ôl ymadael â'r UE drwy ysgogi arian i gefnogi twf y sector bwyd, gweithio gyda manwerthwyr i'w hannog i gynyddu eu harlwy o fwyd a diod o Gymru, helpu i sicrhau mwy o bresenoldeb ar-lein i gynhyrchwyr o Gymru a gweithgareddau hyrwyddo i gynyddu cyfran gweithgynhyrchu bwyd Cymru o'r cyflenwad i'r sector gwasanaethau bwyd, twristiaeth a'r sector cyhoeddus; a
- hyrwyddo diwydiant bwyd Cymru drwy ddigwyddiadau a rhwydweithiau rhyngwladol a ddyluniwyd i gynyddu mewnfuddsoddiad.

## Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

| Diogelu a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 31,699 | 41,499 | 9,800 | 31% | 41,499 | 0 | 0% | 41,499 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **31,699** | **41,499** | **9,800** | **31%** | **41,499** | **0** | **0%** | **41,499** | **0** | **0%** |

Esbonnir y dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch Llinell Wariant yn y Gyllideb yn yr adrannau canlynol.

## Cefnogi a Darparu'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi a Darparu'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid (2270) | 108 | 1,108 | 1,000 | 926% | 1,108 | 0 | 0% | 1,108 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **108** | **1,108** | **1,000** | **926%** | **1,108** | **0** | **0%** | **1,108** | **0** | **0%** |

Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu pob math o wariant y Llywodraeth ar iechyd a lles anifeiliaid, atal a rheoli clefydau anifeiliaid yn ogystal â mesurau cadw golwg a rheoli rhagweithiol/cynllunio wrth gefn ar gyfer clefydau egsotig. Mae'n cynnwys cymorth parhaus i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a'r Grŵp Cyflawni ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid a'r Amgylchedd. Mae hyn yn ein galluogi i weithio mewn partneriaeth â diwydiant i godi safonau iechyd a lles anifeiliaid, hyrwyddo'r defnydd cyfrifol o wrthfiotigau a chymryd camau effeithiol i reoli achosion o glefydau anifeiliaid.

## Rheoli a Darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Rheoli a Darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asiantaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid (2271) | 15,281 | 18,281 | 3,000 | 20% | 18,281 | 0 | 0% | 18,281 | 0 | 0% |
| Taliadau Difa TB - Costau a Derbyniadau (2272) | 8,810 | 13,810 | 5,000 | 57% | 13,810 | 0 | 0% | 13,810 | 0 | 0% |
| Dileu TB (2273) | 7,500 | 8,300 | 800 | 11% | 8,300 | 0 | 0% | 8,300 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **31,591** | **40,391** | **8,800** | **28%** | **40,391** | **0** | **0%** | **40,391** | **0** | **0%** |

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yng Nghymru. Mae'r cyllid yn helpu i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid, yn ogystal ag iechyd y cyhoedd, ac yn gwella diogelwch bwyd drwy ymchwil, gwyliadwriaeth ac arolygu.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yn talu costau'r gwasanaethau darparu a wneir gan APHA, gan gynnwys cyfrannu at weithgarwch gwyliadwriaeth APHA ledled Prydain. Darperir cyllid hefyd ar gyfer y gwaith statudol a wneir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chyllid i dalu taliadau iawndal TSE statudol os oes angen.

Mae cyfran fawr o weithgarwch APHA yn gweithredu gofynion statudol a pholisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Dileu TB (yn ogystal â Llinell Wariant yn y Gyllideb 2273), yn ogystal â chymhwyso rheolaethau i sicrhau bod iechyd pobl a'r gadwyn fwyd ddynol yn cael eu diogelu.

Mae'r gyllideb ar waith i liniaru'r canlynol:

- Mae methiant i gymryd camau effeithiol os bydd achosion o glefyd anifeiliaid egsotig yn cael effaith ehangach o gofio bod gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth (ariannol) ddigwyddiadol mewn perthynas â chostau heb eu cyllidebu o dan yr amgylchiadau hynny e.e. amcangyfrifwyd bod y gost i'r Llywodraeth yng Nghymru yn sgil Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001, pan nad oedd yn fater wedi'i ddatganoli, yn £100 miliwn. Yn nhermau heddiw, gallai'r gost fod yn llawer mwy heb amcangyfrif y difrod i'r diwydiant a thwristiaeth yng Nghymru lle byddai effaith andwyol ddifrifol ar incwm aelwydydd.
- Gallai methiant i ddangos rheolaeth effeithiol ar glefyd anifeiliaid danseilio trafodaethau yn y dyfodol ar farchnad sengl lle gallai'r gofynion i gael rheolaethau clefydau anifeiliaid sydd o leiaf yn cyfateb i rai'r Aelod-wladwriaethau eraill fod yn sefyllfa a bwysleisir yn drwm fel rhan o unrhyw gytundeb masnach gyda'r Gymuned Ewropeaidd.

Bydd lleihau lefelau rheoli clefydau anifeiliaid yn effeithio ar drafodaethau masnach y DU nawr ac yn y dyfodol gan y bydd disgwyl i'r DU allu dangos lefelau rheolaeth sydd o leiaf yn cyfateb i rai'r Aelod-wladwriaethau Ewropeaidd.

Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb 2272  yn gyllideb 'a arweinir gan y galw' ac, fel y soniwyd eisoes, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i dalu iawndal TB. Mae cysylltiad anorfod rhwng cyfanswm yr anifeiliaid sy'n cael eu difa, ac felly'r

pwysau ar y gyllideb hon, a chynnydd Dileu TB a chyllideb y Rhaglen Dileu TB (Llinell Wariant yn y Gyllideb 2273). Gall unrhyw beth sy'n amharu ar bolisïau dileu arwain at ledaeniad y clefyd sydd, yn ei dro, yn debygol o arwain at fwy o wariant ar Iawndal TB. Byddai unrhyw orwariant yn effeithio ar gyllidebau ehangach OCVO ac ESNR, gan y gellir galw ar y rhain hefyd i wrthbwyso unrhyw orwariant fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Llinell Wariant yn y Gyllideb 2273 Mae'r gyllideb hon yn cwmpasu ymrwymiad statudol i Gynllun Dileu TB y DU. Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn ategu'r gweithgarwch a gyflawnir gan ein partner cyflawni, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), i gyflawni polisïau TB, gan gynnwys profion blynyddol, a mentrau a phrosiectau megis Cymorth TB a gwaith epidemiolegol i helpu i ategu tystiolaeth a dull gweithredu'r Rhaglen Dileu TB. Ariennir y gwaith hwn yn rhannol gan y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon a hefyd gan Linell Wariant yn y Gyllideb 2271 (Darparu a Thaliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid).

## Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE - ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

| Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Refeniw | 2,834 | 3,434 | 600 | -21% | 3,434 | 0 | 0% | 3,434 | 0 | 0% |
| Cyfalaf | 150 | 0 | (150) | 100% | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | **2,984** | **3,434** | **450** | **15%** | **3,434** | **0** | **0%** | **3,434** | **0** | **0%** |

Esbonnir y dadansoddiad manwl o Gamau Gweithredu yn ôl gweithgarwch y Llinell Wariant yn y Gyllideb yn yr adrannau canlynol.

## Monitro Materion Gwledig, Strategaeth Ymadael â'r UE

| REFENIW Llinell Wariant yn y Gyllideb Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth (2816) | 2,834 | 3,434 | 600 | 21% | 3,434 | 0 | 0% | 3,434 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm Refeniw** | **2,834** | **3,434** | **600** | **21%** | **3,434** | **0** | **0%** | **3,434** | **0** | **0%** |

| Rural Affairs Monitoring and EU Exit Strategy BEL's CAPITAL | 2021-22 Final Budget £'000 | 2022-23 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2023-24 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change | 2024-25 New Plans Draft Budget £'000 | Change £'000 | % Change |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategy and Government Relations (2816) | 150 | 0 | (150) | -100% | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **Total CAPITAL** | **150** | **0** | **(150)** | **-100%** | **0** | **0** | **0%** | **0** | **0** | **0%** |

| CYFALAF Llinell Wariant yn y Gyllideb Monitro Materion Gwledig a Strategaeth Ymadael â'r UE | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 | Newid £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth a Chysylltiadau'r Llywodraeth (2816) | 150 | 0 | (150) | -100% | 0 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **Cyfanswm CYFALAF** | **150** | **0** | **(150)** | **-100%** | **0** | **0** | **0%** | **0** | **0** | **0%** |

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn cefnogi Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth. Crëwyd Uned Ymadael â'r UE a'r Strategaeth (EESU) i gydgysylltu, cefnogi a sbarduno ein hymadawiad o'r UE a gweithgareddau pontio. Mae'r Uned yn gweithio ar draws y portffolios Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, i hwyluso, cydgysylltu a darparu tystiolaeth strategol a modelu, a'u cymhwysiad ymarferol i gefnogi gwaith llunio polisïau ehangach y portffolios. Ar ôl cwblhau cytundeb masnach cynhwysfawr gyda'r UE, prif ffocws yr Uned yw cefnogi'r gwaith o weithredu swyddogaethau a strwythurau trawsbynciol newydd sy'n deillio o ymadael â'r UE, gyda phob un o'r timau polisi perthnasol yn bennaf gyfrifol am ddatblygu, darparu, rheoli a chyfathrebu polisïau.

**Crynodeb**

Cyflwynir tabl Llinellau Gwariant yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Materion Gwledig ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor ei ystyried.

**Lesley Griffiths**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

**Dyddiad: 20 Ionawr 2022**

**Teitl y papur: Papur tystiolaeth ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gynigion cyllideb yr Economi fel yr amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn craffu ar y gweithgarwch Celfyddydau a Chwaraeon ar 19 Ionawr 2022. Mae'r papur hwn yn ystyried cynlluniau cyllideb ddrafft Datblygu Economaidd a Chyflogadwyedd a Sgiliau.

## 2. Y Cyd-destun Strategol / Effeithiau Covid

Roedd y Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi (Y Genhadaeth), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, wedi sefydlu'r egwyddorion adfer sylfaenol a'r cyfeiriad ar gyfer polisi economaidd y weinyddiaeth flaenorol. Cafodd ei datblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid yng Nghymru ac, bryd hynny, Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar yr Economi. Cafodd ei hadeiladu ar sylfeini Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a oedd yn pennu'r llwybr ar gyfer twf cynhwysol ac mae'n dal yn fframwaith ar gyfer cyfeirio buddsoddiad cyhoeddus. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 yn cynnwys ymrwymiad i fynd â'r Genhadaeth honno rhagddi.

Fel rhan o'r broses honno, ym mis Hydref cynhaliais uwchgynhadledd Economaidd ac wedyn rhoddais Ddatganiad Llafar ar Symud Economi Cymru Ymlaen.
Rydym yn gwybod bod her ddemograffig hirdymor yn wynebu economi Cymru. Mae cyfran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed yng Nghymru wedi bod yn gostwng o un flwyddyn i'r llall ers canol 2008 – canol 2019– a gallai fod yn ddim ond yn 58% o'r boblogaeth erbyn 2043. Mae arnom eisiau creu'r amodau lle mae rhagor o bobl, yn enwedig pobl ddifreintiedig a phobl ifanc, yn teimlo'n hyderus am gynllunio eu dyfodol yng Nghymru. Yn benodol, rwy'n gobeithio drwy gymryd camau beiddgar y byddwn yn creu dyfodol lle mae rhagor o bobl yn teimlo nad oes angen iddynt symud allan i symud ymlaen.

Ar yr un pryd, os bydd rhagor o bobl hefyd yn dewis dod i weithio yng Nghymru, gallwn fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad yn ein poblogaeth oedran gweithio. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu gweithredu polisi economaidd blaengar sy'n canolbwyntio ar swyddi gwell, lleihau'r bwlch sgiliau a mynd i'r afael â thlodi er mwyn i ni greu tegwch go iawn o ran y ffordd y mae'r economi'n tyfu.

Fodd bynnag, er bod rhagolygon economaidd wedi gwella, mae materion sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a staffio a chwyddiant cynyddol yn llesteirio'r adferiad, ynghyd ag ansicrwydd newydd ynghylch yr amrywiolyn Omicron. Wrth aralleirio geiriau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – bydd Brexit yn dyblu (lleihau cynnyrch domestig gros y DU 4%) craith hirdymor y pandemig (lleihau cynnyrch domestig gros y

DU 2%) ar yr economi.

Roedd lefel cynnyrch domestig gros y DU ar gyfer amcangyfrif chwarterol cyntaf Ch3 2021 2.1% yn is na ble'r oedd ym mis Hydref i fis Rhagfyr 2019 cyn pandemig y coronafeirws. Byddwn yn cael darlun gwell i Gymru pan fydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi ei Rhagolygon Trethi Cymreig ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr.

Er bod y gyfradd diweithdra yng Nghymru, sef 3.7%, yn parhau i ostwng a'i bod yn dal yn is na chyfradd y DU, sef 4.2%, rhan allweddol o symud yr economi ymlaen fydd ein Strategaeth Cyflogadwyedd a fydd yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2022. Bydd yn nodi camau gweithredu i gyflymu'r cynnydd o ran cyflawni Cerrig Milltir newydd y farchnad lafur; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol; canolbwyntio ar lwybrau dilyniant i bobl ifanc yn y farchnad lafur; cynyddu lefelau cymwysterau a datblygu ein huchelgeisiau Gwaith Teg.

Mae'r cyd-destun newydd yn galw am agwedd newydd at sut rydym yn gweithio a phwy rydym yn eu cynorthwyo wrth symud ymlaen, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl o'r adnoddau rydym yn eu defnyddio, a defnyddio ymyriadau cenedlaethol i ddiwallu'n well anghenion y grwpiau hynny sy'n cael eu tangynrychioli yn y farchnad lafur.

## 3. Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r cynlluniau sydd wedi'u crynhoi ar lefel uchel fesul maes busnes ar gyfer MEG yr Economi:

| **TABL 1 – TROSOLWG O GYLLIDEBAU ECONOMI** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Busnes** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 £'000** |
| **Adnodd** | | | | | | | |
| Yr Economi | 65,605 | (48) | 65,557 | 6,000 | 71,557 | (4,400) | 67,157 |
| Y Celfyddydau a Chwaraeon | 118,487 | 5,000 | 123,487 | 3,000 | 126,487 | 6,000 | 132,487 |
| Cyflogadwyedd a Sgiliau | 195,877 | 17,500 | 213,377 | 5,000 | 218,377 | 14,400 | 232,777 |
| **Cyfanswm** | **379,969** | **22,452** | **402,421** | **14,000** | **416,421** | **16,000** | **432,421** |
| **Cyfalaf** | | | | | | | |
| Yr Economi | 86,747 | (7,517) | 79,230 | (3,380) | 75,850 | (200) | 75,650 |
| Y Celfyddydau a Chwaraeon | 38,166 | 5,184 | 43,350 | 8,800 | 52,150 | 3,200 | 55,350 |
| Cyflogadwyedd a Sgiliau | 0 | 1,920 | 1,920 | 80 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| **Cyfanswm** | **124,913** | **(413)** | **124,500** | **5,500** | **130,000** | **3,000** | **133,000** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | |
| Yr Economi | 17,525 | - | 17,525 | - | 17,525 | - | 17,525 |
| Y Celfyddydau a Chwaraeon | 16,000 | - | 16,000 | - | 16,000 | - | 16,000 |
| Cyflogadwyedd a Sgiliau | 15,000 | (3,000) | 12,000 | 0 | 12,000 | 0 | 12,000 |

| TABL 1 – TROSOLWG O GYLLIDEBAU ECONOMI | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Busnes** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 £'000** |
| **Cyfanswm** | **48,525** | **(3,000)** | **45,525** | **0** | **45,525** | **0** | **45,525** |
| **CYFANSWM YR ECONOMI** | **553,407** | **19,039** | **572,446** | **19,500** | **591,946** | **19,000** | **610,946** |

## 3.1 Adnodd

Mae'r newidiadau i'r llinell sylfaen o Gyllideb Derfynol 2021-22 wedi'u crynhoi isod:

| TABL 2 - NEWIDIADAU I'R LLINELL SYLFAEN | |
|---|---|
| **Newidiadau** | **2021-22 £'000** |
| **Cyllideb Derfynol 2021-22** | **379,969** |
| Prentisiaethau – dyraniad cronfa wrth gefn Covid | (16,500) |
| Cymunedau am Waith – dyraniad cronfa wrth gefn Covid | (6,000) |
| Darpariaeth Sain Tathan – Trosglwyddo i mewn o'r MEG Newid Hinsawdd | 2,842 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol – Trosglwyddo allan i'r MEG Newid Hinsawdd | (4,900) |
| Seilwaith Strategol – Trosglwyddo allan i'r MEG Newid Hinsawdd | (990) |
| **Cyfanswm y Newid** | **25,548** |
| **Cyllideb Ddrafft 2022-23** | **354,421** |

Yn 2022-23, £22.452m yw'r newid yn y gyllideb – £25.548m o newid yn y llinell sylfaen wedi'i wrthbwyso gan £48m o ddyraniadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn sy'n codi £14m a £16m yn 2023-24 a 2024-25 yn y drefn honno. Mae'r dyraniadau ychwanegol dros y tair blynedd yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

| TABL 3 – DYRANIADAU YCHWANEGOL | | | |
|---|---|---|---|
| **Manylion** | **2022-23 £'000** | **2023-24 £'000** | **2024-25 £'000** |
| Gwarant i Bobl Ifanc | 20,000 | 25,000 | 30,000 |
| Arfor | 3,000 | 4,000 | 4,000 |
| Strategaeth Ddiwylliant | 5,000 | 8,000 | 14,000 |
| Prentisiaethau | 20,000 | 25,000 | 30,000 |
| **Cyfanswm** | **48,000** | **62,000** | **78,000** |

Mae'r dyraniadau i Ddiwylliant ac Arfor yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru.

Mae'r dyraniad adnoddau hefyd yn cynnwys dibrisiant nad yw'n arian parod o £11.598m bob blwyddyn ar gyfer y cyrff a noddir a Cadw.

## 3.2 Cyfalaf

Mae’r dyraniadau cyfalaf yn cael eu cefnogi gan adolygiad cwbl gynhwysfawr i gyflawni Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Ar ben hynny, mae’r cynlluniau cyfalaf yn cael eu cefnogi gan **£60m** o gyllid ychwanegol i ddiogelu’r celfyddydau a diwylliant a chyflawni’r strategaeth ddiwylliannol: un o flaenoriaethau’r Cytundeb Cydweithio. Bydd hyn hefyd yn cefnogi blaenoriaethau ehangach ar gyfer datblygu economaidd. Mae’r tabl canlynol yn cynnwys golwg gyffredinol o’r asesiad o’r gyllideb cyfalaf:

| **TABL 4 - CYLLIDEBAU CYFALAF** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Busnes** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 £'000** | **Cyfanswm y Gyllideb £’000** |
| Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol (gan gynnwys Gwyddorau Bywyd) | 40,801 | 27,230 | 23,850 | 18,650 | 69,730 |
| Tasglu'r Cymoedd | 9,000 | - | - | - | - |
| Y Cymoedd Technoleg | 7,750 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 4,200 | - | - | - | - |
| Seilwaith Eiddo | 8,386 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 30,000 |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | 0 | 22,000 | 22,000 | 22,000 | 66,000 |
| Arloesi ym myd Busnes | 4,066 | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 20,000 |
| Gwyddoniaeth | 4,874 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| Twristiaeth | 7,670 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | 1,575 | 400 | 400 | 400 | 1,200 |
| Amgueddfa Cymru | 6,697 | 4,500 | 5,000 | 5,000 | 14,500 |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | 3,695 | 2,500 | 2,000 | 2,000 | 6,500 |
| Cymorth i Ddiwylliant a Chwaraeon Lleol | 1,430 | 11,700 | 21,500 | 24,700 | 57,900 |
| Cymru Greadigol (gan gynnwys y cyfryngau) | 7,019 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| Cadw | 8,731 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 30,000 |
| Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru | 375 | 1,200 | 200 | 200 | 1,600 |
| Y Comisiwn Brenhinol | 15 | 50 | 50 | 50 | 150 |
| Cyflogadwyedd (gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc) | 0 | 1,920 | 2,000 | 2,000 | 5,920 |
| Chwaraeon Cymru | 8,629 | 8,000 | 8,000 | 8,000 | 24,000 |
| **Cyfanswm** | **124,913** | **124,500** | **130,000** | **133,000** | **387,500** |

Nodir bod Datblygu Seilwaith Strategol wedi trosglwyddo i’r MEG Newid Hinsawdd.

## 3.3 Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mae’r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol o £45.525m yn talu am gostau sydd y tu hwnt i reolaeth y portffolio, fel amhariadau yn y portffolio eiddo, amrywiadau prisio pensiynau ar gyfer Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Gyrfa Cymru. Er gwybodaeth, mae £3m o ostyngiad yn y gyllideb wrth gymharu â’r Gyllideb Derfynol o ganlyniad i ofyniad is ar gyfer Gyrfa Cymru. Caiff y gyllideb ei hadolygu’n rheolaidd a gwneir addasiadau yn y dyfodol mewn cyllidebau atodol.

## 4. Cyllid yr UE – goblygiadau

Rydym yn gwybod yn iawn am y problemau sy'n wynebu busnesau oherwydd bod y DU wedi gadael yr UE. Ymysg pethau eraill mae'r rhain wedi arwain at gostau ychwanegol, oedi, prinder staff, mynediad at rai nwyddau, yn ogystal â delio â mwy o waith papur ac archwiliadau ar y ffin sy'n gysylltiedig â symud nwyddau i mewn ac allan o'r UE. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau er mwyn deall y materion hyn yn ogystal â darparu cymorth drwy ein Rheolwyr Datblygu Busnes. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys buddsoddi yn Busnes Cymru a'r Cynllun Gweithredu Allforio, sy'n dangos y camau ymarferol rydym yn eu cymryd i gefnogi allforwyr yng Nghymru. Bydd ein rhwydwaith o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol pwrpasol yn parhau i ddarparu cyngor un-i-un i gwmnïau.

Bydd ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. Maent wedi cael eu cyd-ddatblygu a'u cyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid yn y rhanbarthau. Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir yn 2022 yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u blaenoriaethu yn yr ardaloedd a'r rhanbarthau lleol, ac y byddant yn eu galluogi i ddatblygu eu cryfderau a'u cyfleoedd unigryw eu hunain ac i chwarae mwy o ran wrth ddyrannu cyllid a rheoli portffolios o brosiectau rhanbarthol penodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi rhagor yn rhanbarthau Cymru.

## 5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Gwariant ataliol

Yn y cyd-destun digynsail hwn, rydym yn dal i gael ein harwain gan bum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella sut rydym yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod yr angen i gydweithio â'n partneriaid ac i ddefnyddio ein hadnoddau ar y cyd yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd sydd o'n blaen.

Y Ddeddf yw'r glasbrint ar gyfer Cymru sy'n gadarn yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Uchelgais y llywodraeth hon yw cael cerrig milltir cenedlaethol newydd i sbarduno cydweithio a chydweithredu a bod yn fesur allweddol o gyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen mewn nifer o feysydd allweddol.

Mae'r cynigion yn y gyllideb yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i warchod a blaenoriaethu buddsoddiadau sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint ag y bo modd. Mae'r penderfyniadau gwario wedi ystyried y ffordd orau o ddiwallu'r galw am wasanaethau ar hyn o bryd ac maent hefyd wedi canolbwyntio ar gefnogi ymyriadau. Mae'r dull ataliol hwn yn rhan bwysig o'n gwaith cynllunio, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn gwneud popeth gallwn ni i gefnogi ein llwybr at adferiad, gan sicrhau bod y Gymru gryfach sy'n deillio o'r pandemig yn dal i roi gwerth ar gydraddoldeb. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn parhau i ddiogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau cyhoeddus, darparu ar gyfer pobl a chymunedau agored i niwed ar hyd a lled ein gwlad, buddsoddi yn ein treftadaeth a'n diwylliant cyfoethog, a buddsoddi mewn economi gryfach a gwyrddach. Dyna pam rydym wedi paratoi'r gyllideb eleni o gwmpas meysydd blaenoriaeth lle gall ein hadnoddau gael yr effaith fwyaf.

## 6. Cydraddoldeb, Cynaliadwyedd, y Gymraeg ac Ystyriaethau Demograffig

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi mabwysiadu dull integredig o asesu effaith, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n dal yn sbardun pwysig sy'n llywio ein hystyriaethau ynghylch y Gyllideb.

Mae'r Gyllideb Ddrafft, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021, yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario, gan gynnwys tynnu sylw at benderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein rhanddeiliaid. Mae hyn yn cael ei ategu gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA), sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwario. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol hefyd yn cynnwys astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau gwario penodol, gan gynnwys ein hymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu ynghylch Gwarant i Bobl Ifanc, sy'n rhaglen newydd.

Mae Grŵp Llywodraethu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol tair gwlad yn sicrhau bod gweithgareddau sy'n ymwneud â datblygu ac adolygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid yn ceisio bod yn gynhwysol, yn gynrychioladol ac adlewyrchu amrywiaeth pedair gwlad y DU. Comisiynwyd archwiliad o'r system Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol o'r dechrau i'r diwedd i ganfod arferion da cyfredol a meysydd i'w gwella yn y system Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r polisi sy'n ymwneud â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn mynnu y dylid ymgynghori ynghylch datblygu ac adolygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gyda sampl gynrychiadol o gyflogwyr o bob rhan o'r DU a phob sector yng Nghymru, ac y dylai'r ymgynghoriad gynnwys asesiad o'r galw am gyfieithu i'r Gymraeg. Lle nodir bod angen, mae cyllid Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyfieithu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i'r Gymraeg a sicrhau eu hansawdd, er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb o ran terminoleg. Mae cyfieithu cywir yn bwysig gan fod Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Cymru yn aml yn cyfrannu at gynnwys cymwysterau galwedigaethol a rhaglenni hyfforddi cyfrwng Cymraeg.

Wrth lunio ein cynlluniau, mae'r tueddiadau demograffig allweddol canlynol o'r adroddiad diweddaraf a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol (sail-2018) wedi cael eu hystyried, ac yn awgrymu'r canlynol:

- Mae disgwyl i boblogaeth Cymru gynyddu 2.7% o 2018 i 3.22 miliwn erbyn 2028, a 3.7% i 3.26 miliwn erbyn 2043. Mae disgwyl i nifer y plant dan 16 oed ostwng 4.7% i 536,300 rhwng 2018 a 2028.
- Mae disgwyl i nifer y bobl rhwng 16 a 64 oed gynyddu 0.2% i 1,927,700 rhwng 2018 a 2028.
- Mae disgwyl i nifer y bobl 65 oed a hŷn gynyddu 16.3% i 758,600 rhwng 2018 a 2028.
- Mae disgwyl i nifer y bobl 75 oed a hŷn gynyddu 29.3% i 378,100 rhwng 2018 a 2028.

*Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol wedi'u diweddaru ar gyfer Cymru (sail-2020) ar 12 Ionawr 2022. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn amcanestyniadau ar sail tueddiadau sy'n darparu

amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Yn gyffredinol mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol. Felly, nid yw'r amcanestyniadau hyn yn darparu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth ganolog neu leol na newidiadau mewn amgylchiadau economaidd ar lefelau poblogaeth, dosbarthiad a newid yn y dyfodol.

Yn ôl ystadegau diweddaraf Tlodi Incwm Cymharol ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2020.

- Rhwng 2017-18 a 2019-20, roedd 23% o holl bobl Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae canran y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol wedi bod yn gymharol sefydlog yng Nghymru ers dros 15 mlynedd.
- Yng Nghymru, roedd 31% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn 2017 i 2020. Mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o 28% a gofnodwyd y llynedd ac mae'n gynnydd o 2 bwynt canran ar sail y data heb ei dalgrynnu.
- Rhwng 2017 a 2020, roedd 22% o oedolion Cymru o oedran gweithio yn byw mewn tlodi incwm cymharol.
- Gostyngodd canran y pensiynwyr mewn tlodi incwm cymharol 1 pwynt canran am yr ail gyfnod yn olynol yn dilyn cynnydd graddol ers tua 2013. Roedd 18% o bensiynwyr Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol rhwng 2017 a 2020.
- Roedd pobl mewn tai rhent cymdeithasol yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol (sef 48%) na'r rheini mewn tai rhent preifat (41%) neu dai yn eiddo i berchen-feddianwyr (13%).
- Roedd 73% o blant sy'n byw mewn aelwyd heb waith mewn tlodi incwm cymharol o'i gymharu â 25% a oedd yn byw mewn aelwyd gyda gwaith yn 2017 i 2020.
- Aelwydydd unig riant oedd y math o deulu a oedd yn fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol (sef 46%). Roedd 30% o bobl mewn aelwydydd un fenyw heb blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol.
- Yn y gorffennol, roedd y rhan fwyaf o bobl a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn byw mewn aelwydydd a oedd yn cynnwys plant. Fodd bynnag, mae'r patrwm bellach yn llai clir gyda chyfran debyg o'r rheini sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn byw mewn aelwydydd gyda phlant a heb blant.
- Ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 a 2019-20 (pum mlynedd ariannol ar gyfartaledd) roedd 29% o debygolrwydd y byddai pobl o aelwydydd lle mae'r penteulu yn dod o grŵp ethnig heb fod yn wyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cymharu â thebygolrwydd o 24% ar gyfer aelwydydd lle mae'r penteulu yn dod o grŵp ethnig gwyn.
- Yn y cyfnod diweddaraf (2017-18 i 2019-20): Roedd 38% o blant mewn teulu lle'r oedd gan rywun anabledd yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o'i gymharu â 26% o'r rheini a oedd yn byw mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl. Roedd 31% o oedolion o oedran gweithio a oedd mewn teulu lle'r oedd gan rywun anabledd yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o'i gymharu â 18% o'r rheini mewn teuluoedd lle nad oedd neb yn anabl.

## 7. Effaith ar Amddifadedd a Thlodi

Yn yr Uwchgynhadledd Economaidd ym mis Hydref 2021, amlinellais ein huchelgais i symud ein heconomi ymlaen wrth inni ymdrechu i sicrhau Cymru gryfach, decach a gwyrddach. Ymunodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyngres Undebau Llafur Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru â'r Uwchgynhadledd, a dechreuodd sgwrs am sut gallwn ni gydweithio ar gyfer adferiad tîm Cymru sy'n cael ei adeiladu gan bob un ohonom. Bydd cefnogi economïau lleol

cryfach yn hanfodol i'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi. Rydym yn ceisio denu rhagor o bobl i fyw ac i weithio yng Nghymru, sy'n gallu mynd i'r afael â'r risgiau a ddaw gyda gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth o oedran gweithio. Byddwn yn datblygu cynnig cydlynol a gafaelgar ac yn edrych ar ragor o gyfleoedd i gadw graddedigion, ac yn rhoi cefnogaeth i fusnesau newydd er mwyn hybu twf rhagor o gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

## 8. CYLLIDEBAU ECONOMI

Mae dadansoddiad manwl yn ôl gweithgarwch Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn cael ei egluro yn yr adrannau canlynol.

Mae'r £204.271m o fuddsoddiad mewn adnoddau dros dair blynedd yn cael ei grynhoi yn y tabl canlynol:

**TABL 5 – BUDDSODDIAD MEWN ADNODDAU**

| Maes Busnes | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £'000 | Newid £'000 | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol (gan gynnwys Datblygu Polisi Strategaeth a Gwyddorau Bywyd) ** | 9,298 | 3,000 | 12,298 | (1,750) | 10,548 | - | 10,548 | **33,394** |
| Busnes Cymru (gan gynnwys Entrepreneuriaeth a Mentrau Cymdeithasol) ** | 17,116 | - | 17,116 | 9,443 | 26,559 | (4,096) | 22,463 | **66,138** |
| Y Cymoedd Technoleg | 2,250 | - | 2,250 | (225) | 2,025 | - | 2,025 | **6,300** |
| Tasglu'r Cymoedd | 100 | - | 100 | - | 100 | - | 100 | **300** |
| Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi | 4,692 | - | 4,692 | - | 4,692 | - | 4,692 | **14,076** |
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | 4,900 | (4,900) | - | - | - | - | - | **-** |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 990 | (990) | - | - | - | - | - | **-** |
| Seilwaith Eiddo | 4,026 | 2,842 | 6,868 | - | 6,868 | - | 6,868 | **20,604** |
| Cymru Iach ar Waith | 831 | - | 831 | (268) | 563 | - | 563 | **1,957** |
| Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol | 861 | - | 861 | - | 861 | - | 861 | **2,583** |
| Digwyddiadau Busnes Strategol a Chyfathrebu | 200 | - | 200 | - | 200 | - | 200 | **600** |
| Arloesi ym myd Busnes | 604 | - | 604 | - | 604 | (304) | 300 | **1,508** |
| Gwyddoniaeth | 1,350 | - | 1,350 | - | 1,350 | - | 1,350 | **4,050** |
| Twristiaeth | 11,962 | - | 11,962 | (1,200) | 10,762 | - | 10,762 | **33,486** |
| Digwyddiadau Cymru | 4,718 | - | 4,718 | - | 4,718 | - | 4,718 | **14,154** |
| Cymorth Rhaglen | 1,707 | - | 1,707 | - | 1,707 | - | 1,707 | **5,121** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **65,605** | **(48)** | **65,557** | **6,000** | **71,557** | **(4,400)** | **67,157** | **204,271** |

*** Cyllideb Derfynol 2021-22 – Mae gweithgarwch Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Busnes Cymru wedi'i ailddatgan i adlewyrchu cyllidebau cyfunol er mwyn eu cymharu*

**Newidiadau yn y Gyllideb**

Mae gostyngiad bach yn 2022-23, wrth gymharu â chyllideb Derfynol 2021-22, oherwydd aliniad y portffolios newydd: MEG Newid Hinsawdd – trosglwyddiadau i mewn Sain Tathan £2.842m a throsglwyddiadau allan Datblygu Seilwaith Strategol £0.990m a Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol £4.9m. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y dyraniad ychwanegol o £3m ar gyfer Arfor.

Yn 2023-24, mae dyraniad pellach o £1m ar gyfer Arfor a £5m ar gyfer Busnes Cymru. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan gyllidebau sydd wedi cael eu hailflaenoriaethu (busnes a datblygu rhanbarthol £2.050m; Gwyddorau Bywyd £0.7m; y Cymoedd Technoleg £0.225m; Cymru Iach ar Waith £0.268m a Thwristiaeth £1.2m) yn dilyn asesiad o ofynion y gyllideb o £4.443m a gafodd ei hailddyrannu i ailgyflenwi incwm yr UE yn Busnes Cymru.

Yn 2024-25, mae arbediad pellach o £0.304m ar ôl cau Corff Cyfryngol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd, a gostyngiad o £4.096m i reoli'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer Busnes Cymru.

Mae'r buddsoddiad cyfalaf o £230.730m dros dair blynedd a gefnogir gan yr adolygiad cwbl gynhwysfawr yn cael ei grynhoi yn y tabl canlynol:

| **TABL 6 - CYLLIDEBAU CYFALAF YR ECONOMI** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Busnes** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 £'000** | **Cyfanswm y Gyllideb £'000** |
| Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol (gan gynnwys Gwyddorau Bywyd) | 40,801 | 27,230 | 23,850 | 18,650 | 69,730 |
| Tasglu'r Cymoedd | 9,000 | - | - | - | - |
| Y Cymoedd Technoleg | 7,750 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 4,200 | - | - | - | - |
| Seilwaith Eiddo | 8,386 | 10,000 | 10,000 | 10,000 | 30,000 |
| Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf | - | 22,000 | 22,000 | 22,000 | 66,000 |
| Arloesi ym myd Busnes | 4,066 | 5,000 | 5,000 | 10,000 | 20,000 |
| Gwyddoniaeth | 4,874 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| Twristiaeth | 7,670 | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| **Cyfanswm** | **86,747** | **79,230** | **75,850** | **75,650** | **230,730** |

**Busnes a Datblygu Rhanbarthol**
Mae'r gyllideb adnoddau'n cefnogi partneriaethau, gwaith ymgysylltu a mentrau i ddatblygu uchelgeisiau'r Genhadaeth Economaidd, Y Genhadaeth, a chyflogadwyedd ar gyfer twf cynhwysol ac adeiladu'r economi ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor.

Mae £69.730m o gyllid cyfalaf ar gael ar gyfer Cronfa Dyfodol yr Economi a datblygiadau strategol eraill i gefnogi busnesau. Gellir dyrannu cyfalaf Trafodiadau Ariannol ychwanegol yn y Gyllideb Derfynol. Mae Banc Datblygu Cymru hefyd yn gwella gallu busnesau yng Nghymru i gael gafael ar gyllid, ac mae'n cefnogi'r gwaith o greu a diogelu swyddi gyda Chronfeydd dynodedig sy'n ceisio datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu faint o

gyllid cynaliadwy ac effeithiol sydd ar gael yn y farchnad. Ceir diweddariad yn adrannau 10.1 a 10.2.

**Busnes Cymru**
Mae cyfanswm y gyllideb, sef £661.138m dros dair blynedd, yn cefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid a'r gwarant i bobl ifanc, busnesau newydd, microfusnesau, busnesau bach a chanolig, hyrwyddwyr anabledd, menter gymdeithasol ac arferion busnes cyfrifol. Mae'r gwasanaethau'n cefnogi'r rheini sydd â rhwystrau cudd a bydd cymorth wedi'i dargedu yn parhau i gael ei ddarparu i gefnogi entrepreneuriaid benywaidd ac ifanc a grwpiau BAME. Mae'r gyllideb hefyd yn cynnwys darparu £3m ar gyfer yr economi sylfaenol, gan alluogi swyddi wrth galon cymunedau lleol ar draws sectorau fel gofal a gwasanaethau iechyd; bwyd; tai; ynni; twristiaeth; adeiladu ac adwerthu. Mae rhagor o fanylion ar gael yn adran 10.6.

**Y Cymoedd Technoleg**
Mae'r fenter hon yn ymrwymo £100m dros 10 mlynedd i greu 1,500 o swyddi cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar Flaenau Gwent a'r cyffiniau drwy fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o'r pedwerydd chwyldro diwydiannol, gan hybu mabwysiadu technolegau digidol a datblygu technolegau uwch gwerth uchel sy'n cefnogi diwydiannau arloesol. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd buddsoddiadau sy'n cefnogi'r Genhadaeth: Gweithdy roboteg a Resilientworks.

**Tasglu'r Cymoedd**
Mae'r cynllun yn cynnal cyllideb refeniw flynyddol o £0.1m. Cafodd y rhaglen gyfalaf i gyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol ei hymestyn i 2021-22 a bydd yn cael ei gwreiddio yn y gwaith o ddatblygu rhaglenni yn y dyfodol.

**Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi**
Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Allforio ar 15 Rhagfyr 2020: Datganiad ysgrifenedig. Bydd y gyllideb o £14.076m dros dair blynedd yn buddsoddi mewn gwasanaethau i helpu allforion ac mae'n cydnabod gwerth Cymru fel gwlad fasnachu. Mae rhagor o fanylion ar gael yn adran 10.15.

**Seilwaith Eiddo**
Mae'r Genhadaeth yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrhau bod digon o safleoedd ac adeiladau cyflogaeth ar gael er mwyn sicrhau mantais gystadleuol o ran denu, cadw a thyfu busnesau yng Nghymru. Mae'r gyllideb refeniw o £20.064m dros dair blynedd yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol fel landlordiaid a pherchnogion tir wrth reoli'r portffolio eiddo datblygu economaidd, gan gynnwys rheoli Sain Tathan a'r taliadau unedol o dan gynllun Menter Cyllid Preifat Rhodfa Lloyd George. Ategir y gyllideb gan incwm arall, yn bennaf derbyniadau rhent ac elw o waredu tir ac adeiladau.

Mae'r gyllideb cyfalaf o £30m dros y tair blynedd nesaf yn cael ei hategu gan oddeutu £10m y flwyddyn o dderbyniadau o werthu tir ac eiddo. Mae hyn yn golygu bod modd darparu safleoedd ac adeiladau modern sy'n gallu bodloni amserlenni deiliadaeth cwmnïau er mwyn rhoi mantais gystadleuol wirioneddol i Gymru dros leoliadau eraill. Bydd pob prosiect masnachol adeiladu uniongyrchol a gyflawnir yn anelu at gyrraedd safon carbon Sero Net o ran defnydd, a bydd Polisi Adeiladau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn berthnasol i brosiectau a gyflwynir mewn partneriaeth ag eraill.

**Bargeinion Dinesig**
Mae'r bargeinion dinesig a thwf yng Nghymru yn gytundebau buddsoddi tair ffordd hirdymor (15-20 mlynedd) rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac (ar y cyd) yr awdurdodau

lleol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth i gyflawni twf economaidd rhanbarthol sy'n para. Mae tair bargen ar waith yng Nghymru – Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Gogledd Cymru.  Mae disgwyl i Gytundeb y Fargen Derfynol ar gyfer Canolbarth Cymru gael ei lofnodi yn y Flwyddyn Newydd.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dim ond Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – £22m yn 2022-23.  Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer ailbroffilio ei chyfraniad at y cyllid ar gyfer bargeinion Bae Abertawe a Gogledd Cymru ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi y byddai'n cyflymu ei chyfraniad at y bargeinion hyn er mwyn darparu'r cyllid dros ddeng mlynedd yn hytrach na 15 mlynedd.  Bydd y cynlluniau cyllideb ar gyfer bargeinion Bae Abertawe a Gogledd Cymru, ac ar gyfer cytundeb Canolbarth Cymru maes o law, yn cael eu hegluro ar ôl ystyried yr opsiynau.

Mae pob llywodraeth yn cyfrannu cyllid at fargeinion Cymru bob blwyddyn.  Yr awdurdodau lleol perthnasol, gan weithio gyda'i gilydd fel rhanbarth, sy'n penderfynu sut mae defnyddio'r cyllid dros oes eu bargen – ynghyd â buddsoddiad o'u cyllidebau eu hunain, gan gyrff cyhoeddus eraill a chan y sector preifat – i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng nghytundebau'r fargen a'r achosion busnes cymeradwy.

**Cyllidebau Corfforaethol**

Mae cyllideb **Cymru Iach ar Waith** o £1.957m dros dair blynedd yn cyflawni mentrau yn y gweithle sy'n cefnogi'r uchelgeisiau iach ac egnïol a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r cyllid yn cynnwys rhaglen Amser i Newid Cymru Mind Cymru, sy'n herio agweddau ac ymddygiad negyddol yn y gweithle at broblemau iechyd meddwl. Mae'r gyllideb o 2023-24 ymlaen yn cynnwys arbediad disgwyliedig ar sail gweithgarwch cyfredol.

Mae cyllideb flynyddol y **Rhaglenni Corfforaethol**, o £2.583m dros dair blynedd, yn cynnwys gwariant y system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid busnes a darpariaeth ar gyfer adolygiadau.

Mae'r gyllideb Cyfathrebu o £0.2m bob blwyddyn yn cefnogi digwyddiadau busnes ac ymgysylltu strategol.

**Arloesi ym myd Busnes**

Mae'r Genhadaeth yn cynnwys ymrwymiad clir i barhau â'r cymorth ariannol ar gyfer cynlluniau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi, cyfres SMART o raglenni, Rhaglen Sbarduno Arloesedd y Fenter Ymchwil Busnesau Bach a Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol. Nodir y daw'r rhaglenni Ewropeaidd i ben yn 2022-23, ac ar hyn o bryd mae £20m o gyfalaf wedi'i gynllunio ar gyfer y tair blynedd olaf nesaf. Ceir diweddariad yn adran 10.17.

**Gwyddoniaeth**

Mae'r gyllideb refeniw o £4.050m dros dair blynedd yn cynnwys ailsefydlu rhaglen grant newydd yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a luniwyd i gefnogi astudiaethau a gweithgareddau STEM, ac i hyrwyddo dewisiadau gyrfa mewn gwyddoniaeth ar hyd a lled Cymru. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cyfrannu at Swyddfa Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo Gwyddoniaeth a gweithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys seminarau ymgysylltu â rhanddeiliaid, arolygon agwedd y cyhoedd at Wyddoniaeth, Wythnos Gwyddoniaeth Prydain, Gwyddoniaeth yn y Senedd, Gwobrau Arloesedd CBAC a CREST, Medalau LSW, adolygiadau perfformiad gwyddoniaeth a gomisiynwyd a hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn ymchwil ac arloesi a STEM.

Mae'r gyllideb gyfalaf o £15m yn parhau â'r rhaglen Sêr Cymru gydnabyddedig sy'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar effeithiau manteisiol arbenigedd ymchwil, cyfleusterau arloesi arbenigol a'r cyflenwad o ymchwilwyr dawnus. Mae'r rhaglen hon (a gafodd ei henwi gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 fel un o'r pum blaenoriaeth ymchwil, datblygu ac arloesi) eisoes wedi helpu i adeiladu dyfnder o ymchwilwyr a seilwaith gwyddoniaeth yng Nghymru nad oedd yn bodoli o'r blaen, ac mae wedi cyfrannu at wella perfformiad gwyddoniaeth ac ymchwil Cymru dros y degawd diwethaf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran 10.17.

**Twristiaeth**
Mae'r £33.486m o fuddsoddiad i ddatblygu ac i farchnata twristiaeth yn cyd-fynd â'r cynllun adfer Dewch i Lunio'r Dyfodol i helpu'r sector i ddod drwy'r pandemig. Mae'r cynllun adfer wedi cael ei gynllunio i ddod yn ôl at ein strategaeth tymor hirach gyffredinol - Croeso i Gymru-Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025 i gynyddu twristiaeth er budd Cymru, gan gyflawni manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. O 2023-24 ymlaen, bydd £1.2m o refeniw yn cael ei arbed ar sail asesiad o'r cynlluniau marchnata a'r ailflaenoriaethu i gefnogi Busnes Cymru, y bydd colli incwm yr UE yn effeithio arno.

Y buddsoddiad cyfalaf blynyddol arfaethedig o £5m mewn profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr a chronfa Y Pethau Pwysig ar gyfer gwelliannau i seilwaith twristiaeth ar raddfa fach. Mae'r dyraniad hwn ar gael ochr yn ochr â Chronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth yng Nghymru sydd werth £50m, ac sy'n cael ei darparu mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran 10.11.

**Digwyddiadau Cymru**
Bydd y gyllideb flynyddol o £4.718m yn parhau i ddatblygu digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru (chwaraeon, celfyddydau a busnes) gan barhau i gydnabod y cyfleoedd eithriadol sy'n cael eu cynnig gan ddigwyddiadau rhyngwladol enfawr, fel Cwpan y Byd 2030 a'r Tour de France, a sicrhau manteision a gwaddol cymdeithasol, economaidd a diwylliannol go iawn yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i geisio cael amrediad daearyddol a thymhorol llawn o ddigwyddiadau o Fôn i Fynwy. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu seilwaith sy'n berthnasol i ddigwyddiadau, a chefnogi sector cryf a chynaliadwy i dyfu yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn sgiliau a datblygu'r gadwyn gyflenwi.

**Cymorth Rhaglen**
Mae'r gyllideb flynyddol o £1.7m yn cyflawni gweithrediadau Cymorth Technegol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a ariennir gan yr UE.

## 9. CYLLIDEBAU SGILIAU

Mae'r £664.531m o fuddsoddiad mewn adnoddau dros dair blynedd yn cael ei grynhoi yn y tabl canlynol:

| **TABL 7 – CYLLIDEBAU ADNODDAU SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Busnes** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £'000** | **Newid £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| Prentisiaethau | 113,533 | 3,500 | 117,033 | 5,000 | 122,033 | 5,000 | 127,033 | **366,099** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogadwyedd (gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc) – yn cydgrynhoi sgiliau Marchnata a Gyrfa Cymru | 70,936 | 20,000 | 90,936 | (5,000) | 85,936 | 14,400 | 100,336 | **277,208** |
| Cyflogadwyedd (gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc) | 1,400 | - | 1,400 | - | 1,400 | - | 1,400 | **4,200** |
| Cymunedau am Waith | 9,972 | (6,000) | 3,972 | 5,000 | 8,972 | (5,000) | 3,972 | **16,916** |
| Cymunedau am Waith - Nad yw'n arian parod | 36 | - | 36 | - | 36 | - | 36 | **108** |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **195,877** | **17,500** | **213,377** | **5,000** | **218,377** | **14,400** | **232,777** | **664,531** |

**Newidiadau yn y Gyllideb**
Mae cynnydd yn 2022-23, wrth gymharu â Chyllideb Derfynol 2021-22, o ganlyniad i symleiddio Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn y gweithgaredd sgiliau: Uno Llinell Wariant Gyrfa Cymru, Llinell Wariant Marchnata a Llinell Wariant Polisi Sgiliau o fewn y Llinell Wariant newydd ar gyfer Cyflogadwyedd (gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc) – Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan y dyraniad ychwanegol o £20m ar gyfer Gwarant i Bobl Ifanc a £20m i Brentisiaethau ac addasiad llinell sylfaen o £16.5m o'r Llinell Wariant Prentisiaethau oherwydd un dyraniad o gronfa wrth gefn Covid Cymru yn y flwyddyn ariannol diwethaf.

Yn 2023-24, mae dyraniad pellach o £5m ar gyfer Gwarant i Bobl Ifanc a £5m ar gyfer Prentisiaethau. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan £10m o ailflaenoriaethu cyllideb i gefnogi colli incwm yr UE ar gyfer Busnes Cymru a Cymunedau am Waith.

Yn 2024-25, mae dyraniad pellach o £5m ar gyfer Gwarant i Bobl Ifanc a £5m ar gyfer Prentisiaethau.

**Prentisiaethau**
Mae'r gyllideb refeniw o £366.099m dros dair blynedd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r rhaglen brentisiaethau i gyflogwyr a'u gweithwyr, gyda blaenoriaeth benodol i recriwtiaid newydd, ar hyd a lled Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn adran 10.19.

**Cyflogadwyedd (gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc)**
Mae £277m o gyllideb refeniw Cyflogadwyedd (gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc) dros dair blynedd yn ariannu'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno strategaethau, polisïau a rhaglenni sy'n helpu pobl i gael gafael ar waith, dychwelyd i waith a symud ymlaen yn y gwaith drwy gymorth sgiliau a hyfforddiant; gan ategu nifer o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu.  Mae hefyd yn hwyluso ymateb uniongyrchol i helpu busnesau unigol i dyfu drwy ddatblygu'r gweithlu ac mae'n darparu atebion ehangach, sy'n canolbwyntio ar y sector ac sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr, i ymateb i anghenion sgiliau a nodwyd ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sy'n bwysig i economi Cymru.

Gall cymorth sgiliau a chyflogadwyedd ddatblygu'r nodau hyn drwy ganolbwyntio buddsoddiad ac ymyriadau ar y rheini nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg yn y farchnad lafur ac sy'n wynebu anfantais ac annhegwch o ran cael sgiliau, cymwysterau a chyflogaeth. Bydd hyn yn helpu i ddileu'r bwlch rhwng y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru a'r

DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur.

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hefyd yn ariannu Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaeth cenedlaethol, diduedd a dwyieithog sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i bobl o bob oed yng Nghymru. Yn ogystal â'r gyllideb refeniw, mae cyllideb dibrisiant nad yw'n arian parod o £1.4m.

**Y Rhaglen Cymunedau am Waith**

Mae'r gyllideb refeniw o £16m dros dair blynedd yn cefnogi'r rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth a Cymunedau am Waith. Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn brosiect gwerth £21.5m sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn targedu rhieni 25 oed a hŷn sy'n economaidd anweithgar, a rhieni 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Dyma'r garfan sydd hefyd yn dod o dan y Gwarant Ieuenctid.  Gofal plant yw'r prif rwystr i'r holl rieni sy'n cofrestru ar Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth rhag manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae bron i 95% o'r rhieni sy'n ymuno â'r rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth yn fenywod. Hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2021, mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth wedi cefnogi 6,643 o bobl (gan gynnwys 398 o bobl anabl a 202 o bobl o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol) ac wedi helpu 2,939 o bobl i gael gwaith, (gyda 124 o'r rhain yn bobl anabl ac 81 yn perthyn i Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol).

Mae Cymunedau am Waith yn rhaglen gwerth £102m sy'n cael ei hariannu ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Awdurdodau Lleol a Mudiadau Gwirfoddol. Mae'n cefnogi pobl sy'n economaidd anweithgar ac yn ddi-waith yn y tymor hir, gan ganolbwyntio ar ddau grŵp gwahanol – pobl 25 oed a hŷn; a phobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).  Caiff hyn ei ariannu o Linell Wariant Cymunedau am Waith yn y Gyllideb, ac mae £3.972 o gyllideb ar gyfer 2022-23.

Mae Cymunedau am Waith yn darparu dull gweithredu cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnig cymorth cyfannol i fynd i'r afael ag amrywiaeth o rwystrau cymhleth sy'n wynebu'r rheini sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.  Hyd at ddiwedd mis Hydref 2021, mae'r rhaglen wedi cefnogi 33,373 o bobl (gan gynnwys 3,735 o bobl anabl a 2,144 o bobl o Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol) ac wedi helpu 13,872 o bobl i gael gwaith, (gyda 1,053 o'r rhain yn bobl anabl ac 1,010 yn perthyn i Gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol).

Mae Llinell Sylfaen y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb £6m yn is wrth gymharu â'r gyllideb derfynol, oherwydd y cyllid a gafwyd o gronfa wrth gefn Covid yn y flwyddyn ariannol diwethaf. Mae'r gyllideb yn codi £5m yn 2023-24 i helpu ar ôl colli incwm yr UE, ond mae'r llinell sylfaen yn cael ei hadfer i lefelau cyllid yn 2022-23 ar gyfer y flwyddyn ariannol olaf, ond bydd yn flaenoriaeth ar gyfer unrhyw gyllid ychwanegol a fydd ar gael.

| **TABL 8 – CYLLIDEBAU CYFALAF SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Busnes** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft 2022-23 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 £'000** | **Cyfanswm y Gyllideb £'000** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogadwyedd (gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc) | - | 1,920 | 2,000 | 2,000 | 5,920 |
| **Cyfanswm** | **-** | **1,920** | **2,000** | **2,000** | **5,920** |

Mae'r buddsoddiad mewn cyfalaf o £5.9m dros dair blynedd yn cefnogi gweithgarwch Gyrfa Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Bydd y gyllideb gyfalaf yn cefnogi strategaeth ystadau'r sefydliad i gyd-fynd â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Bydd datblygiad amgylcheddol strategol a chynaliadwyedd yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ofodol newydd, gan ganolbwyntio ar y meysydd twf cenedlaethol a rhanbarthol drwy fabwysiadu'r dull gweithredu 'Canol trefi yn gyntaf'.

## 10. ECONOMI – DIWEDDARIADAU POLISI ALLWEDDOL

Mae gwybodaeth ychwanegol wedi cael ei darparu mewn ymateb i'r meysydd penodol a amlygwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn:

### 10.1 Cymorth Busnes – Adfer ar ôl y pandemig

Ers mis Ebrill 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £2.6bn i gefnogi busnesau Cymru, yn bennaf drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd, mewn pecyn sydd wedi cael ei ddylunio i ategu ac i adeiladu ar y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth y DU. Nid yw cynllun y gyllideb yn cynnwys unrhyw gyllid adfer ychwanegol.

Yn 2021-22 roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn gwerth £35m i helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru i ail-lansio, i ddatblygu, i ddatgarboneiddio ac i dyfu i helpu i sbarduno adferiad economaidd Cymru. Bydd y cyllid yn cefnogi dros 1,000 o fusnesau, yn helpu i greu 2,000 o swyddi newydd ac yn diogelu 4,000 o swyddi ychwanegol gyda grantiau o hyd at £50k ar gael. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gefnogi busnesau i 2022-23.

Mae'r cyllid yn gyfle i roi hwb i'r economi a'i datblygu wrth inni ganolbwyntio ar greu dyfodol tecach, gwyrddach a ffyniannus i Gymru, a bydd yn cael ei dargedu'n benodol at fusnesau sydd â chynigion prosiect i wneud y canlynol:

- Canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a'r argyfwng hinsawdd a fydd yn helpu Cymru i gyrraedd ei tharged allyriadau carbon sero net, sy'n ei rhwymo mewn cyfraith, erbyn 2050
- Datblygu uchelgeisiau'r Genhadaeth (gan gynnwys gwaith teg, sgiliau, diwydiant / gwasanaethau'r dyfodol, prentisiaethau a chydweithio â phrifysgolion a busnesau i gynnal talent graddedigion yng Nghymru)
- Helpu busnesau i gydweithio i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan gynnwys gwasanaethau danfon a logisteg lleol
- Ar ben hynny, mae'r gronfa'n ceisio darparu cymorth i'r ymateb i Covid o ran mannau gwaith sydd wedi'u hawyru'n dda a'r gallu i weithio'n glyfar

Mae Busnes Cymru hefyd yn cefnogi busnesau drwy'r pandemig a'r adferiad drwy ddarparu gwybodaeth, arweiniad a chymorth uniongyrchol i entrepreneuriaid a busnesau yng Nghymru i'w helpu i gychwyn, i dyfu a ffynnu ac i ymateb i heriau allweddol fel y pandemig. Ar ben hynny, mae Tîm Arloesi Busnes Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gefnogi busnesau ac entrepreneuriaid ar sail un-i-un ac un-i-lawer ar gyfer pob agwedd o ddatblygu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd.
Mae Banc Datblygu Cymru mewn sefyllfa dda i helpu busnesau Cymru drwy'r pandemig a'r adferiad ac i gael gafael ar y cyllid sydd ei angen arnynt i gychwyn, i gryfhau ac i dyfu.

Mae'n gallu darparu benthyciadau rhwng £1k a £10m, yn ogystal â chyllid mesanîn ac ecwiti; ac mae'n helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid iawn i gael gafael ar gyllid preifat gyda'i gyllid bwlch ei hun pan fydd angen.

**Cronfa Dyfodol yr Economi**

Cafodd Cronfa Dyfodol yr Economi ei lansio ym mis Mai 2018, ac mae'n symleiddio ac yn rhesymoli nifer o gynlluniau cymorth ariannol a oedd eisoes ar gael. Fel rhagofyniad i gael cyllid, mae'n rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi dangos cyfraniad at egwyddorion y Contract Economaidd.

Bydd disgwyl i fusnesau sy'n gofyn am gyllid gan Gronfa Dyfodol yr Economi gyfrannu at o leiaf un o'r pum Galwad i Weithredu, sy'n seiliedig ar yr egwyddor "rhywbeth am rywbeth" ac sy'n cefnogi'r busnesau hynny sy'n dymuno addasu i dyfu.

Dyma'r cynlluniau sy'n rhan o'r Gronfa ar hyn o bryd:

- Buddsoddiad Cyfalaf a chymorth i Greu Swyddi
- Ymchwil, Datblygu ac Arloesi (gan gynnwys SMART Cymru)
- Cynllun Diogelu'r Amgylchedd
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth/Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth yng Nghymru
- Cyllid Cynhyrchu Creadigol
- Cronfa ad-daladwy ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig

Ers ei lansio ym mis Mai 2018, mae 452 o gynigion sydd werth dros £107m wedi cael eu derbyn.

### 10.2 Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn amlinellu'r sail ar gyfer dull rhanbarthol o ddatblygu economaidd ledled Cymru, gan gydnabod cyfleoedd unigryw rhanbarthau penodol a cheisio adeiladu arnynt er mwyn sicrhau gwell ffyniant i bawb, ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal hyn.

Ers penodi'r Prif Swyddogion Rhanbarthol a'u timau, rydym wedi ceisio meithrin cydweithio agosach a mwy effeithiol gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid rhanbarthol. Mae hyn yn dwyn ffrwyth, a thrwy ymdrech gydweithredol gyda'n partneriaid allweddol ar draws y rhanbarthau rydym yn gwneud gwahaniaeth pendant i fusnesau ac i gymunedau ar draws holl ranbarthau Cymru. Fel llais y llywodraeth yn y rhanbarth a llais y rhanbarth yn y Llywodraeth, mae'r Prif Swyddogion Rhanbarthol a'u timau'n dylanwadu ar bolisïau a rhaglenni cenedlaethol ac yn cyfrannu atynt, yn ogystal â darparu cymorth wedi'i dargedu yn y gwahanol ranbarthau drwy'r cronfeydd ysgogi cyfalaf rhanbarthol a chymorth i fusnesau allweddol ar draws y rhanbarthau.

Bydd datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fodel datblygu economaidd sydd â mwy o ffocws rhanbarthol - gan ddatblygu cryfderau unigryw ein rhanbarthau, cefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, a manteisio ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, gan gyfrannu at nodau llesiant Cymru. Bwriad Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yw helpu i hyrwyddo cynllunio a darparu rhanbarthol cydweithredol ymysg partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, gan weithio yn unol â gweledigaeth gyffredin a chyfres o amcanion datblygu economaidd cyffredin. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r

Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r ailosod a'r adferiad sydd eu hangen ar unwaith yn sgil pandemig y Coronafeirws, ond hefyd yr angen i nodi'r dyheadau tymor hirach ar gyfer y rhanbarthau, sy'n cyd-fynd â'r Genhadaeth. Bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

Ers cyhoeddi adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, *The Future of Regional Development and Public Investment in Wales*, ym mis Medi 2020, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i ddatblygu prosiect i gefnogi'r gwaith o roi rhai o argymhellion yr adroddiad ar waith.

Dechreuodd y prosiect dwy flynedd newydd ym mis Medi 2021 ac mae ei gwmpas yn cynnwys:

- pennu gweledigaeth, cynllunio, cydlynu ar draws sectorau ac integreiddio ar gyfer polisi datblygu rhanbarthol a buddsoddiad cyhoeddus
- arferion a mecanweithiau i wireddu polisi datblygu rhanbarthol ac amcanion buddsoddi cyhoeddus

Yn 2020-21 bydd £0.1m yn cael ei dalu i'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a bydd taliad terfynol yn ddyledus yn 2023-24. Yn gyffredinol, mae cyllideb ar gyfer y mentrau datblygu economaidd wedi'i chynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer Busnes a Datblygiad Economaidd Rhanbarthol.

### 10.3 Datblygu Rhanbarthol – Effaith Cynlluniau Llywodraeth y DU

O ran Cronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ceir pryder nad oes digon o gyllid yn cael ei ddyrannu i gynlluniau datgarboneiddio diwydiannol, fel y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF), Dilyniannau Clystyrau a'r Gronfa Hydrogen er mwyn galluogi prosiectau datgarboneiddio ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y tymor byr i'r tymor canolig. Er bod busnesau yng Nghymru wedi llwyddo i wneud cais am gymorth drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol, ni fu llawer o gyfle i lwyddo mewn ffrydiau cyllido eraill. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod modelau busnes priodol er mwyn gallu datgarboneiddio diwydiant Cymru.

Mae aelodau Clwstwr Diwydiannol De Cymru yn buddsoddi dros £24m sydd, yn ei dro, wedi denu dros £26m o gyllid Llywodraeth y DU i Gymru ers 2019, gan gynnwys £21 miliwn o gyllid Her Datgarboneiddio Diwydiannol i gyflawni Map Llwybr Cam 2 ynghyd ag amrywiaeth o brosiectau ar draws De Cymru. Ar ben hynny, mae dros £2m o gyllid Ymchwil ac Arloesi Datgarboneiddio Diwydiannol wedi cael ei ddyrannu i brifysgolion yng Nghymru ar gyfer gweithgarwch mewn clystyrau diwydiannol.

Mae'r prosiect HyNet, sy'n gwasanaethu gogledd-orllewin Lloegr a gogledd-ddwyrain Cymru, wedi cyrraedd y rhestr fer i gael cyllid Trac 1 drwy'r rhaglen Dilyniannau Clwstwr. Nid yw'n hysbys eto ar hyn o bryd a fydd unrhyw weithgarwch yng Nghymru yn cael ei ariannu drwy'r broses hon.

### 10.4 Cynlluniau'r Economi Sylfaenol

Roedd y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd i'r Economi Sylfaenol yn 2021-22 yn cefnogi gweithgarwch prosiect penodol a oedd yn adeiladu ar Gynllun Cyflawni'r Economi Sylfaenol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Ar ben hynny, roedd y cyllid yn cefnogi lansiad

cychwynnol y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol, a oedd yn canolbwyntio ar fwyd, gofal cymdeithasol a sgiliau'r dyfodol sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Mae £3m arall wedi cael ei dyrannu yng nghyllideb ddrafft 2022-23. Mae adolygiad strategol o weithgareddau cyfredol wedi cael ei gynnal, ac mae rhanddeiliaid allweddol wedi ymgysylltu i nodi blaenoriaethau hirdymor. Bydd y dyraniad yn cefnogi'r gwaith o dyfu'r Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol er mwyn i fusnesau Cymru allu cael gafael ar gymorth a fydd yn eu helpu i dyfu. Yn y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol, byddwn yn darparu cymorth sy'n seiliedig ar grantiau i helpu busnesau i ddatblygu eu gallu i gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i helpu i sicrhau'r gwerth gorau posibl o'r buddsoddiad ar gyfer cymunedau ac economïau ar hyd a lled Cymru. Bydd y Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol yn golygu bod cynhyrchwyr a chyflenwyr bwyd cynhenid yn gallu ennill yr achrediadau diogelwch bwyd sy'n angenrheidiol i gymryd rhan mewn cadwyni cyflenwi bwyd yn y sector cyhoeddus, a byddwn yn nodi sut gall y cyllid helpu cynhyrchwyr a allai ddatblygu er mwyn cyflymu'r broses o ymuno â marchnadoedd mawr ym maes manwerthu a lletygarwch. Mae'r sector gofal yn rhan bwysig o'r Economi Sylfaenol, a bydd cyllid yn helpu busnesau yn y sector i ymateb i'r argyfwng recriwtio parhaus ac yn helpu i gyflwyno capasiti darparwyr gofal newydd.

Mae'r ffordd mae'r sector cyhoeddus yn caffael yn cael effaith fawr ar yr Economi Sylfaenol. Mae profiad o'r gwaith hyd yma'n dangos bod uchelgais enfawr ar draws y sector cyhoeddus i ymgysylltu'n well â busnesau, ond bod diffyg capasiti yn llesteirio'r cynnydd. Bydd cyllid yn galluogi capasiti ychwanegol i helpu cyrff cyhoeddus i gydweithio a defnyddio caffael i gyflawni blaenoriaethau seiliedig ar leoedd sy'n gysylltiedig â chynlluniau llesiant lleol.

Fel rhan o'n gwaith trawslywodraethol, mae'r Economi Sylfaenol yn cefnogi'r rhaglen datgarboneiddio busnes, ac mae'r gofynion cyllido posibl ar gyfer y gwaith hwn wrthi'n cael eu sefydlu. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ledaenu a chynyddu arferion gorau a darparu lleoedd lle gall pobl a sefydliadau gydweithio, byddwn yn cefnogi Cymunedau Ymarfer ar gyfer yr Economi Sylfaenol ac yn ystyried y ffordd orau o weithredu'r rhain gan ystyried ystyriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a thematig.

### 10.5 Banc Datblygu Cymru

Ar hyn o bryd nid yw cyllideb 2022-23 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth cyfalaf arall ar gyfer Banc Datblygu Cymru, gan fod dyraniadau mewn blynyddoedd blaenorol wedi dynodi y bydd y banc datblygu yn dal i wneud buddsoddiadau yn 2022-23 ac ar ôl hynny'n unol â'r Llythyr Cylch Gwaith a roddodd Gweinidog yr Economi i'r Banc Datblygu ym mis Tachwedd 2021.

Dylid nodi bod ailddosbarthu Banc Datblygu Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, at ddibenion cyfrifon cenedlaethol, yn arwain at rywfaint o newid o ran y ffordd y mae gwariant ac, felly, cyllidebau Banc Datblygu Cymru yn cael eu cyflwyno a'u hadrodd. Cadarnhawyd ar 31 Awst 2021 y canlyniad ailddosbarthu a bennwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac mae'n berthnasol yn ôl-weithredol i 2017 pan sefydlwyd Banc Datblygu Cymru.

Ar gyfer y rhannau hynny o grŵp Banc Datblygu Cymru a ail-ddosbarthwyd i'r sector llywodraeth ganolog, mae gwaith yn mynd rhagddo nawr i ailddatgan cyllidebau yn unol â gweithdrefn safonol Trysorlys EM.  Disgwylir i hyn gael effaith niwtral ar gyllidebau Llywodraeth Cymru heb unrhyw effaith ar y cynlluniau buddsoddi sydd eisoes ar waith ar gyfer Banc Datblygu Cymru. Disgwylir i'r ymarfer hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd 2021-

22 ac, i'r graddau y bydd yn effeithio ar gyllidebau 2022-23, bydd yn cael ei adlewyrchu yng nghyllideb atodol gyntaf 2022-23.

Yn ogystal â'r mecanwaith ecwiti y mae Cronfa Olyniaeth Rheoli Cymru yn ei ddarparu ar gyfer pryniant gan reolwyr, mae gan y Banc Datblygu gronfeydd eraill hefyd (Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a Chronfa Fusnes Cymru) sy'n gallu darparu benthyciadau i weithwyr yn ehangach er mwyn hwyluso pryniant gan weithwyr (busnesau sy'n eiddo i weithwyr).

Mae'r cronfeydd hyn sy'n seiliedig ar ddyledion yn galluogi Banc Datblygu Cymru i gyfrannu'n fwy uniongyrchol at amcan y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu mwy o gefnogaeth ar gyfer pryniant gan weithwyr.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Banc Datblygu:
Perfformiad ac effaith | Banc Datblygu Cymru

### 10.6 Busnes Cymru

Mae cynlluniau'r gyllideb ddrafft yn cynnwys £66.138m dros dair blynedd ar gyfer gweithgarwch Busnes Cymru. Yn 2021-22 roedd y gyllideb yn ysgogi £15.7m o gyllid ERDF gyda £11.4m arall yn 2022-23. Yn 2023-24, mae cyllideb o £9.443m wedi cael ei hailflaenoriaethu i ailgyflenwi cyllid yr UE gyda gostyngiad wedi'i reoli yn 2024-25. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i ymgysylltu â dros 60k o fusnesau, delio â dros 30,000 o ymholiadau uniongyrchol, darparu gwybodaeth i dros 12,000 o entrepreneuriaid a busnesau, a rhoi cymorth uniongyrchol i 3,000 o fusnesau ac entrepreneuriaid i greu busnesau newydd a swyddi. Bydd y cyllid hefyd yn golygu bod platfform digidol Busnes Cymru yn gallu delio â 10 miliwn o entrepreneuriaid a busnesau sy'n ffonio o bob cwr o Gymru.

Mae Busnes Cymru yn darparu un pwynt cyswllt i fusnesau ac i entrepreneuriaid gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar gyfer materion busnes gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, ac mae modd cael gafael ar y gwasanaeth yn ddigidol drwy http://busnescymru.llyw.cymru a sianeli cyfryngau cymdeithasol; y llinell gymorth; ac mae'n cynnig cyfuniad o gymorth busnes ar-lein, dros y ffôn, un-i-lawer ac un-i-un, sydd wedi cael ei deilwra yn ôl anghenion cleientiaid a gwahanol ranbarthau Cymru, gan ddibynnu ar y gofynion lleol.

Mae gwasanaeth Busnes Cymru mewn sefyllfa i wneud y canlynol:

- Codi dyheadau a gweithgarwch entrepreneuraidd yng Nghymru, gan arwain at gynnydd mewn hunangyflogaeth a'r gyfradd cychwyn busnes.
- Gwella cystadleurwydd, y gallu i oroesi a chynhyrchiant microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru, gan arwain at dwf cynaliadwy a swyddi o ansawdd da.
- Sicrhau bod cymorth yn hawdd ei weld, yn syml i'w ddefnyddio a'i fod wedi'i gysylltu'n dda â'r sector preifat ac offerynnau polisi eraill.

Mae'n wasanaeth cwbl ddwyieithog, hyblyg y gellir ei addasu ar gyfer ystyriaethau rhanbarthol yn ogystal ag anghenion penodol unigolion a busnesau.

I ategu'r llinell gymorth a'r ddarpariaeth ddigidol, mae prif wasanaeth cynghori Busnes Cymru yn darparu cymorth busnes uniongyrchol i fusnesau cyn cychwyn ac wrth iddynt

gychwyn a thyfu drwy reoli cysylltiadau un-i-un a thrwy weithgareddau gweithdy. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar-lein ar hyn o bryd, ond mae hefyd yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i ddarparu gwasanaethau i fusnesau bach a chanolig mewn lleoliadau ar hyd a lled Cymru.

Enghreifftiau o ddarpariaeth drawsbynciol Busnes Cymru

- Gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol drwy fodelau rôl entrepreneuriaid – Syniadau Mawr Cymru sy'n cynnal sgyrsiau i ysbrydoli pobl ifanc 25. Ategir hyn gan gymorth ariannol i golegau a phrifysgolion i ddatblygu eu capasiti entrepreneuraidd.

- Platfform cymorth digidol sydd ar gael i bawb, gan gynnwys gwasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein, porth caffael GwerthwchiGymru a phorth Brexit. Mae'r platfform hefyd yn cynnal sefydliadau fel Banc Datblygu Cymru, Gyrfa Cymru, y Bwrdd Uchelgais i ddarparu siop un stop.

- Darpariaeth Cyflymu Twf sydd wedi'i thargedu'n benodol at fusnesau sy'n dangos y potensial ar gyfer twf cyflym o ran allforion a swyddi o ansawdd uchel.

- Busnes Cymdeithasol Cymru sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar dwf.

- Mae'r pum Canolfan Fenter ranbarthol yn darparu mwy o weledidd rhanbarthol ac yn hwyluso dull mwy cysylltiedig o ddarparu cymorth busnes ac entrepreneuriaeth.

- Mae'r gwasanaeth Cynghori ar Gyflogaeth i Bobl Anabl yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru, ac mae ganddo gynghorwyr arbenigol i hybu cyflogi a chadw gweithwyr anabl er mwyn sicrhau gweithlu mwy cyfartal a chynrychioladol yng Nghymru.

Mae gwasanaeth Busnes Cymru yn cyflawni'r effeithiau canlynol:

| **TABL 9 – EFFAITH BUSNES CYMRU** | |
|---|---|
| **Mesurau** | **Canlyniadau** |
| Cynnydd net at y gwerth ychwanegol gros | £17 am bob £1 sy'n cael ei gwario ar y Rhaglen Cyflymu Twf<br>£10 am bob £1 sy'n cael ei gwario ar ddarpariaeth graidd Busnes Cymru |
| Gallu busnes newydd i oroesi | 85% dros 4 blynedd ar gyfer y rheini sydd wedi manteisio ar gymorth Busnes Cymru<br>41% ar gyfer busnesau newydd na chawsant gymorth |
| Effaith gymdeithasol | Mae 20% o'r swyddi sy'n cael eu creu yn cael eu llenwi gan unigolion a arferai fod yn ddi-waith |

## 10.7 Busnesau sy'n Eiddo i Weithwyr

Mae'r Gymdeithas Perchnogaeth gan y Gweithwyr yn amcangyfrif bod y sector sy'n berchen i'r gweithwyr yn cynrychioli oddeutu 3% o gynnyrch domestig gros y DU, a bod nifer y busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr yn cynyddu 10% o un flwyddyn i'r llall. Ar hyn o bryd mae 2-3 o gwmnïau'n cael eu prynu gan y gweithwyr yng Nghymru bob blwyddyn, ond gallai'r nifer fod yn uwch o lawer. Mae Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru yn cynnig cyngor arbenigol i gefnogi pryniant gan weithwyr.

Yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael drwy Busnes Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i wasanaeth Busnes Cymdeithasol Cymru i hyrwyddo ac i gynnig cefnogaeth uniongyrchol a datblygu Perchnogaeth gan y Gweithwyr yng Nghymru, a fydd yn cael ei hyrwyddo ymhellach drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol. Yn 2022-23 mae cyllid o £0.9m wedi'i glustnodi yng nghyllideb Busnes Cymru.

Mae Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru a weithredir gan y Banc Datblygu yn cynnig llwybr cyllido posibl sy'n seiliedig ar ddyled ar gyfer pryniant gan weithwyr. Gellir cefnogi pryniant gan reolwyr drwy Gronfa Olyniaeth Rheoli Cymru. Mae £25m yn rhoi'r cyllid sydd ei angen ar reolwyr a thimau rheoli uchelgeisiol i brynu busnesau bach a chanolig sefydledig yng Nghymru pan fydd eu perchnogion presennol yn ymddeol neu'n gwerthu.

## 10.8 Y Banc Cymunedol/cefnogi Banc Cambria

Mae'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i greu Banc Cymunedol i Gymru yn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg yn y farchnad o ran y bwlch mewn darpariaeth, effeithiolrwydd a mynediad at wasanaethau bancio o ansawdd yng Nghymru.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Banc Cymunedol Cymru yn seiliedig ar y model cydfuddiannol, sy'n eiddo i ac yn cael ei redeg er budd ei aelodau, yn hytrach na sicrhau'r elw mwyaf posibl i gyfranddalwyr. Bydd yn fanc cymunedol modern, gwasanaeth llawn, sydd â'i bencadlys yng Nghymru. Bydd yn darparu mynediad at gynnyrch a gwasanaethau dwyieithog, drwy amrywiaeth o sianeli gan gynnwys sianeli digidol, ar-lein ac yn y gangen. Bydd y Banc yn hwyluso buddsoddiad lleol ac yn gwella'r gwaith o greu cyfoeth cymunedol, gan ailddosbarthu cynilion i fenthyciadau ac atal draenio cyfalaf. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau a'r stryd fawr, gan wella mynediad at wasanaethau bancio bob dydd i bob dinesydd ni waeth beth yw eu hincwm na'u cyfoeth, yn ogystal â busnesau bach ar hyd a lled Cymru gyfan.

Mae banciau cydweithredol a chydfuddiannol newydd yn wynebu heriau, yn enwedig o ran sicrhau cyfalaf datblygu a rheoleiddio sy'n ei gwneud hi'n anodd cychwyn a thyfu'n organig. Ar ben hynny, mae cymwyseddau deddfwriaethol a rheoleiddiol y sector bancio yn faterion a gedwir yn ôl. Felly, rydym yn dibynnu ar alinio ac uchelgais cwmnïau yn y sector preifat sy'n rhannu ein gweledigaeth a'n hethos er mwyn sefydlu a gweithredu Banc Cymunedol i Gymru. Gwnaeth Gweinidog yr Economi Ddatganiad Llafar ar 14 Rhagfyr 2021 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Banc Cambria, gan groesawu'r cyhoeddiad gan Gymdeithas Adeiladu Sir Fynwy yn datgan ei bwriad i ddatblygu ei dull o ddarparu banc cymunedol yng Nghymru.

Mae Gweinidog yr Economi yn gyfrifol am y Banc Cymunedol yn ystod ei gam datblygu, gyda chymorth cyllid refeniw o £0.150m yn 2022-23 ar gyfer datblygu ymchwil a pholisi parhaus drwy gaffael arbenigedd / adroddiadau allanol mewn meysydd fel asesu effaith economaidd, diwydrwydd dyladwy ariannol a chyngor cyfreithiol. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithas yn arwain ar y buddsoddiad cyfalaf i sefydlu'r Banc Cymunedol.

## 10.9 Cymorth i sectorau gweithgynhyrchu allweddol fel awyrofod, modurol a dur

### Modurol

Mae'r ansicrwydd parhaus drwy gydol proses negodi Brexit, gadael y Farchnad Sengl, tarfu ehangach oherwydd COVID-19 ac yn fwy diweddar, y prinder byd-eang o led-ddargludyddion i gyd wedi rhoi pwysau tymor byr sylweddol ar y diwydiant. Mae'r diwydiant modurol yng Nghymru yn cynnwys tua 150 o gwmnïau sy'n cyflogi tua 11,000 o bobl mewn

swyddi cynhyrchiol iawn, medrus iawn ac sy'n talu'n dda. Gyda 2 wneuthurwr cerbydau arbenigol, 35 o gynhyrchwyr cydrannau a systemau haen un, mae'r rhan fwyaf o'r cwmnïau cadwyn gyflenwi hyn yn fusnesau bach a chanolig.  Mae Fforwm Modurol Cymru wedi dweud bod hyn, ynghyd â chau ffatri Honda yn Swindon, wedi cyfrannu'n sylweddol at golli tua 4,400 o swyddi yn y sector yng Nghymru ers 2019.

Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan yr SMMT ar gyfer cynhyrchu yn y DU yn 2021 yn dangos bod 721,505 o geir wedi cael eu gweithgynhyrchu hyd at fis Hydref 2021, 2.9% yn llai na'r un cyfnod yn 2020. Er gwaethaf hyder yn gynharach yn y flwyddyn, o ganlyniad i'r prinder o led-ddargludyddion, mae dadansoddwyr bellach yn disgwyl y bydd llai o geir wedi cael eu cynhyrchu yn y DU yn 2021 na'r llynedd.

Ar ben hynny, mae'r diwydiant ar flaen y gad o ran newid technolegol sylweddol drwy symud oddi wrth yr injan tanio fewnol. Fodd bynnag, gallai trawsnewid i sector modurol carbon isel arwain at gryn fanteision posibl, nid yn unig i'r amgylchedd ond hefyd i'r economi. Hyd at fis Tachwedd 2021, cerbydau hybrid ysgafn, cerbydau trydan batri a cherbydau plygio mewn oedd dros chwarter y cerbydau newydd a gofrestrwyd yn y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Fforwm Modurol Cymru yn ei waith i symud y sector i gyfleoedd trydaneiddio newydd yn y gadwyn gyflenwi ac i hyrwyddo'r sector yn ystod y trawsnewid hwn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ymgysylltu'n gryf â Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn gallu cael gafael ar ei chronfeydd perthnasol, gan gynnwys y rheini y mae'r Ganolfan Gyriant Uwch yn delio â nhw a'r gronfa gyrru'r chwyldro trydan i sicrhau nad yw cyfleoedd yn cael eu colli. Hyd yma, mae Cymru wedi cael dros 18% o'r cyllid sydd ar gael ar draws y DU ar gyfer y chwyldro gyrru cerbydau trydan. Roedd y Ganolfan Gyriant Uwch wedi dyfarnu £31.9m i un buddiolwr o'r fath, Meritor yng Nghwmbrân, am brosiect cydweithredol i ddylunio ac i ddatblygu system pŵer trydan trawsnewidiol ar gyfer lorïau a bysiau trydan trwm.

Yn y cyd-destun hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu llwyfan i ddiwydiant modurol Cymru. Mae'r ymateb diweddar i bresenoldeb ffisegol cwmnïau yn y sioe cerbydau carbon isel eleni yn dangos y galw mawr am arbenigedd o Gymru.

**Awyrofod**

Mae diwydiant Awyrofod ac Amddiffyn y DU yn cyflogi tua 250,000 o bobl gyda throsiant blynyddol o £60bn. Roedd Cymru, sydd â 5% o boblogaeth y DU, yn cyflogi dros 20,000 o bobl yn y sector cyn COVID, ac roedd ei drosiant oddeutu £6bn, yn ôl Fforwm Awyrofod Cymru.

Mae pandemig COVID wedi cael effaith niweidiol enfawr ar y sector Awyrofod / Awyrennau, a dyma'r sector, ynghyd â thwristiaeth a lletygarwch, sydd wedi cael ei daro galetaf.  Daeth llawer o system hedfan y byd i ben yn 2020 wrth i wledydd gau eu ffiniau a gorfodi cyfyngiadau symud.  Roedd y 5 cyflogwr mwyaf yn y sector Awyrofod sifil yng Nghymru wedi lleihau eu gweithlu gan dros 3,000 o staff oherwydd COVID, er eu bod bellach yn dechrau ailgyflogi a chyflogi prentisiaid.

Mae hyn yn digwydd yn ystod cyfnod o drawsnewid, wrth i'r sector fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chwilio am ffyrdd o gyrraedd y targed sero net ar gyfer 2050, drwy dechnoleg a dulliau gwahanol o ran gyriant, gweithrediadau a seilwaith.

Mae’r amcanestyniadau twf yn y sector Awyrofod ac Awyrennau yn arwyddocaol (4.5% y flwyddyn) a rhaid inni sicrhau bod Cymru yn dal yn rhan allweddol o allu’r DU a'i bod yn dod yn ôl o’r argyfwng presennol hwn er mwyn darparu llawer o swyddi medrus sy’n talu’n dda mewn sector deniadol, sy’n ymwybodol o’r hinsawdd ac sy’n datblygu. Mae rhywfaint o arwyddion calonogol, gan gynnwys archebion ychwanegol ar gyfer awyrennau Airbus A321 yn sioe awyrennau Dubai, recriwtio ychwanegol gan Airbus ym Mrychdyn a chontractau ychwanegol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i Raytheon. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwaith Fforwm Awyrofod Cymru i hyrwyddo’r sector. Byddwn hefyd yn parhau i hyrwyddo sector awyrofod Cymru ymhlith cyrff cyllido posibl yn Llywodraeth y DU ac yn lobïo’n galed dros barhau i gefnogi’r sector, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi i helpu gyda’r trawsnewid. Mae’r buddsoddiad diweddar gan Adran Drafnidiaeth y DU yn LanzaTech i ddatblygu tanwydd awyrofod cynaliadwy ym Mhort Talbot yn un enghraifft o hyn. Rydym hefyd wedi cefnogi Fforwm Awyrofod Cymru i ddatblygu clwstwr atgyweirio, archwilio a chynnal a chadw er mwyn cydweithio i ennill rhagor o gontractau tramor.

Mae gofod yn sector bach ond yn tyfu yn y DU ac yng Nghymru. Mae gennym nifer o chwaraewyr o safon fyd-eang, gan gynnwys Airbus, Raytheon a Space Forge, y byddwn yn parhau i’w cefnogi a’u hyrwyddo. Mae ffigyrau diwydiannol allweddol yng Nghymru yn cadeirio Cyngor Arweinyddiaeth Gofod Cymru sydd ar waith i helpu i gydlynu gweithgarwch a manteisio ar strategaeth ofod y DU gyfan, gan ddatblygu ein strategaeth ofod ein hunain sy’n canolbwyntio ar gryfderau penodol.

<u>Cynhyrchu Peiriannau Anadlu yn Airbus / AMRC Cymru, Brychdyn</u>

Roedd llawer o gwmnïau yng Nghymru wedi ymateb mewn modd aruthrol i bandemig COVID, gan gyfrannu’n sylweddol at gefnogi’r gwaith o gynhyrchu cyfarpar hanfodol ar gyfer y GIG, gan ddangos eu dyfeisgarwch, eu gallu i addasu a’u gallu i ymateb yn gyflym. Airbus, Brychdyn oedd yr enghraifft uchaf ei phroffil. Cafodd dros 550 o weithwyr eu trosglwyddo i AMRC Cymru, sy’n eiddo i Lywodraeth Cymru, gan weithgynhyrchu cydrannau allweddol ar gyfer peiriannau anadlu math ES02 Penlon. Cafodd bron i 12,000 o unedau eu cyflwyno i’r GIG erbyn diwedd mis Mehefin 2020. Roedd y gadwyn gyflenwi ar gyfer ESO2 Penlon yn cynnwys y gwaith Renishaw ger Caerdydd, gan ddangos bod llawer o Her Peiriannau Anadlu’r DU yn waith a ‘Wnaed yng Nghymru’.

**Dur**

O ganlyniad i’r pandemig yn ogystal â’r prinder parhaus mewn lled-ddargludyddion, mae’r sector dur wedi gweld gostyngiad mewn gweithgarwch mewn perthynas ag archebion y sector modurol. Mae marchnad adeiladu’r DU wedi aros yn gryf yn y DU. Rydym yn parhau i wreiddio egwyddorion Siarter Dur y DU er mwyn sicrhau’r manteision gorau posibl. Llywodraeth Cymru oedd llofnodwr cyntaf Siarter Dur y DU, sy’n ategu ein Nodyn Cyngor Caffael blaenorol drwy hybu prosiectau yng Nghymru i ddod o hyd i ddur o ansawdd uchel ym Mhrydain a manteisio arno lle bynnag y bo modd. Yn ogystal â chydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, rydym wedi rhoi sefyllfa gyfreithiol orfodol ychwanegol ar waith yn ein holiadur cyn-cymhwyso ar gyfer tendr, sef na ddefnyddir dur wedi'i ddympio ar unrhyw gontract a ddyfernir gan gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae datgarboneiddio yn her allweddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi nodyn polisi caffael mewn perthynas â strategaethau ymarferol i sbarduno camau datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus ehangach, a fydd yn cyd-fynd â Nodyn Polisi Caffael Cymru sy’n mynnu bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio cynlluniau lleihau carbon wrth gaffael contractau cyhoeddus sydd werth £5m neu fwy.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU drwy'r Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol, Clwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ystyried dulliau datgarboneiddio diwydiannol rhanbarthol. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â'r diwydiant, y gweithlu a Llywodraeth y DU i gefnogi'r broses o newid i gynhyrchu dur carbon isel er mwyn helpu i sicrhau dyfodol cystadleuol a chynaliadwy i'r sector dur yng Nghymru a'r DU.

### 10.10 Cymorth ar gyfer awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial

Mae Strategaeth Ddigidol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn cynnwys y 6 elfen sy'n adlewyrchu Adolygiad Brown yn 2019:

- **Datblygu Clystyrau Diwydiannol** – Datblygu ein clystyrau diwydiannol yng Nghymru i fod yn addas ar gyfer cymdeithas ddigidol yn yr $21^{ain}$ Ganrif. Mabwysiadu, creu a manteisio ar arloesedd sy'n cael ei sbarduno'n ddigidol er budd yr economi ehangach.
- **Datblygu Ecosystem Ddigidol** – Sefydlu ecosystem ffyniannus o arbenigedd masnachol ac academaidd sy'n sbarduno arloesedd digidol mewn technolegau newydd.
- **Mabwysiadu Digidol ar gyfer Busnesau** – Cynyddu cydnerthedd digidol busnesau a'u hannog i fabwysiadu rhagor o dechnolegau digidol, gan gynnwys egwyddorion economi werdd, gynaliadwy a ffyniannus ac addasiadau cyflym i ddyfodol gwaith a sgiliau yng Nghymru.
- **Seiberddiogelwch** – Cynyddu cydnerthedd digidol busnesau a'u hannog i fabwysiadu rhagor o dechnolegau digidol, gan gynnwys egwyddorion economi werdd, gynaliadwy a ffyniannus ac addasiadau cyflym i ddyfodol gwaith a sgiliau yng Nghymru.
- **e-Gaffael** – Gwella prosesau ac arferion caffael gan sicrhau gwell canlyniadau i bawb.
- **Gweithleoedd a Rennir** – Archwilio a chwilio am gyfleoedd cydweithredol ar gyfer mannau gweithio a rennir ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, er mwyn hybu cydweithio a lleihau teithio.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi hefyd yn tynnu sylw at Ddigideiddio fel un o'r Galwadau i Weithredu, sy'n dangos cynnydd o ran digideiddio eu cynnyrch a'u prosesau, sy'n galluogi busnesau i gael gafael ar gymorth ariannol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle mae busnesau technoleg a busnesau sydd wedi'u galluogi gan dechnoleg yn gallu ffynnu, gan ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau i gefnogi'r gwaith o ddigideiddio busnesau ar draws yr economi ac yn y gadwyn gyflenwi i ddigideiddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Diwydiannau Creadigol (gan gynnwys Digidol Creadigol), Seiberddiogelwch, Technoleg Ariannol a Lled-ddargludyddion Cyfansawdd ymysg y sectorau blaenoriaeth yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru. Bydd cryfderau'r meysydd hyn yng Nghymru yn sail i'r ymdrechion i fynd ar drywydd Buddsoddiad Uniongyrchol newydd o Dramor i Gymru a Mewnfuddsoddiad. Nodwyd hefyd bod technoleg yn glwstwr blaenoriaeth ar gyfer cymorth Allforio a Masnach, gydag ymdrechion penodol i gefnogi busnesau Technoleg Cymru i archwilio ac i ddarparu i farchnadoedd rhyngwladol newydd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu, a lansiwyd ym mis Mawrth 2021, yn cynnwys ffrwd waith Ddigidol sy'n ceisio cefnogi'r gwaith o fabwysiadu technolegau ac arferion digidol ymysg cwmnïau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Mae'r canlynol wedi cael eu creu gan Lywodraeth Cymru, yn rhan o bartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru neu wedi cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru:

- **Y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol**: canolfan ragoriaeth seiberddiogelwch, sy'n canolbwyntio ar drawsnewid digidol ym maes Technoleg Weithredol. Mae'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol yn darparu datrysiadau pwrpasol i fynd i'r afael â bygythiad ymosodiadau seiber ar systemau critigol. Mae'r ganolfan hefyd yn cynnwys y Ganolfan Addysg Ddigidol sy'n canolbwyntio ar ysgolion, dinasyddion a busnesau bach a chanolig, gan ddarparu hyfforddiant ac addysg i helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth, sgiliau a dealltwriaeth ddigidol.
- **Y Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch**: Mae Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru yn rhan o Ganolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield ac yn aelod o High Value Manufacturing (HVM) Catapult. Mae'n helpu'r gymuned gweithgynhyrchu i gael gafael ar dechnolegau datblygedig er mwyn gwella cynhyrchiant, perfformiad ac ansawdd.
- **Airbus Endeavr Cymru**: menter ar y cyd rhwng Airbus a Llywodraeth Cymru i gefnogi arloesedd yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cefnogi ymchwil a datblygu technolegau ym meysydd yr Economi Ddigidol, yr Economi Carbon Isel a Pheirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r canlynol:

- **Canolfan Arloesedd Seiber Arfaethedig**: Canolfan i'r diwydiant, i'r llywodraeth ac i bartneriaid academaidd er mwyn datblygu sector seiberddiogelwch Cymru a llenwi'r bylchau yn yr ecosystem bresennol sy'n ymwneud â sgiliau, arloesi a chreu parodrwydd i fentro.
- **Cyflymydd Cenedl Ddata Arfaethedig Cymru**: menter ar draws Cymru sy'n cael ei datblygu i gyflymu mewnwelediad, rhagolygon a gwybodaeth o asedau data amrywiol i gael effaith ar gymdeithas, ar iechyd ac ar yr economi.
- **Rhaglen i Raddedigion mewn Gwyddor Data**: mae'r rhaglen yn cael ei rheoli gan Fforwm Canolfan Gyswllt Cymru, ac mae'n ceisio datblygu mentrau creu talent ym maes gwasanaethau ariannol a gwyddor data. Mae'r sgiliau hyn yn cael eu cynllunio a'u cyflwyno ar y cyd â chonsortiwm cryf o gyflogwyr yng Nghymru.

### 10.11 Y dyraniadau i gyflawni Dewch i Lunio'r Dyfodol a'r Cynllun Gweithredu sydd ar y gweill

Mae Croeso Cymru yn gyfrifol am ddarparu gweithgarwch sy'n helpu i ddatblygu'r economi ymwelwyr mewn ffordd gynaliadwy ar hyd a lled Cymru drwy farchnata busnes, a gweithgarwch i feithrin enw da a pherfformiad Cymru fel lle i ymweld, buddsoddi, gweithio ac astudio. Mae'n mynd i'r afael yn benodol â gweithgarwch sy'n helpu i wneud y canlynol: *Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu* drwy sicrhau bod gwaith a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant yn ganolbwynt i'r gweithgarwch. Mae ein gweithgarwch yn chwifio'r faner dros frand Cymru Wales, ac yn dal i chwarae rhan allweddol yn adferiad yr economi ymwelwyr drwy helpu i fynd i'r afael â natur dymhorol (annog ymwelwyr i ymweld yn ystod y cyfnodau tawel), gwariant (annog pobl i wario mwy ac aros yn hirach), a lledaeniad (annog pobl i ddarganfod mwy o Gymru).

Mae rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cydnabod Croeso Cymru mewn capasiti arwain, gan helpu i osod cyfeiriad a meithrin hyder masnachol. Mae arnom eisiau i'n sector dyfu'n bwrpasol drwy gydol y flwyddyn, gan helpu i ysgogi ffyniant mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae pandemig y Coronafeirws yn effeithio'n ddifrifol ar y sector hwn. O'r cychwyn cyntaf, mae busnesau wedi wynebu heriau eithriadol na welwyd eu tebyg, ac er gwaethaf ymyriadau ariannol helaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae'r dirywiad yn y sector yn dal i gael effaith ddifrifol – symbolaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd – ar lawer o drefi a phentrefi sydd hefyd yn wynebu heriau eraill sy'n gysylltiedig â Covid-19, a fydd yn parhau i 2022/23. Fodd bynnag, mae'r sector hwn hefyd yn un sydd â rhagolygon cadarnhaol yn y tymor canolig i'r tymor hirach oherwydd natur ac ansawdd y cynnyrch Cymreig sy'n cael ei gynnig a chryfder ym marchnad ddomestig y DU, ac mae unrhyw gyllid yn ffordd o gefnogi diwydiant sy'n cael ei herio ac yn buddsoddi yn ffyniant hirdymor sawl rhan o Gymru.

Mae'r cynigion ar gyfer gweithgareddau wedi cael eu datblygu i gwblhau'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Adfer, ac i fynd a ni'n ôl at ein Cynllun Strategol Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025. Mae'r gweithgarwch arfaethedig hefyd yn ystyried ein hymrwymiad i ddefnyddio brand llwyddiannus Cymru Wales i hyrwyddo Cymru ym mhedwar ban byd, fel y nodwyd yn Strategaeth Ryngwladol Cymru a'r cynnig llesiant mwy unfryd sydd bellach wedi cael ei ddatblygu ac sy'n dod â'r brand yn nes at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ein brand ac ymgyrchoedd Cymru Wales hefyd yn gosod ein hiaith fel rhan ganolog o'n diwylliant, ac yn cyflwyno Cymru fel cenedl ddwyieithog sy'n edrych am allan. Wrth adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol, bydd y strategaeth yn darparu ymgyrchoedd sgiliau/recriwtio, marchnata busnes ac amodau cymorth busnes. Mae twristiaeth yn hanfodol i *wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn llefydd hyd yn oed gwell i fyw a gweithio ynddynt* drwy ariannu cynlluniau a gweithgareddau creu lleoedd sy'n rhoi manteision cymunedol ochr yn ochr â manteision i ymwelwyr er mwyn "tyfu twristiaeth er budd Cymru".

Bydd Croeso Cymru yn parhau i gefnogi arloeswyr yn y diwydiant sy'n cynnig cynnyrch o ansawdd uchel sy'n creu enw da. Ein prif fwlch o ran cynnyrch yw llety o ansawdd uchel mewn sawl rhan o Gymru, felly wrth i ni symud at werth yn hytrach na nifer, byddwn yn gweithio gyda busnesau sydd eisoes yn bodoli i gynyddu eu lefelau defnydd a'u cynnyrch. Bydd ein Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth yng Nghymru, sydd werth £50 miliwn ac yn cael ei darparu mewn partneriaeth â Banc Datblygu Cymru, yn parhau i helpu i ariannu buddsoddiad cyfalaf mewn prosiectau twristiaeth sy'n datblygu'r sector ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar economi Cymru.

Byddwn hefyd yn mabwysiadu dull gweithredu mwy strategol a rhyngwladol lle'r ydym yn ceisio darparu cyllid a buddsoddiad ychwanegol i gefnogi ein sector, gan greu Cymru yn lleoliad o safon i ddatblygu brand neu fusnes drwy'r sianeli priodol. Ni fydd pob prosiect eiconig yn brosiect ar raddfa fawr, ac nid yw ein cymorth wedi'i gyfyngu i lety ac atyniadau sy'n cael eu gwasanaethu; rydym yn chwilio am ansawdd ar gyfer pob pris a sector. Mae hyn yn cynnwys y sector carafannau a gwersylla – maes sy'n boblogaidd iawn ac sy'n arallgyfeirio'n gyflym mewn ymateb i newidiadau yn y farchnad, ac sy'n greiddiol i sefyllfa Cymru yn y farchnad, yn enwedig yn y DU.

Mae angen i ni barhau i fuddsoddi yn y seilwaith twristiaeth sylfaenol o amgylch Cymru, ac mewn profiadau o ansawdd uchel i ymwelwyr. Mae'r Pethau Pwysig yn gronfa ar gyfer Cymru gyfan a fydd yn darparu gwelliannau i seilwaith twristiaeth ar raddfa fach, ac yn sicrhau bod pawb sy'n ymweld â Chymru yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy

drwy gydol eu harhosiad. Bydd yn canolbwyntio ar y seilwaith sydd ei angen i sicrhau bod pawb yn teimlo bod croeso iddynt – o leoedd newid cwbl hygyrch (Changing Places) i welliannau hygyrchedd ehangach. Byddwn hefyd yn ystyried rhagor o syniadau, gan weithio gyda phartneriaid lleol i adeiladu ar hunaniaeth a chymeriad unigryw trefi marchnad a phentrefi arfordirol, a rhoi pwyslais ar brosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni'r agenda datgarboneiddio gan greu cyrchfannau cynaliadwy.

### 10.12 Y Strategaeth Manwerthu sydd ar y gorwel

Y sector manwerthu yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru, gyda **114,000 o weithwyr**, ac mae masnach fanwerthu yn cynrychioli **5.9% o werth ychwanegol gros Cymru (Sylwer bod y sector manwerthu yn cyfeirio at Ddosbarth Diwydiannol Safonol 47: Masnach fanwerthu, ar wahân i gerbydau modur a beiciau modur).** Ochr yn ochr â'i werth mewn termau economaidd, y sector manwerthu yw hanfod llawer o'n cymunedau lleol ac mae'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau hanfodol, a'r rhai nad ydynt yn hanfodol, y mae llesiant pob un ohonom yn dibynnu arnynt.

Fodd bynnag, mae effeithiau deuol ymadael â'r UE a Covid wedi newid pethau'n sylweddol. Cyn hynny, roedd y sector yn wynebu heriau'n ymwneud â datblygiadau technoleg a newidiadau ym mhatrymau gwario defnyddwyr, ond mae'r pandemig wedi cyflymu llawer o'r newidiadau hyn ac rydym wedi gweld effaith drychinebus ar fanwerthwyr bach a mawr. Er bod y sector manwerthu'n darparu gwaith gwerth chweil i lawer, rydym hefyd yn sylweddoli nad yw hynny'n wir i bawb, a bod heriau o hyd o ran ansawdd y gwaith. Mae cyflogwyr cyfrifol, undebau llafur ac eraill yn rhannu'r dyhead i fynd i'r afael â hyn ac i sicrhau bod gwaith teg, diogel, sicr a gwerth chweil yn rhywbeth mwy cyffredin ar draws y sector manwerthu.

Rydym yn elwa o lawer iawn o ymgysylltu â'r sector ac rydym yn gwerthfawrogi cyfraniadau ein rhanddeiliaid yn fawr, gan gynnwys busnesau a'u cynrychiolwyr ac undebau: Mae'r fforwm manwerthu, a lansiwyd ar y cyd gan Weinidog yr Economi a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, yn bartneriaeth gymdeithasol sy'n cynnwys cynrychiolwyr y sector, undebau a swyddogion sy'n gweithio ar y cyd i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth manwerthu a fydd yn arwain at argymhellion tymor byr, tymor canolig a thymor hir i roi sefydlogrwydd a sicrwydd i'r sector. Bydd y strategaeth, sydd i fod i gael ei lansio gan Weinidogion ym mis Mawrth 2022, yn helpu'r sector manwerthu i gael dyfodol llewyrchus a fydd yn cynnig cyfleoedd deniadol i gael gwaith ac i ddatblygu gyrfa, ac i barhau i fod yn gonglfaen i economi Cymru – o'r stryd fawr leol i ganol ein dinasoedd.

### 10.13 Newid i Sero Net

Cymru Sero Net yw cam nesaf ein taith, a'r cyntaf gyda'r targed sero net, gan weithio tuag at Gymru fwy gwyrdd, cryf a theg. Bydd ein dull gweithredu yn cadw'r swyddi presennol, yn creu cyfleoedd gwaith, ac yn helpu i sicrhau bod ein diwydiannau'n dal yn gystadleuol yn rhyngwladol. Ond, ni ellir gorbwysleisio'r heriau a fydd yn ein hwynebu yn y degawdau i ddod, a rhaid i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd i wireddu'r cyfleoedd sydd ar gael.

Ein gweledigaeth yw economi llesiant sy'n hybu ffyniant, yn amgylcheddol gadarn, ac yn helpu pawb i gyflawni eu potensial. Mae sicrhau proses deg o newid i ddyfodol carbon isel yn hollbwysig i Gymru. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Newid

Hinsawdd ar sut gallwn ni adnewyddu Busnes Cymru i adlewyrchu ein blaenoriaethau ar gyfer Sero Net, sut gallwn ni flaenoriaethu cymorth i fusnesau sy'n cyfrannu fwyaf ar gyfer Cymru gyda'n Contract Economaidd, a sut gall Banc Datblygu Cymru sicrhau bod busnesau sy'n ceisio datgarboneiddio yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae Busnes Cymru yn helpu busnesau bach a chanolig, microfusnesau ac entrepreneuriaid newydd i gyflwyno arferion datblygu cynaliadwy yng ngwead eu menter. Mae hyn yn helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar gyfleoedd newydd ac i gymryd camau i wireddu'r manteision i fusnesau o ddefnyddio adnoddau ac ynni'n effeithlon, yn ogystal ag ymuno â chymuned o sefydliadau blaengar sy'n gweithio tuag at ddyfodol di-garbon. Rydym yn cymryd camau pellach i gryfhau'r ffordd mae Busnes Cymru yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd – er enghraifft drwy roi gwell gwybodaeth, arweiniad a chymorth i helpu busnesau i leihau eu hallyriadau carbon yn ogystal ag addasu i effeithiau newid hinsawdd. Rydym yn adnewyddu gwefan Busnes Cymru i adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru Sero Net, ac yn cyfeirio busnesau bach a chanolig at raglenni cymorth i fusnesau, gwefannau allweddol, adnoddau ar-lein, canllawiau rheoleiddio ac astudiaethau achos i rannu profiadau busnesau yng Nghymru.

Mae busnesau yng Nghymru yn cael cefnogaeth ar hyn o bryd i ddatblygu, gweithredu a masnacheiddio cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd drwy Raglen Smart Cymru. Mae Banc Datblygu Cymru eisoes yn gweithio gyda llawer o fusnesau i gefnogi eu huchelgais i ddatgarboneiddio, i ddefnyddio llai o ynni, ac i ddatblygu cynnyrch newydd gyda phwyslais ar fod yn wyrdd. O ganlyniad i ehangder y gweithgarwch hwn a'r profiad mae'n ei gael ar hyn o bryd, mae gan Fanc Datblygu Cymru rôl allweddol i gefnogi'r agenda datgarboneiddio.

Ddiwedd mis Tachwedd lansiais Becyn newydd, gwerth £35m, i helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru i ail-lansio, datblygu, datgarboneiddio a thyfu er mwyn helpu i sbarduno adferiad economaidd Cymru. Mae ein Contract Economaidd yn blaenoriaethu cymorth i fusnesau sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf i Gymru. Rydym wedi ymrwymo i siarad â'r holl fusnesau sy'n cael cefnogaeth gennym ni, i ofyn sut maen nhw'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn dal yn elfen allweddol o'r cyd-destun sgiliau yng Nghymru. Maen nhw'n darparu gwybodaeth am y farchnad lafur i Lywodraeth Cymru, a hefyd yn gweithredu fel partneriaid strategol ar bob mater sy'n ymwneud â chyflogadwyedd a sgiliau, gan gefnogi'n uniongyrchol ein dull gweithredu rhanbarthol a'r Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf ledled Cymru. Bydd hyn yn golygu cyflymu'r broses o fabwysiadu'r sgiliau newydd sydd eu hangen ar gyfer y swyddi diogel o ansawdd uchel y mae economi carbon isel yn dibynnu arnynt.

Mae angen sicrhau bod swyddi'n fwy uniongyrchol berthnasol i anghenion economi carbon isel. Rhaid i'r system sgiliau wneud ei rhan i reoli'r broses o newid, er mwyn mynd ati'n gyflym i alluogi mwy o unigolion a busnesau i ffynnu mewn economi sy'n newid. Mae Cynllun Cymru Sero Net yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau Sero Net er mwyn helpu'r broses o newid i Sero Net ac un sy'n gyfartal ac yn deg.

Bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu. Bydd prifysgolion a cholegau, ynghyd â darparwyr sgiliau, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o

ddarparu’r hyfforddiant, y sgiliau a’r arloesedd sydd eu hangen ar gyflogwyr ledled Cymru.

Mae'r gallu i drosglwyddo sgiliau yn hollbwysig i’r economi mewn cyfnodau o argyfwng, a phan fydd angen ymyriadau hyfforddi newydd; mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, a’u natur drosglwyddadwy, yn hollbwysig i’r rhaglenni hyn. Mae’r Safonau hyn yn ymateb i newidiadau galwedigaethol a chymdeithasol, ac felly gallant ddarparu’r sgiliau y bydd eu hangen ar Gymru yn y dyfodol. Bydd strategaeth newydd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn ymateb i’r agenda adferiad gwyrdd fel un o’i phrif flaenoriaethau, ac yn comisiynu ymchwil Gwybodaeth am y Farchnad Lafur er mwyn dod o hyd i’r ffynonellau data mwyaf cadarn i ymateb i alwedigaethau newydd neu sy’n wynebu newid sylweddol ar draws y DU.

Mae angen inni gael polisi hirdymor a chyson ar ddatgarboneiddio hefyd, a mwy o gefnogaeth gan Lywodraeth y DU ar gyfer arloesi. Mae ein gofynion yn amrywio o eglurder i fusnesau ynghylch rheoleiddio a chyllid i weithredu ar newid tanwydd a phrisiau carbon, ac maen nhw’n galw am fframwaith cydlynol y gall pob un ohonom ei ddefnyddio i gynllunio. Gyda’r fframwaith cywir, byddai busnesau a diwydiant yng Nghymru o’r diwedd yn cael y sicrwydd sydd ei angen arnynt i gyflymu eu huchelgeisiau. Yn yr un modd â meysydd eraill a oedd yn arfer cael cyllid gan yr UE, mae lefelau gallu a chapasiti ymchwil yng Nghymru yn debygol o ostwng dros y blynyddoedd nesaf os na fydd Llywodraeth y DU o leiaf yn cynnal y lefelau buddsoddi presennol.

## 10.14 Polisi Llywodraeth Cymru ar weithio o bell

Nid yw’r gyllideb ar gyfer y polisi gweithio o bell wedi’i nodi ar wahân yng nghyllideb yr Economi. Fodd bynnag, oherwydd inni ddod â rhwydwaith prawf o hybiau at ei gilydd – a nodwyd yn y Datganiad i’r wasg – Lleoliadau gweithio o bell – am gost isel iawn neu heb unrhyw gost, rydym yn disgwyl y bydd y gwariant yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddarparu offer galluogi, fel llwyfan digidol ar gyfer gwybodaeth ac archebu. Bydd y rhain hefyd yn rhai isel eu cost, ac yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd masnachol yn y dyfodol, felly rydym yn disgwyl i’r costau gael eu rheoli fel pwysau yn ystod y flwyddyn.

## 10.15 Masnach

Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Allforio, ac mae cyflawni’r Cynllun yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae’r gyllideb yn dal yn £4.692m yn y gyllideb ddrafft, a’i nod yw sbarduno twf allforion o Gymru yn y tymor hwy. Mae’r Cynllun yn sicrhau bod gennym ni amrywiaeth gynhwysfawr o raglenni allforio i helpu busnesau gyda’u taith allforio – o ysbrydoli busnesau i allforio; meithrin y gallu i allforio; dod o hyd i gwsmeriaid tramor; a chyrraedd marchnadoedd tramor. Fodd bynnag, mae COVID-19 a’r berthynas fasnachu fwy cymhleth â’r UE, sef ein partner masnachu mwyaf, wedi cael effaith sylweddol ar fasnach ryngwladol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau dros dro diweddaraf ar allforio, sy’n dangos mai £13.5 biliwn oedd gwerth allforion nwyddau Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, sydd £2bn (13.1%) yn llai o’i gymharu â’r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020, a £4.3bn (24.1%) yn llai o’i gymharu â’r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2019.

Mae’r Cynllun wedi cyflwyno cymorth i fusnesau ar bob cam o’u taith allforio, gan gynnwys drwy gymorth a chyngor pwrpasol ‘ar lawr gwlad’ drwy ein tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol, sydd wedi’u lleoli ledled Cymru. Er mwyn

ysbrydoli diwylliant o allforio a rhyngwladoli ymysg busnesau Cymru, mae ein hymgyrch Esiamplau Allforio yn dangos llwyddiannau nifer o allforwyr profiadol yng Nghymru er mwyn annog pobl eraill i ystyried allforio; ac rydym hefyd wedi lansio'r Rhaglen Cwmnïau Allforio Newydd, sef rhaglen beilot i weithio'n ddyfal gyda busnesau penodol sydd â'r uchelgais a'r potensial i ddod yn allforwyr cynaliadwy a llwyddiannus. Er mwyn datblygu'r gallu i allforio, rydym yn darparu cyfres o weminarau a hyfforddiant a chyngor ar-lein ar allforio drwy'r Hyb Allforio pwrpasol. Cafodd y cynllun Clwstwr Allforio ei lansio yn yr hydref, ac mae'n dod â chwmnïau mewn sectorau allweddol at ei gilydd i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cryf. Mae'n gweithio ar sail "un-i-lawer" i helpu i ddatblygu allforio, gan helpu i sicrhau bod cwmnïau'n dysgu gan ei gilydd ac yn rhannu gwybodaeth a phrofiad. I helpu busnesau i ddod o hyd i gwsmeriaid tramor a chyrraedd marchnadoedd tramor, rydym yn parhau i ddarparu teithiau masnach/arddangosfeydd tramor i hyrwyddo allforion o Gymru – gyda llawer ohonyn nhw wedi cael eu cynnal ar-lein – i farchnadoedd allweddol, gyda chefnogaeth ein timau tramor, yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill yn y farchnad fel yr Adran Masnach Ryngwladol.

Mae'r gyllideb yn cefnogi ein hymdrechion i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer mewnfuddsoddi, sy'n ymrwymiad allweddol yn y Strategaeth Ryngwladol. Mae'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar fuddsoddiad sy'n cael ei arwain gan gyfleoedd, ac ar y rhannau hynny o'r economi lle gall Cymru ddangos gallu o safon ryngwladol – gan gynnwys lled-ddargludyddion cyfansawdd, technoleg ariannol, seiberddiogelwch, ynni'r môr ac agweddau penodol ar wyddor bywyd fel meddygaeth aildyfu, niwrowyddorau a thechnoleg feddygol. Fel rhan o hyn, mae rhaglen ymgysylltu eang yn cael ei rhoi ar waith gyda'n swyddfeydd tramor ein hunain, rhwydweithiau ehangach, clystyrau diwydiant hollbwysig, a rhanddeiliaid i godi proffil cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.

## 10.16 Safleoedd Rheoli Ffiniau

Yn unol â Datganiad o Bolisi Ariannu'r DU, dylai cyfleusterau'r Safleoedd Rheoli Ffiniau gael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth y DU, gan fod y costau wedi deillio o bolisi Llywodraeth y DU i Ymadael â'r UE. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw gyllid ei ddyrannu yn yr Adolygiad o Wariant.

Ers hynny, mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi ymrwymo i dalu'r costau o adeiladu Safleoedd Rheoli Ffiniau yng ngogledd ac yn ne-orllewin Cymru drwy geisiadau ar gyfer y gronfa wrth gefn. Mae hyn i'w groesawu. Nid yw'r cyllid wedi cael ei gynnwys hyd yma yn y gyllideb ddrafft.

Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dalu'r costau rhedeg, gan gynnwys y costau i sefydlu'r trefniadau. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai dalu'r costau hyn hefyd, ac mae'n parhau i drafod â Llywodraeth y DU.

## 10.17 Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Ar hyn o bryd nid yw cyllideb 2022-23 yn amlinellu dyraniad penodol o gyllid Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ar gyfer y pum blaenoriaeth a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru. Mae'r dyraniad mewn blynyddoedd blaenorol wedi cefnogi ymchwil, datblygu ac arloesi ar y cyd gan y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r canlynol yn dal yn flaenoriaeth i ni:

- Defnyddio'r capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi i gefnogi ein Rhaglen Lywodraethu, gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd, adferiad amgylcheddol a datgarboneiddio;
- Adeiladu ymhellach ar y capasiti ymchwil, datblygu ac arloesi yng Nghymru yn y Gwyddorau Bywyd ac Iechyd;
- Datblygu strategaeth arloesi ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a datblygu sgiliau yn y sylfaen ymchwil ac arloesi.

Byddwn yn parhau i gyflawni ein hagenda arloesi:

- **Drwy fuddsoddi ar y cyd a rhannu risgiau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ym myd busnes.** Mae ein rhaglenni presennol yn helpu busnesau i ddatblygu cynnyrch a phrosesau newydd carbon isel. Mae pob cais yn cael ei asesu yn erbyn nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- **Drwy sbarduno arferion newydd ym maes caffael cyhoeddus.** Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Innovate UK Llywodraeth y DU i ddatblygu cystadlaethau Menter Ymchwil Busnesau Bach, sy'n galluogi cyrff yn y sector cyhoeddus i chwilio am atebion arloesol i'w problemau sy'n anodd eu datrys – mae llawer ohonyn nhw'n ymwneud â'r agenda datgarboneiddio; ee, helpu Cyngor Caerdydd i gynnal cystadleuaeth cynhyrchu ynni adnewyddadwy cludadwy er mwyn lleihau'r angen am bŵer diesel mewn digwyddiadau mawr yn y ddinas.

- **Drwy ddarparu cyfleusterau arloesi yn y DU.** Er enghraifft sicrhau'r Ganolfan Adeiladu Gweithredol yn Abertawe, a gafodd £36m gan Gronfa Her y DU. Mae'r ganolfan yn datblygu cynnyrch a thechnegau'r genhedlaeth nesaf sy'n cynhyrchu, yn storio ac yn rhyddhau ynni. Roedd hyn yn adeiladu ar waith y Sefydliad SPECIFIC, hefyd yn Abertawe, a ddatblygodd yn ddiweddar un o'r ystafelloedd dosbarth cyntaf sy'n effeithlon o ran ynni.

- **Drwy gadw golwg ar yr arferion gorau cenedlaethol, Ewropeaidd a byd-eang.** Drwy ein gwaith mewn partneriaethau arloesi rhyngwladol – llawer ohonyn nhw â rhanbarthau eraill yn yr UE.

  Mewn blynyddoedd blaenorol mae arloesi wedi cael llawer o gyllid gan yr UE, gan ddarparu cyllideb flynyddol o tua £21m a oedd hefyd yn mynd i'r afael â'r uchelgeisiau yn adolygiad Reid a'r disgwyliadau ar gyfer y Llywodraeth flaenorol ynghylch dosbarthu a darparu cyllid yn lle cyllid yr UE, gan sicrhau canlyniadau arwyddocaol:

| **TABL 10 – CANLYNIADAU ARLOESI** | |
|---|---|
| **Canlyniadau** | **Effaith** |
| Annog busnesau i ddatblygu drwy fabwysiadu arferion Arloesol | 881 |
| Buddsoddiadau busnes mewn prosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi | £32m |
| Busnesau'n cydweithio ar brosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi cydweithredol | 80 |
| Datblygu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau arloesol er mwyn creu gwelliannau cymdeithasol | 382 |
| Cofrestru hawliau eiddo deallusol (i gadw'r wybodaeth yng Nghymru) | 74 |
| Sicrhau buddsoddiad ar gyfer twf busnes drwy Ymchwil, Datblygu ac Arloesi | £66m |
| **Cynyddu'r gwerth ychwanegol gros net drwy fabwysiadu arferion Ymchwil, Datblygu ac Arloesi** | **£112m** |
| Lleihau Carbon: Busnesau'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cynaliadwyedd amgylcheddol | 961 |

Mae'r Llywodraeth hon yn sylweddoli pwysigrwydd Ymchwil, Datblygu ac Arloesi i Gymru ond, oherwydd newidiadau Llywodraeth y DU i Ddeddf y Farchnad Fewnol a'i rheolaeth dros Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae wedi gorfod ymateb i'r gostyngiad a ragwelir yn y cyllid a ddisgwylir ac ymrwymiadau blaenorol cysylltiedig a adlewyrchir yn y dyraniadau cyllideb cyfalaf o £31.4m dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys cyllid yr UE o £11.4m yn 2022-23.

Mae Prifysgolion yng Nghymru wedi sefydlu Rhwydwaith Arloesedd Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynigion ar y cyd ym maes ymchwil ac arloesi, gan ddod â galluoedd Cymru mewn nifer o feysydd pwysig ar gyfer datblygu cymunedol a busnes i fwy o amlygrwydd. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi buddsoddi £1m yn Rhwydwaith Arloesedd Cymru dros dair blynedd, ac mae cyfarwyddwr dros dro wedi cael ei benodi'n ddiweddar.

Nid yw'n glir beth mae buddsoddiad £22bn Llywodraeth y DU mewn arloesedd erbyn 2027 yn ei olygu i Gymru, ac mae'n hanfodol ein bod ni'n sicrhau lefelau cyllid sydd o leiaf gyfwerth â'r lefelau cyllid roeddem yn arfer eu cael drwy'r UE, a'n bod yn mynd i'r afael â thanariannu hanesyddol gan ffynonellau buddsoddi cystadleuol ac anghystadleuol yn y DU.

Mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid yng Nghymru i ddatblygu Strategaeth Arloesi drawslywodraethol newydd. Wrth lunio'r strategaeth, mae angen i'r gwaith arloesi ganolbwyntio ar adferiad a thwf. Mae adolygiad yr Athro Reid yn un ffynhonnell o dystiolaeth a fydd yn sail i'r gwaith hwn, ond mae ein blaenoriaethau a'n pwyslais wedi gorfod esblygu hefyd yn ystod tymor y Llywodraeth hon, wrth ystyried y cyfyngiadau cyllido presennol.

Manylion unrhyw gyllid yn ystod 2022-23 a fydd, yn ôl y bwriad, yn darparu adnoddau ar gyfer y strategaeth arloesi genedlaethol sy'n seiliedig ar genhadaeth ac yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio, os nad yw hyn wedi'i gynnwys uchod. Bydd ein strategaeth arloesi drawslywodraethol newydd, sy'n gwbl integredig, yn rhoi sylw i gyfleoedd a heriau i adeiladu ar y momentwm mewn arloesedd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a achosir gan bandemig Covid-19.  Bydd hefyd yn ymdrin â mesur carbon er mwyn inni allu deall yn iawn ein heffaith ar leihau carbon. Bydd yn cyflwyno'r ddadl dros gael cyllid i helpu darpariaeth drawslywodraethol, ac yn cynnal asesiad o'r hyn sydd ei angen.

<u>Gwaith Craffu 2020-21 y Pwyllgor – Cyllid yr UE ar gyfer Ymchwil ac Arloesi</u>

Yn ystod y cyfnod rhwng 2014 a 2020, roedd Cymru wedi elwa o gael dros £2bn o Gronfeydd Strwythurol. Rhwng 2014 a 2018, cafodd 20% o gyfran Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ei dyrannu i ymchwil ac arloesi. Roedd cyfanswm y buddsoddiad tua £334m rhwng 2014 a 2020, tua £60m bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys portffolio o fuddsoddiadau strategol, ategol ac arbenigol, a oedd yn cynnwys Gwyddorau Bywyd, Ynni, Uwch Beirianneg a TGCh. Yng nghyd-destun y DU, yn ystod y cyfnod hwn roedd Cymru wedi dyrannu tua €388m o gyfanswm cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i'r DU, sef €1.5bn, ar gyfer Ymchwil ac Arloesi – mwy nag unrhyw un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn y DU.

Roedd rhaglen Horizon 2020 yn helpu ymchwilwyr i gydweithio, gyda'i phwyslais ar wyddoniaeth ragorol, arweinyddiaeth ddiwydiannol a mynd i'r afael â heriau cymdeithasol. Roedd hefyd yn darparu cymorth grant ar draws yr holl sbectrwm ymchwil a datblygu, o ymchwil arloesol i weithgarwch agos at y farchnad. Erbyn mis Medi 2018, roedd sefydliadau yng Nghymru wedi sicrhau tua €102m o gyllid Horizon 2020 ers dechrau'r rhaglen, ar sail rhagoriaeth gystadleuol. Roedd hyn yn cynnwys dros 255 o gyfranogiadau (dyfarniadau), a 2,820 o gyweithiau rhyngwladol a oedd yn cynrychioli buddsoddiad o tua €1 biliwn i gyd mewn prosiectau yr oedd cyfranogwyr o Gymru yn cydweithio arnynt.

Mae cynlluniau SMART Llywodraeth Cymru, sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Arloesedd SMART, SMARTCymru ac Arbenigedd SMART), yn darparu cyfres integredig o ymyriadau sy'n sbarduno ymddygiad arloesol mewn busnesau yng Nghymru. Mae Arloesedd SMART wedi ymgysylltu â dros 1,800 o gwmnïau, ac wedi annog 240 ohonyn nhw i wneud cais am gyllid cystadleurwydd gan Innovate UK a Horizon 2020. Mae SMARTCymru ac Arbenigedd SMART wedi helpu dros 340 o gwmnïau gyda phrosiectau Ymchwil a Datblygu sydd werth dros £100m gydag arian cyfatebol.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £42m mewn ymchwil iechyd a gwasanaethau cymdeithasol bob blwyddyn. Mae hyn yn darparu cymorth ar gyfer seilwaith helaeth o ganolfannau, unedau treialon a grwpiau cymorth sy'n cynnal astudiaethau ymchwil glinigol, yn arwain ymchwil ryngwladol aml-ganolfan, ac yn cymryd rhan mewn ymchwil sy'n effeithio ar iechyd Cymru, y DU a'r byd. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol mewn seilwaith ymchwil i gefnogi a chynyddu'r capasiti ymchwil a datblygu, a ddyluniwyd er mwyn sicrhau bod Cymru yn adeiladu ar gryfderau ymchwil lle mae'n rhagori ac yn cynnwys cyweithiau hanfodol gyda'r diwydiant gwyddorau bywyd, er budd cleifion yn gyffredinol.

Darparwyd arian cyfatebol ar gyfer rhaglen Sêr Cymru II, a oedd werth £60m. Pwrpas y rhaglen yw cynyddu capasiti ymchwil Cymru, ac mae wedi denu amrywiaeth ehangach o dalentau rhagorol ym maes ymchwil sydd ar ddechrau neu ar ganol eu gyrfa, a chymrodoriaethau i ddenu gwyddonwyr sy'n cymryd seibiant o'u gyrfa yn ôl i swyddi ymchwil yng Nghymru. Gyda'i gilydd, mae'r buddsoddiad yn dod i oddeutu £100m gan y canlynol: Llywodraeth Cymru, CCAUC, Sefydliadau Addysg Uwch Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a chyllid Horizon 2020.

Mewn ymateb i Covid-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru gais ymchwil i brifysgolion, drwy'r rhaglen, am gynigion ymchwil newydd i gyfrannu at ddatblygu ymchwil, gan edrych ar arbenigedd a thalent yn ein sector prifysgolion. Llwyddodd y cynllun gwerth £5.4m i gyflawni 40 o brosiectau, gan ddenu £2.5m o arian cyfatebol. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa CCAUC:

| **TABL 11 – CYMORTH UNIONGYRCHOL CCAUC** | | | |
|---|---|---|---|
| | **2019/20 £'000** | **2020/21 £'000** | **2021/22 £'000** |
| **Fesul Blwyddyn Academaidd** | | | |
| Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru | 7,500 | 10,500 | 15,000 |
| Rhwydwaith Arloesedd Cymru | - | 150 | 420 |
| Ymchwil o Ansawdd | 75,800 | 75,800 | 81,700 |
| Ymchwil Ôl-radd | 6,500 | 6,500 | 6,200 |
| Y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang | 2,500 | 2,800 | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Sêr Cymru | 200 | 500 | 1,300 |
| | **92,500** | **96,250** | **104,620** |
| **Cronfeydd sy'n cael eu rheoli gan CCAUC (Blwyddyn Ariannol)** | | | |
| Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch* | 6,980 | 9,430 | 6,980 |
| Cronfa Fuddsoddi Partneriaeth Ymchwil y DU** | - | 7,280 | 22,640 |
| | **6,980** | **16,710** | **29,620** |

## 10.18 Sgiliau a Chyflogadwyedd

### Gwarant i Bobl Ifanc

Y Gwarant i Bobl Ifanc yw'r strwythur ymbarél uwchben yr holl raglenni ar gyfer pobl ifanc, a'i nod yw creu taith syml i bobl ifanc beth bynnag fo'u hamgylchiadau a'u cefndir.

Rhagwelir y bydd y Gwarant i Bobl Ifanc yn costio **dros £500m** ym mlwyddyn ariannol 2022-23 ar draws Llywodraeth Cymru; mae hyn yn cynnwys costau o fewn yr MEG Addysg a'r Gymraeg, yn ogystal â MEG yr Economi.

O fewn MEG yr Economi, rhagwelir £68m ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Mae hyn yn cynnwys tua £12m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ym mlwyddyn ariannol 2022-23 o raglen Twf Swyddi Cymru + Mwy drwy weithrediadau Hyfforddeiaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, ar yr amod bod y gweithgarwch yn gymwys. Mae tua £48m o'r ffigur hwn yn ymwneud â chyllidebau a gweithgareddau cyfredol sy'n cefnogi'r gwarant, ac mae £20m yn gyllideb ychwanegol sydd wedi cael ei dyrannu yng nghyllideb ddrafft 2022-23 i gefnogi'r garfan NEET ychwanegol a ddisgwylir.

### Cyfrifon Dysgu Personol

Bydd Cyfrifon Dysgu Personol yn elwa o £1m ychwanegol hyd at 2024-25, a fydd yn ei gwneud yn rhaglen £18m ar gyfer 2022-23 a £18.5m erbyn 2024-25. Mae'r rhaglen yn helpu pobl gyflogedig ledled Cymru, sydd ar gyflogau is na'r cyfartaledd, i ddysgu sgiliau lefel uwch i'w helpu i gael amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith a/neu i gael swydd ar lefel uwch. Fel ein cynllun treialu cyntaf ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw, mae Cyfrifon Dysgu Personol yn bodloni anghenion sgiliau rhanbarthol wrth iddyn nhw newid, ac yn parhau i fynd i'r afael â bylchau sgiliau gyda chyllid sy'n targedu'n benodol y prinder o weithwyr cymwys a'r bylchau sgiliau mewn sectorau â blaenoriaeth – fel iechyd a gofal cymdeithasol, logisteg, adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy.

Mae'r rhaglen hefyd yn ymateb i ofynion uwchsgilio cyflogwyr, i gydnabod yr heriau parhaus a achosir gan Covid-19, a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o benderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r cyrsiau a'r cymwysterau'n cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r holl gyrsiau a chymwysterau sy'n cael eu darparu drwy'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yn cael eu cymeradwyo gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion sgiliau rhanbarthol wrth iddyn nhw newid ac yn mynd i'r afael â bylchau sgiliau.

Mae'r dull hyblyg yma o ddysgu yn galluogi colegau i weithio mewn ffordd wahanol i gynnig cyrsiau a chymwysterau i fynd i'r afael â'r gofynion sgiliau economaidd ar gyfer pobl gyflogedig, beth bynnag fo lefel eu cymhwyster blaenorol.

Ar y cyd â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, bydd Cyfrifon Dysgu Personol yn bodloni'r anghenion sgiliau rhanbarthol wrth iddyn nhw newid, ac yn parhau i fynd i'r afael â bylchau sgiliau. Yn 2021-22, mae cyllid ychwanegol yn cael ei dargedu'n benodol i fynd i'r afael â phrinder gweithwyr cymwys a bylchau sgiliau mewn sectorau â blaenoriaeth, fel ailgyflogi ac ailhyfforddi staff i ddychwelyd i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, hyfforddi mwy o yrwyr lorïau trwm, ac ailsgilio unigolion i ymateb i gyfleoedd gwaith newydd cyffrous ym maes adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy.

Mae gwerthusiad allanol wedi dechrau, a fydd yn cyfrannu at newidiadau pellach i bolisïau neu gymhwysedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2022-23 er mwyn helpu'r Rhaglen i gyrraedd grwpiau mwy amrywiol o ddysgwyr, gan gynnal ei nodau a'i hamcanion craidd ar yr un pryd.

Cymhwysedd Unigolion:
- Yn byw yng Nghymru
- Eisiau ennill sgiliau/cymwysterau mewn sectorau â blaenoriaeth
- Yn 19 oed neu'n hŷn

Hefyd, rhaid i unigolion fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Yn gyflogedig (gan gynnwys hunangyflogedig) ac yn ennill llai na'r incwm canolrifol (£29,534), neu
- Yn weithiwr ar gontract dim oriau, neu
- Yn aelod o staff asiantaeth, neu
- Mewn perygl y bydd ei swydd yn cael ei dileu, neu
- Mae COVID-19 wedi cael effaith ariannol negyddol ar yr unigolyn (ee, mae'r incwm a ragwelir yn debygol o fod yn is na'r cyflog canolrifol)

***Sylwer: Mae cyllid ar gyfer gweithgarwch Cyfrifon Dysgu Personol yn rhan o'r MEG Addysg a'r Gymraeg***

**Cymru'n Gweithio**

Cymru'n Gweithio yw dull Llywodraeth Cymru o ddarparu cyngor diduedd am ddim ar gyflogadwyedd a gyrfaoedd, sydd wedi'i deilwra i anghenion ac amgylchiadau unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd proffesiynol i unigolion dros 16 oed drwy gynnal asesiad sy'n seiliedig ar anghenion – gan gynnwys rhwystrau rhag cael swydd – a chyfeirio'r unigolyn at gefnogaeth briodol. Mae'r gwasanaeth yn bwynt mynediad cenedlaethol at gymorth ynghylch cyflogadwyedd, sy'n cefnogi ac yn ategu'r sianeli presennol. Bydd Cymru'n Gweithio yn cyfeirio unigolion at raglenni cyflogadwyedd priodol sy'n cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru, ReAct a Hyfforddeiaethau.

Cymru'n Gweithio yw'r llwybr i'n Gwarant i Bobl Ifanc, ac mae'n adeiladu ar y model cadarn a llwyddiannus o roi arweiniad gyrfa a chyfeirio at gymorth. Ar 30 Medi, dechreuodd Cymru'n Gweithio ddilyn cynnydd a monitro'r Gwarant i Bobl Ifanc.

**ReAct + Mwy**

Mae ReAct + Mwy yn rhaglen newydd a chyffrous ynghylch cyflogadwyedd oedolion. Mae'n cynnig cymorth personol i oedolion di-waith, 18 oed a hŷn sy'n ceisio ymuno â'r farchnad lafur, drwy weithio'n agos gyda'r unigolyn i gael gwared ar yr hyn sy'n ei rwystro rhag cael swydd.

Bydd ReAct + Mwy yn rhan allweddol o'r ymateb i'r ymrwymiad Gwarant i Bobl Ifanc, drwy ehangu'r ddarpariaeth i'r garfan NEET 18-24 oed. Cynigir cymhelliant hefyd i gyflogwyr sy'n recriwtio unigolyn NEET. Bydd hyn hefyd ar gael i gyflogwyr sy'n recriwtio unigolyn sydd ag anabledd. Bydd y rhaglen yn cynnig dull gweithredu personol, ac yn galluogi pobl i gael gafael ar hyfforddiant a chefnogaeth berthnasol. Bydd hefyd yn helpu i atal pobl rhag bod yn ddi-waith yn y tymor hir drwy eu helpu i symud ymlaen i waith cynaliadwy yn gyflym.

Mae ReAct + Mwy yn rhaglen grant ynghylch cyflogadwyedd oedolion sy'n cael ei harwain gan y galw lle mae'r pŵer prynu yn nwylo'r unigolyn, gyda chymorth gan gynghorydd Cymru'n Gweithio. Felly mae darparwyr yn amrywio ar draws y rhanbarthau, gan ddibynnu ar anghenion personol y dinesydd a'r cyfleoedd yn y sector. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi'r hyblygrwydd a'r gallu i'r prosiect ymateb yn gyflym i newidiadau yn yr amgylchedd economaidd ac i newidiadau mewn blaenoriaethau sy'n ymwneud â llesiant cymdeithasol Cymru, drwy ymateb i anghenion unigolion a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu.

Bydd y rhaglen newydd yn cadw'r dull llwyddiannus o ddarparu sgiliau hyfforddiant galwedigaethol i unigolion, ac yn darparu cymorth gyda chostau gofal a theithio, er enghraifft. Bydd gofynion cymhwysedd ReAct + Mwy yn cael eu hehangu i gynnwys y garfan NEET, gan gefnogi'r ymrwymiad Gwarant i Bobl Ifanc yn y Rhaglen Lywodraethu. Cynigir cymhelliant i gyflogwyr sy'n recriwtio unigolyn o'r garfan hon. Mae'r cymhelliant i gyflogwyr hefyd yn blaenoriaethu unigolion sydd ag anabledd. Bydd ReAct + Mwy hefyd yn helpu Cyn-droseddwyr a throseddwyr sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned.

Mae Grant Cymorth ar gyfer Datblygiad Personol yn ychwanegiad newydd cyffrous i ReAct + Mwy, a bydd yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n rhwystro unigolion rhag cael swydd – mae hyn yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill: archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), yn ogystal â materion llesiant sy'n ymwneud â hunanwerth, hyder, cymhelliant, cadernid ac agwedd. Dim ond i unigolion y nodir eu bod o dan anfantais o ran y farchnad lafur, ac y mae angen rhagor o gymorth arnyn nhw i oresgyn yr hyn sy'n eu rhwystro rhag cael swydd, y bydd y ddarpariaeth hon ar gael. Bydd ReAct + Mwy yn cynnig profiad gwaith pan fydd hyn yn rhwystr amlwg rhag cael swydd, a bydd Cymru'n Gweithio yn sicrhau bod y rheini sy'n cymryd rhan yn ReAct + Mwy yn cael eu paru'n effeithiol â swydd.

Bydd gwasanaeth mentora newydd yn cael ei gyflwyno i'r rhaglen ReAct + Mwy, a bydd ar gael i unigolion cymwys. Bydd yn rhoi cymorth personol i'r rheini sy'n wynebu rhwystrau rhag cael swydd, ac yn mynd yr 'ail filltir' i helpu unigolion. Mae swyddogion yn gweithio ar draws y Llywodraeth gyda chydweithwyr Cymunedau am Waith a Mwy a Cymru'n Gweithio i ddatblygu'r elfen arloesol hon sy'n adeiladu ar ganlyniadau gwerthusiadau blaenorol.

Drwy dargedu grwpiau dan anfantais a galluogi pobl i gael gafael yn gyflym ar hyfforddiant a chymorth perthnasol, bydd rhaglen ReAct + Mwy yn helpu i atal pobl rhag bod yn ddi-waith yn y tymor hir drwy eu helpu i symud i waith cynaliadwy yn gyflym.

Mae ymarfer dadansoddi costau wedi cael ei gynnal i sicrhau bod y cymorth a gynigir yn gyfredol ac yn realistig er mwyn i unigolion gymryd rhan yn y rhaglen a dilyn eu taith at swydd. Mae'r tabl isod yn dangos datblygiadau allweddol ReAct + Mwy:

| TABL 12 – DATBLYGIADAU ALLWEDDOL REACT | | |
|---|---|---|
| **Elfen o'r Rhaglen** | **ReAct ar ei ffurf bresennol** | **ReAct + Mwy** |
| Hyfforddiant Galwedigaethol | Hyd at £1,500 | Hyd at £1,500 |
| Cymorth Ychwanegol | Hyd at £200 | Hyd at **£300** |
| Gofal/Gofal Plant | Hyd at £2,600 (gofal plant yn unig) | Hyd at **£4,550** |
| Cymorth Recriwtio i Gyflogwyr | Hyd at £3,000 | Hyd at £3,000<br>**£1,000** ychwanegol i gyflogwyr sy'n recriwtio person anabl neu berson ifanc 18-24 oed sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| Cymorth Hyfforddi i Gyflogwyr | Cyfraniad o 50% hyd at £1,000 | Cyfraniad o 50% hyd at £1,000 |
| Cymorth ar gyfer Datblygiad Personol | Nid yw'r elfen hon ar gael ar y rhaglen ReAct bresennol | Hyd at **£500** *(ar gael i'r rheini y nodwyd eu bod yn wynebu rhwystrau rhag ymuno â'r farchnad lafur)* |
| Mentora | Nid yw'r elfen hon ar gael ar y rhaglen ReAct bresennol | Nid yw hyn yn costio ceiniog i'r rhaglen, a bydd yn cael ei gynnwys yn rôl gwasanaeth Cymru'n Gweithio a Cymunedau am Waith a Mwy. |
| Profiad gwaith | Nid yw'r elfen hon ar gael ar y rhaglen ReAct bresennol | Nid yw hyn yn costio ceiniog i'r rhaglen, a bydd yn cael ei gynnwys yn rôl y rhaglen Cymru'n Gweithio ac ewyllys da'r rhwydwaith cyflogwyr. |
| Taith at swydd (Paru Swyddi yn Cymru'n Gweithio) | Nid yw'r elfen hon ar gael ar y rhaglen ReAct bresennol | Nid yw hyn yn costio ceiniog i'r rhaglen, a bydd yn cael ei gynnwys yn rôl y rhaglen Cymru'n Gweithio. |

### Twf Swyddi Cymru + Mwy

Mae Twf Swyddi Cymru + Mwy yn gyfle newydd a chyffrous sy'n rhan hanfodol o'r Gwarant newydd i Bobl Ifanc. Mae Twf Swyddi Cymru + Mwy yn cynnwys elfennau gorau Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru, a bydd yn darparu pecyn cymorth cyfannol sydd wedi'i deilwra i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), neu sydd mewn perygl o hynny.

Roedd hen raglen Twf Swyddi Cymru yn canolbwyntio'n llwyr ar gyfleoedd gwaith a oedd yn cynnig swyddi o chwe mis â chymhorthdal cyflog i bobl ifanc. Mae Twf Swyddi Cymru + Mwy yn cadw'r elfen hon, ond yn ei hehangu er mwyn canolbwyntio hefyd ar y bobl ifanc hynny nad ydynt eto'n barod am swydd, a'u helpu i gyrraedd y cam hwnnw. Mae pwyslais llawer cryfach hefyd ar helpu pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial, drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra i'w helpu i oresgyn unrhyw rwystrau maen nhw'n eu hwynebu wrth geisio cael cyfleoedd hyfforddiant neu waith.

Mae'r gwahaniaethau rhwng Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru + Mwy wedi'u nodi yn y tabl hwn:

| TABL 13 – GWAHANIAETHAU RHWNG HYFFORDDEIAETHAU A TWF SWYDDI CYMRU + MWY | | |
|---|---|---|
| **Gweithgaredd** | **Hyfforddeiaethau** | **Twf Swyddi Cymru + Mwy** |
| Tair elfen | Ymgysylltu<br>Lefel 1<br>Pontydd at Waith (nid fu'r elfen hon erioed yn weithredol) | Ymgysylltu<br>Datblygiad<br>Cyflogaeth |
| Yr elfen gyntaf | Mae'r Elfen Ymgysylltu yn nodi ac yn mynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag cymryd rhan | Mae Elfen Ymgysylltu Twf Swyddi Cymru + Mwy wedi'i hanelu at bobl ifanc sy'n cael eu hasesu fel a ganlyn gan Cymru'n Gweithio: |

| | | |
|---|---|---|
| | mewn addysg neu symud ymlaen i swydd.<br>Gwneir hyn drwy leoliadau gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli yn ogystal â dysgu yn y ganolfan i helpu pobl ifanc i ganolbwyntio ar waith i'w galluogi i symud ymlaen i ddysgu ymhellach neu i swydd. | Angen cadarnhau ffocws galwedigaethol neu ei roi mewn cyd-destun cyn mynd ymlaen i ddysgu ymhellach neu i swydd, gan gynnwys Prentisiaeth, a/neu'n wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn rhaglen astudio ar Lefel 1. |
| Yr ail elfen | Mae elfen Hyfforddeiaethau Lefel 1 yn defnyddio lleoliadau gwaith (gan gynnwys gwaith gwirfoddoli) a dysgu yn y ganolfan i fynd i'r afael â rhwystrau dysgwyr, ac yn darparu cymhwyster Fframwaith Credydau (FfCCh) cyn i'r dysgwr symud ymlaen i swydd neu lefel arall o hyfforddiant. | Mae Elfen Datblygu Twf Swyddi Cymru + Mwy yn cael ei hanelu at bobl ifanc sy'n cael eu hasesu gan Cymru'n Gweithio fel pobl sydd â ffocws galwedigaethol, ac sy'n gallu dilyn rhaglen astudio cymhwyster lefel 1.<br>Mae Elfen Datblygu Twf Swyddi Cymru + Mwy yn amlinellu'r gefnogaeth a'r gweithgareddau dysgu sydd eu hangen ar bobl ifanc i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau maen nhw'n eu hwynebu er mwyn gallu symud ymlaen. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy leoliadau gwaith a dysgu yn y ganolfan i ddarparu'r cymwysterau priodol. |
| | ***Nid fu'r elfen hon o'r rhaglen Hyfforddeiaethau erioed yn weithredol***<br><br>Ni chafodd elfen Pont at Waith Hyfforddeiaethau erioed ei defnyddio, ond roedd wedi'i hanelu'n wreiddiol at bobl ifanc yr aseswyd bod ganddyn nhw ffocws galwedigaethol, eu bod ar lefel ddysgu uwch na lefel 1, a'u bod wedi cwblhau elfen Ymgysylltu Hyfforddeiaethau; a bod ganddyn nhw safon sylfaenol o gymwysterau. | Mae Elfen Cyflogaeth Twf Swyddi Cymru + Mwy yn darparu cymhorthdal cyflog ar gyfer cyfle gwaith sy'n cynnig tâl ac yn gynaliadwy. Mae'n addas i bobl ifanc sydd â ffocws galwedigaethol ac sy'n barod am swydd yn ôl asesiad Cymru'n Gweithio (mae hyn yn golygu eu bod yn llawn cymhelliant, eu bod yn chwilio am swydd, a bod ganddyn nhw ddisgwyliadau realistig o'r gwaith maen nhw'n gallu ei wneud).<br>Mae Elfen Cyflogaeth Twf Swyddi Cymru + Mwy yn amlinellu'r cymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â'r rhwystr(au) a nodwyd yn yr ARR, a allai fod yn atal pobl ifanc rhag symud ymlaen. Mae cyfleoedd gwaith â chymhorthdal cyflog (50% o'r isafswm cyflog) yn helpu pobl ifanc i symud ymlaen ym myd gwaith. |

Mae Twf Swyddi Cymru yn cael ei gontractio drwy dendr; mae'r contractau wedi cael eu rhoi i'r Contractwyr canlynol o dan gytundeb Fframwaith ym mhob Lot Ranbarthol:

**TABL 14 – LOTIAU CONTRACTAU TWF SWYDDI CYMRU + MWY**

| Rhanbarth | Contractiwr |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai (GLLM) |
| | Coleg Cambria |
| | ACT Ltd |
| De-orllewin a Chanolbarth Cymru | Coleg Sir Benfro |
| | ITEC Training Solutions |
| | ACT Ltd |
| Canol De Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |
| De-ddwyrain Cymru | ACT Ltd |
| | ITEC Training Solutions |

Mae cyfanswm gwerth y Fframwaith wedi'i gaffael yn gosod ystod o £100m-£200m ar gyfer cyfnod llawn y cytundeb.  Rhagwelir y bydd angen £31m ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

**Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg**

Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn darparu ymyriadau sgiliau wedi'u targedu pan nad oes modd bodloni anghenion sgiliau drwy'r ddarpariaeth bresennol, neu pan fydd achos clir dros gynnwys Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Mae swyddogion, ochr yn ochr â phartneriaid darparu sgiliau rhanbarthol, yn gweithio i sicrhau bod cymorth ar gyfer sgiliau'n canolbwyntio'n llwyr ar yr anghenion economaidd rhanbarthol a'r cyfleoedd sy'n codi, er enghraifft drwy Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Ardaloedd Menter a Dinas-ranbarthau.

Mae'r rhaglen ar agor i gyflogwyr, cyrff cyflogwyr a chonsortia eraill, gyda'r nod o'i gwneud yn bosibl i ddatblygu ac annog atebion hyblyg, sy'n cael eu harwain gan y diwydiant, ar gyfer sgiliau. Drwy gyfraniad o 50%, gall y Rhaglen helpu gyda deunyddiau hyfforddi a chostau darparu hyfforddiant mewnol ac allanol cymwys. Dylid nodi na fydd cyflogau'r gweithwyr sy'n gwneud gweithgareddau hyfforddi yn cael eu hystyried yn gostau hyfforddi cymwys at ddibenion y dyfarniad cyllid hwn.

Gellir defnyddio'r rhaglen hefyd fel ffordd o sianelu cyllid sydd wedi cael ei sicrhau o linellau eraill yn y gyllideb fel y bydd yn briodol – ee, Cronfa Bontio'r UE ac Ymrwymiad Covid. Gan ddefnyddio'r llinellau hyn yn y gyllideb, mae cwmnïau fel Airbus wedi cael cyllid i gefnogi technegau digideiddio, awtomeiddio a gweithgynhyrchu uwch yng nghynllun datblygu busnes Airbus.

**Cronfa Ddysgu Undebau Cymru**

Mae rhaglen Cronfa Ddysgu Undebau Cymru wedi bod ar waith ers dros 20 mlynedd, gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Dyma nodau cyffredinol Cronfa Ddysgu Undebau Cymru:

- gwella sgiliau'r gweithlu a'i gwneud yn haws i ddatblygu drwy gefnogi gweithgareddau dysgu o dan arweiniad Undebau Llafur, mewn partneriaeth â chyflogwyr ac eraill, gan ganolbwyntio ar gynyddu lefelau sgiliau hanfodol a digidol a sgiliau cyflogadwyedd gweithlu Cymru, a helpu gweithwyr hefyd i symud ymlaen i ddysgu ymhellach ac i gael cymwysterau perthnasol;
- helpu i recriwtio Cynrychiolwyr Dysgu'r Undebau, a'u helpu i rwydweithio i gynyddu'r galw am ddysgu ymysg dysgwyr annhraddodiadol, yn enwedig gweithwyr sydd â lefelau sgiliau isel a grwpiau difreintiedig yn y gweithle, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau i ddysgu;
- ymateb i anghenion sgiliau a chyflogadwyedd a ddaw i'r amlwg ymysg gweithwyr, gan helpu i fodloni anghenion sgiliau'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol;
- gweithio gyda chyflogwyr i helpu i ddatblygu'r gweithlu, gan gynnwys sefydlu cytundebau dysgu wedi'u cydfargeinio a darparu cyngor ar bolisïau ac arferion yn y gweithle sy'n annog cyfranogiad a, thrwy hynny, yn cynyddu'r tebygolrwydd o gynnydd, a fydd yn arwain at fwy o weithwyr yn elwa o waith teg;
- annog cyflogwyr i gydnabod gwerth datblygu unigolion drwy ddysgu yn y gweithle i gefnogi cyflogadwyedd a datblygiad;
- cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant ym maes dysgu oedolion drwy gael gwared ar rwystrau i ddysgu a gweithio gyda chyflogwyr i ehangu mynediad at sgiliau a dysgu yn y gweithle.

Mae'r rhaglen yn targedu gweithwyr mewn sefydliadau sy'n cydnabod undebau llafur, ac sy'n cael cefnogaeth gan yr undebau hynny sy'n gwneud cais i'r gronfa. Mae'r rownd ymgeisio bresennol ar gyfer 2022-25 yn cael ei chynnal ar hyn o bryd.

**Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru**

Mae'r prosiect Ysbrydoli Rhagoriaeth Sgiliau yng Nghymru yn cyflwyno rhaglen o weithgareddau sy'n ysbrydoli ac yn hyrwyddo rhagoriaeth alwedigaethol, er mwyn datblygu pobl ifanc a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ffyniant economi Cymru. Bydd y prosiect, sy'n gynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i arwain gan Goleg Sir Gâr, yn parhau i godi proffil sgiliau galwedigaethol yng Nghymru ac i yrru agenda sgiliau a fydd yn bodloni gofynion addysg a diwydiant yng Nghymru.

**Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol**

Rydym yn dal wedi ymrwymo i gynnal dull polisi tair gwlad ar gyfer y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar draws y DU, i ategu fframweithiau prentisiaeth a Chymwysterau Galwedigaethol i Oedolion yng Nghymru. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cefnogi symudedd cymdeithasol, ac yn caniatáu trosglwyddo a symud sgiliau ar draws cwmnïau, sectorau a ffiniau. Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn cefnogi ymrwymiadau trawsbynciol y Rhaglen Lywodraethu i:

- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol (y Cabinet)
- Deddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth addysg Gymraeg (y Cabinet)

**Cymorth Swyddi Cymru – y gwersi a ddysgwyd**

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r broses gaffael ar gyfer rhaglen Cymorth Swyddi Cymru, ac y byddai adroddiad yn cael ei lunio.

Mae'r adroddiad yn cynnwys canfyddiadau adolygiad a gynhaliwyd drwy archwiliad mewnol. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn ymateb i argymhellion yn adolygiad ESNR wedi cael eu rhoi ar waith;
- Adolygu sampl o brosesau caffael a gynhaliwyd i gadarnhau bod y prosesau newydd wedi cael eu mabwysiadu, a bod gwelliannau wedi cael eu gwneud.

Roedd casgliadau'r adroddiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod prosesau llywodraethu sicr, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y meysydd hynny a oedd dan arolwg yn cael eu cynllunio a'u gweithredu'n effeithiol. Roedd yr holl argymhellion wedi cael eu rhoi ar waith, ac roedd camau gweithredu yn eu lle i fonitro'n ofalus unrhyw brosesau caffael yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad cychwynnol, a'r gwaith dilynol gan Wasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, wedi rhoi sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol wedi cael eu nodi i ddiogelu sefyllfa Llywodraeth Cymru a'i chyfrifoldeb i ddefnyddio arian cyhoeddus mewn modd diogel a rheoledig. Roedd y gwersi a ddysgwyd o'r ddau ymarfer caffael ar gyfer Cymorth Swyddi Cymru yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wnaed ynghylch y rhaglenni newydd, ac yn cael eu hategu gan wybodaeth a ddaeth i'r amlwg wrth ddatblygu Cymorth Swyddi Cymru i sicrhau'r gwerth gorau am arian a'r amser sydd eisoes wedi'i fuddsoddi mewn perthynas â chyflogadwyedd oedolion a phobl ifanc.

## 10.19 Dysgu Seiliedig ar Waith

Alldro gwirioneddol 2020-21 ar gyfer y rhaglen Hyfforddeiaethau yw £30.4m (gan gynnwys incwm Cronfa Gymdeithasol Ewrop). Alldro disgwyliedig y rhaglen hon ar gyfer 2021-22 yw £32m (gan gynnwys incwm Cronfa Gymdeithasol Ewrop).

Alldro gwirioneddol 2020-21 ar gyfer y rhaglen Prentisiaethau yw £124.22m (gan gynnwys incwm Cronfa Gymdeithasol Ewrop). Alldro disgwyliedig y rhaglen hon ar gyfer 2021-22 yw £150m. Mae'r cynnydd hwn yn alldro 2021-22 yn adlewyrchu cost uwch y Cynllun Cymhellion i Gyflogwr.

Mae'r Llinell Wariant Dysgu Seiliedig ar Waith yn y Gyllideb a gynigir ar gyfer 2022-23 yn cynnwys £5m a drosglwyddir i CCAUC i gefnogi Prentisiaethau Gradd. Rhagwelir y bydd cyllid pellach yn cael ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn yn y gyllideb atodol i gefnogi cost Prentisiaethau Gradd newydd ac sy'n parhau yn 2022-23. Nid yw'r gost wedi cael ei chadarnhau eto.

Mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu fframweithiau prentisiaeth newydd a diwygiedig drwy drefniadau contractio gyda Skills Development Scotland (SDS). Mae SDS yn rheoli'r broses dendro a rheoli contractau ar ran y gwledydd datganoledig.

I sicrhau bod y ddarpariaeth prentisiaeth yn dal yn gyfredol ac yn berthnasol i anghenion cyflogwyr yng Nghymru, dyrannwyd £145,000 yn 2021-22 ar gyfer datblygu fframweithiau prentisiaeth. Mae'r swm hwn yn seiliedig ar wariant mewn blynyddoedd blaenorol, ac mae'n cynnwys:

£135,000 a fydd ar gael i ddatblygwyr fframweithiau prentisiaeth drwy broses gomisiynu SDS, i ddatblygu fframweithiau prentisiaeth newydd a diwygio'r rhai sydd eisoes yn bodoli. Bydd hyn yn cynnwys comisiynu adolygiad o'r fframweithiau Modurol, Cludiant a Logisteg, Technoleg Ddigidol, Lletygarwch ac Arlwyo, Ynni, a Busnes a Rheolaeth; a

£10,000 i adolygu Fframweithiau Gradd-brentisiaethau Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau ansawdd cymwysterau gradd ychwanegol ar gyfer y fframweithiau hyn.

Yn ychwanegol at hynny, mae Partneriaid Datblygu cydnabyddedig hefyd yn gallu datblygu ac adolygu fframweithiau. Mae'r adolygiadau hyn yn rhai heb eu comisiynu, ond rhaid cael sêl bendith Llywodraeth Cymru cyn dechrau arnynt. Yn 2021-22, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi sêl bendith i ddatblygu a chynnal adolygiad heb ei gomisiynu o fframweithiau yn y sectorau Gofal Iechyd ac Adeiladu.

Ein bwriad yw parhau i ddatblygu ac adolygu'r fframweithiau a amlinellwyd uchod yn 2022-23, a chomisiynu datblygu ac adolygu fframweithiau yn y sectorau canlynol: Gwasanaethau Eiddo, Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch a Deunyddiau, Gwallt a Harddwch, a Thwristiaeth, Teithio a Hamdden.

Disgwylir y bydd £140,000 yn cael ei neilltuo at y diben hwn yn 2022-23.

**<u>Cyfyngiadau rheoli'r galw, a chamau i reoli'r galw am brentisiaethau</u>**

Roedd ein Cynllun Gweithredu ar Brentisiaethau (2017) yn dangos ein bwriad i symud y rhaglen Prentisiaeth tuag at gefnogi newydd-ddyfodiaid a gweithwyr newydd sy'n gymharol newydd yn eu swydd. Roedd hefyd yn nodi'r angen i symud oddi wrth brentisiaethau cyffredinol tuag at y rheini sy'n benodol i sector. Mae ein rheolau cymhwysedd presennol yn adlewyrchu'r cyfeiriad hwn, ond maent hefyd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i gefnogi'r sectorau a'r dysgwyr hynny y mae Covid-19 yn cael effaith anghymesur arnynt.

Ein hagwedd gyffredinol yw bod gweithwyr (ac eithrio unigolion anabl) yn anghymwys ar gyfer Prentisiaeth lefel 2 os ydyn nhw wedi cael eu cyflogi yn yr un swydd ers mwy na 6 mis, ac mae'r rheini sydd wedi cael eu cyflogi ers mwy na 12 mis yn anghymwys ar gyfer Prentisiaeth lefel 3 hefyd. Nid oes cyfyngiad ar hyd cyflogaeth ar gyfer dysgwyr sydd am wneud prentisiaeth lefel 4/5. Rydym hefyd wedi cyfyngu ar y prentisiaethau cyffredinol sydd ar gael i ddysgwyr anabl neu sy'n newydd i fyd gwaith.

Fodd bynnag, i gydnabod bod y dirywiad economaidd yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, nid yw gweithwyr 16-24 oed yn cael eu hystyried yn anghymwys ar gyfer prentisiaeth ar sail hyd eu cyflogaeth yn eu swydd bresennol. Yr unig eithriadau fydd y prentisiaethau Lefel 2/3 hynny sydd wedi cael eu dynodi'n rhai cyffredinol (ee, Gweinyddu Busnes, Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid, Arwain Tîm a Defnyddwyr TG), gan mai dim ond i recriwtiaid newydd y bydd y rhain ar gael. Bydd y trefniadau llacio hyn yn cael eu hadolygu ymhellach, ond byddan nhw'n berthnasol tan ddiwedd mis Gorffennaf 2022 o leiaf.

Hefyd, i gydnabod bod cyfyngiadau Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ac anghymesur ar y sector Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru – gyda thystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod nifer sylweddol o weithwyr yn teimlo'n ddigymhelliant, yn ddihyder am ddyfodol y sector, ac yn chwilio am swydd arall – roeddem wedi llacio'r rheolau cymhwysedd ar gyfer prentisiaeth, er mwyn i weithwyr y sector allu gwneud prentisiaeth beth bynnag fo hyd eu cyflogaeth. Teimlwyd yn eang y byddai darparu cyfleoedd i uwchsgilio yn help mawr i gynyddu cymhelliant a hyder staff; gan helpu felly i gadw staff. Disgwylir y bydd y trefniadau llacio hyn ar waith tan ddiwedd mis Gorffennaf 2022 o leiaf.

Rydym yn bwriadu cadw'r dulliau hyn o reoli'r galw ym mlwyddyn 2022-23, a byddwn yn adolygu'r gofyniad i gadw'r trefniadau llacio sy'n gysylltiedig â Covid ar ôl mis Gorffennaf 2022.

Mae'r Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr wedi llwyddo i ddenu tua 5,500 o ddysgwyr i brentisiaethau ers mis Awst 2020. Er y disgwylir i'r cynllun hwn ddod i ben ym mis Chwefror 2022, bydd y gyllideb o 2022-23 ymlaen yn caniatáu i'r cynllun barhau ar gyfer prentisiaid anabl. Mae nifer y bobl anabl sy'n dechrau ar brentisiaeth yng Nghymru eisoes yn is na'r niferoedd yn yr Alban ac yn Lloegr. Ar hyn o bryd, mae dros 8% (Ch2 2020/21) yn anabl, ac mae'r ffigurau yn yr Alban a Lloegr yn fwy nag 11%. Bydd parhad y Cynllun Cymhellion i Gyflogwyr ar gyfer y garfan hon yn helpu i gynyddu cyfranogiad y grŵp hwn sydd o dan anfantais, a bydd yn ein helpu ni i gyrraedd ein targed o ddileu'r bwlch rhwng y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r DU erbyn 2050, gan ganolbwyntio ar Waith Teg a chynyddu cyfranogiad yn y farchnad lafur ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

## 10.20 Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol/Ymgysylltu â Chyflogwyr

I ymateb i ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ynghylch 'Cryfhau Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol', ac i argymhellion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (Hydref 2019) a'i gydnabyddiaeth o'r 'heriau amlwg o ran adnoddau' y mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi'u hwynebu, mae swyddogion wedi cynnig cynyddu'r cyllid ar gyfer y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Bydd y cynnydd hwn yn galluogi'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i wneud y gwelliannau angenrheidiol a sicrhau eu bod yn gallu mynd ati'n effeithiol i gysoni'r ddarpariaeth Addysg Bellach a Phrentisiaethau ag anghenion cyflogwyr, i helpu'r adferiad yn dilyn Covid-19, ac i ofalu bod gennym y sgiliau angenrheidiol fel rhan o'n hymgyrch Sero Net.

Cafodd y bedwaredd Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ei sefydlu ym mis Ebrill 2021 ar gyfer Canolbarth Cymru, gyda'r Bartneriaeth hon yn cael yr un lefel o gyllid â'r Partneriaethau presennol (£165,000 y flwyddyn). Mae swyddogion yn cynnig

cynyddu'r cyllid ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol o £660,000 yn 2021-22, i £1,160,000 yn 2022-23. Byddai'r swm hwn yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y pedair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sef £290,000 i bob Partneriaeth. Ond, mae swyddogion yn ymchwilio ar hyn o bryd i'r ffordd orau o ddarparu capasiti ymchwil canolog i'r Partneriaethau, ac efallai y bydd yn rhaid tynnu cyllid ar gyfer hyn o gyfanswm y gyllideb hon. Gwneir hyn mewn ymateb i argymhellion Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau.

Ar ben hynny, mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi cael £100,000 yn ychwanegol yn 2021-22 (£25,000 i bob Partneriaeth) i ymgysylltu â'u partneriaid cyflenwi er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall y farchnad bresennol o ran prosiectau a rhaglenni i gynorthwyo pobl ifanc, a sut gall prosiectau gyfrannu at y Gwarant i Bobl Ifanc. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei wneud eto y flwyddyn nesaf, gyda rhagor o gyllid yn cael ei ddarparu.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid arall i gefnogi gweithrediad y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

### 10.21 Brexit

Mae Brexit wedi tarfu'n sylweddol ar y farchnad lafur, gydag effaith na welwyd ei thebyg o'r blaen. Mae hynny wedi arwain at ostyngiad cyflym yn nifer y bobl a gyflogir, nifer yr oriau maen nhw'n eu gweithio, a nifer y swyddi gwag sydd ar gael. Mae effaith y pandemig yn bygwth gwrthdroi'r cynnydd a wnaed i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn ceisio symud ymlaen gyda phwyslais o'r newydd ar ein nodau i fynd i'r afael â'r cynnydd a ragwelir mewn diweithdra (ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau), i fynd i'r afael â chyfradd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), i wella lefelau cymwysterau yng Nghymru, ac i ailffurfio sgiliau'r gweithlu presennol a hyrwyddo gwaith teg yng Nghymru.

Er mwyn i'r economi ddod yn gryfach ac yn fwy cynhyrchiol nag o'r blaen, bydd angen cymorth ar unigolion a busnesau i ymdopi â'r argyfwng. Bydd darpariaeth cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn rhan ganolog o'n hadferiad economaidd a'n huchelgeisiau i Ailgodi'n Gryfach. Bydd hefyd yn hollbwysig er mwyn cefnogi'r bobl mae'r sefyllfa hon yn fwyaf tebygol o gael effaith negyddol arnynt ym marchnad lafur Cymru.

Rydym yn ehangu gwasanaethau rheng flaen drwy Ganolfannau Cyflogaeth (Addysg Bellach), Cymru'n Gweithio, a seilwaith mentora a chynghori Cymunedau am Waith a Mwy. I helpu pobl i ailymuno â byd gwaith, rydym yn dweud wrth bobl am ddefnyddio Cymru'n Gweithio fel y llwybr at ein darpariaeth cyflogadwyedd ehangach.

Ein nod yw helpu gyda chamau 'Ailgydio' a 'Chadw' y gweithlu presennol, 'Ailddechrau' taith unigolyn i gael swydd ar ôl cyfnod o fod yn ddi-waith neu ar ffyrlo, a pharatoi ac 'Ailsgilio' pobl ledled Cymru ar gyfer byd gwaith y dyfodol.

Gan weithio ar draws y Llywodraeth, rydym yn dal wedi ymrwymo'n llwyr i helpu pobl i gael swydd neu i fod yn hunangyflogedig, gan sicrhau dilyniant a chynnydd dysgwyr yn y farchnad lafur drwy gydol y pandemig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ac yn gyson yn ei blaenoriaeth na fydd Cymru yn colli ceiniog o gyllid oherwydd Brexit; fel yr addawyd yn ystod y refferendwm.

Rydym wedi cael sicrwydd y bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE a ariennir drwy Fframwaith Ariannol Amlflwydd 2014-2020 o dan delerau'r Cytundeb Ymadael, sy'n golygu y byddwn ni'n gallu parhau i ddarparu ein rhaglenni tan fis Rhagfyr 2023.

Ers y Refferendwm yn 2016, rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru ar bolisi buddsoddi rhanbarthol newydd, sy'n ein rhoi mewn sefyllfa gref i fwrw iddi pan fydd cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE yn dechrau dod i ben tua diwedd y flwyddyn.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 18 Tachwedd 2020, yn amlinellu ein strategaeth lefel uchel ar gyfer sicrhau ffyniant ac economi gynhwysol y bydd ymyriadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (hynny yw, Cymru gyfan) yn cyfrannu ati.

## 10.22 Y DYSTIOLAETH / GWERTHUSIAD AC ADOLYGIADAU

**Mae tystiolaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau yn llywio ein penderfyniadau ariannol, fel ymchwil a gyhoeddwyd, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwerthusiadau polisi blaenorol ac ystadegau. Mae hyn wedi cael ei ymwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau, a dyma rai enghreifftiau.**

Y Gronfa Cadernid Economaidd

Penodwyd Dirnad Economi Cymru gan Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad effaith a gwerthusiad. Roedd yr adroddiad cam cyntaf, Ymyriadau ariannol Llywodraeth Cymru Covid-19: Dadansoddiad o fuddiolwyr Cymru, wedi asesu grantiau busnes Cam 1 a Cham 2 Llywodraeth Cymru, a Chynllun Benthyciadau Busnes Covid-19 Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru. Mae hefyd yn ystyried y grantiau Ardrethi Annomestig a weinyddir gan awdurdodau lleol. Mae cynlluniau eraill wedi agor yn fwy diweddar i gwmnïau yng Nghymru, ac nid yw'r rhain yn cael eu dadansoddi yn yr adroddiad cychwynnol hwn.

Dyma ganfyddiadau cychwynnol yr adroddiad:

- Mae 2 Gam cyntaf y Gronfa Cadernid Economaidd wedi darparu dros £200m o grantiau i gynorthwyo busnesau yng Nghymru. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cymorth a dalwyd drwy'r grant Ardrethi Annomestig o £770m a dalwyd i 64,000 o fusnesau.

- Gyda'i gilydd, mae'r grantiau busnes yma gan y Gronfa Cadernid Economaidd wedi helpu bron i 12,000 o sefydliadau yng Nghymru a 125,000 o swyddi (amser llawn a rhan-amser), sy'n cynrychioli tua 10.5% o gyfanswm y swyddi yng Nghymru.

- Y cyllid cyfartalog a ddyfarnwyd oedd £15,620. Ar gyfartaledd, roedd y swm a gymeradwywyd ar gyfer busnesau bach a chanolig ychydig dros 77% o werth yr arian yr oedd cwmnïau yng Nghymru wedi gwneud cais amdano.

- Microfusnesau oedd bron i 80% o'r cwmnïau a gafodd grantiau, gan dderbyn grant o bron i £10,000 ar gyfartaledd. Cwmnïau bach oedd 18% o'r cwmnïau a gafodd gymorth, gyda phob cwmni yn cael cyllid o bron i £31,000 ar gyfartaledd. Cwmnïau canolig eu maint oedd bron i 3% o'r cwmnïau a gafodd grantiau, gyda grant cyfartalog o bron i £74,000. Roedd cwmnïau mawr wedi cael grant cyfartalog o ryw £302,000.

- Byddai effeithiau ehangach y cymorth yn gallu bod yn sylweddol, gyda miloedd yn rhagor o swyddi'n cael eu cefnogi'n anuniongyrchol mewn busnesau cysylltiedig drwy effeithiau'r gadwyn gyflenwi ac effeithiau gwario cyflog.

  Mae dau gam arall i waith Dirnad Economi Cymru, sy'n cynnwys elfen arolwg a gwerthusiad dilynol o'r effaith a'r casgliad. Mae'r elfen arolwg wedi dod i ben erbyn hyn, ac mae dadansoddiad wedi cael ei gynnal. Disgwylir y dadansoddiad ar ddechrau 2022.

Mae Cymru'n Gweithio yn rhan hollbwysig o'r gwaith o werthuso a deall anghenion unigolyn, a'r rhwystrau cymhleth maen nhw'n eu hachosi. Wrth wneud hynny, gall bennu'r ddarpariaeth fwyaf priodol i ddiwallu anghenion yr unigolyn hwnnw. Mae'r gwasanaeth yn bwynt mynediad cenedlaethol at gymorth ynghylch cyflogadwyedd, sy'n cefnogi ac yn ategu'r sianeli presennol; gan osgoi dyblygu a sicrhau gwerth am arian.

Rydym yn datblygu rhaglen cyflogadwyedd newydd i oedolion, a fydd yn dechrau cael ei chyflwyno ar ddiwedd 2021-2022. Bydd y Rhaglen Cyflogadwyedd newydd i oedolion yn adeiladu ar y llwyddiannau, y cysyniad a'r brand llwyddiannus i gyfuno ReAct (gweithwyr ledled Cymru y mae eu swydd wedi cael ei dileu) ac Access (pobl ddi-waith) i gynnig y ddarpariaeth cyflogadwyedd gyflawn yma i oedolion di-waith yng Nghymru. Bydd y rhaglen yn darparu cymorth personol i'r rheini sy'n ceisio ymuno â'r farchnad lafur, drwy chwalu rhwystrau a darparu cymorth grant fel hyfforddiant galwedigaethol, gofal plant, costau teithio a chymorthdaliadau cyflog. Prif nod y rhaglen yw galluogi pobl i symud ymlaen i swydd barhaol.

Bydd y rhaglen newydd yn defnyddio fformat llwyddiannus, a bydd yn cynnig rhaglen o gefnogaeth i gyflawni nodau Symud Cymru Ymlaen a'r Cynllun Cyflogadwyedd. Mae datblygiad, gwerthusiadau ac archwiliadau ReAct dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi helpu'r rhaglen i fynd ati'n effeithlon ac yn effeithiol i helpu pobl i gael swydd.

Rydym wedi ariannu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, drwy broses dendro gystadleuol, i ddarparu gwasanaethau ymgysylltu rhwng Partneriaid Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod safbwyntiau rhai o'n prif randdeiliaid yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a darparu polisïau. Cafodd y maes gwariant yma ei werthuso'n annibynnol. Mae adnodd y sefydliad bellach yng Nghyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg yn Llywodraeth Cymru.

Yn 2018, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ymchwil: "Eiddo Masnachol: Dadansoddiad o'r Farchnad ac Ymyriadau Posibl" i werthuso'r cyflenwad o safleoedd ac adeiladau modern yng Nghymru, a'r galw amdanynt. Mae adroddiad SQW wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi: Cynllun Cyflenwi Eiddo. Mae nodyn ychwanegol wedi cael ei lunio ochr yn ochr â'r adroddiad terfynol i ystyried goblygiadau posibl pandemig Covid 19, o ystyried bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno ar ddechrau'r pandemig. Mae'r maes hwn yn cael ei adolygu i sicrhau bod y dystiolaeth yn adlewyrchu'r amgylchiadau presennol ac yn y dyfodol.

**<u>Asesu Effaith Busnes Cymru</u>**

Yn ystod 2021, comisiynwyd Ysgol Busnes Caerdydd i ddarparu asesiad annibynnol o'r canlyniadau economaidd sy'n gysylltiedig â Busnes Cymru. Dyma ganfyddiadau'r adroddiad hwn ar yr Effaith Economaidd:

Craidd a Thwf (Lefel 1-4)

- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd yn **67%** o'i chymharu â **33%** ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth
- Mae'r gwasanaeth wedi cynhyrchu **£92m** o fuddsoddiad busnes sy'n gysylltiedig â throsiant rhagamcanol o **£7.76bn**
- Mae Pob **£1** a fuddsoddir yn gallu cael ei chysylltu ag oddeutu **£10** o gynnydd net yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn.
- O blith y **10,408 o swyddi a gafodd eu diogelu** o dan y rhaglenni hyn, ni fyddai amcangyfrif o **5,108** ohonynt wedi cael eu diogelu os na fyddent wedi cael cymorth. Amcangyfrifir bod y swyddi net (ychwanegol) yn gysylltiedig ag oddeutu **£266m o werth ychwanegol gros**.

Rhaglen Cyflymu Twf

- Mae'r gyfradd goroesi pedair blynedd ymysg busnesau sydd wedi cael cymorth gan y Rhaglen Cyflymu Twf yn **77.4%** o'i chymharu â **32.7%** ar gyfer sampl gyfatebol o fusnesau a oedd heb gael cymorth.
- Mae **£377m** o fuddsoddiad busnes yn gysylltiedig â throsiant rhagamcanol o **£5.99bn.**
- Mae Pob **£1** a fuddsoddir yn y Rhaglen Cyflymu Twf yn gallu cael ei chysylltu ag oddeutu **£18** o gynnydd yn y gwerth ychwanegol gros bob blwyddyn. Ers 2015-16, mae'r Rhaglen Cyflymu Twf wedi cefnogi tua **£377m** o fuddsoddiad mewn menter, **9,755** o swyddi, a **£266m** o allforion.
- Mae cyfanswm o **9,755** o swyddi gros wedi'u creu yn golygu tua **5,332** o swyddi net – hynny yw, byddai tua 45% o'r canlyniadau cyflogaeth wedi gallu digwydd heb ymyriad Rhaglen Cyflymu Twf Busnes Cymru. Amcangyfrifir bod y swyddi net hyn yn gysylltiedig ag oddeutu **£410m o werth ychwanegol gros**.
- Amcangyfrif o'r gweithgarwch/swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu – **£410m gwerth ychwanegol gros** y flwyddyn.

**Bodlonrwydd Cwsmeriaid Busnes Cymru**

Cyfwelwyd â 2703 o fusnesau / unigolion a oedd wedi defnyddio gwasanaeth Busnes Cymru. Dyma'r canlyniadau cronnol:

Roedd 91% o'r rheini a gafodd eu cyf-weld yn fodlon ar arbenigedd a gwybodaeth y cynghorwyr.
Roedd 87% o'r rheini a gafodd eu cyf-weld yn fodlon ar ansawdd y cyngor.
Byddai 86% o'r rheini a gafodd eu cyf-weld yn argymell y gwasanaeth i eraill.
Roedd 85% o'r rheini a gafodd eu cyf-weld yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol roedden nhw wedi'i gael.

**Ymwybyddiaeth o'r Brand Busnes Cymru**

Cynhaliodd Beaufort Research arolwg annibynnol ymwybyddiaeth o frand ym mis Tachwedd 2021, fel rhan o'i arolygon omnibws (cyf-weld â 500 o fusnesau).

Cynhaliodd Beaufort Research arolwg annibynnol ymwybyddiaeth o frand ym mis Tachwedd 2021, fel rhan o'i arolygon omnibws (cyf-weld â 500 o fusnesau).

Cyn heddiw, oeddech chi'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth cymorth busnes pwrpasol i bobl sy'n rhedeg neu'n cychwyn busnes?
Canlyniadau 2021 – Oeddwn 55% / Nac oeddwn 42% / Ddim yn gwybod 2%

Mae hyn yn 10% o gynnydd cadarnhaol wrth gymharu â chanlyniadau 2020

## 10.23 MONITRO CYLLIDEBAU

Mae prosesau sefydledig ar waith i fynd ati'n effeithiol ac yn fanwl i reoli cyllidebau y pleidleisiwyd arnynt yn ystod y flwyddyn ar gyfer MEG yr Economi. Mae elfen sylweddol o'r gweithgarwch wedi'i gynllunio yn yr MEG yn cael ei harwain gan y galw, fel Cronfa Dyfodol yr Economi a phrosiectau seilwaith mawr sy'n cael eu cynnal gan gontractwyr trydydd parti. O ganlyniad, gall ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru effeithio ar wariant, fel tywydd garw. Mae cynlluniau'n cael eu monitro'n agos gan y tîm uwch-reolwyr i gytuno ar opsiynau a chynigion ar gyfer camau unioni er mwyn ceisio rheoli gwariant net ar lefelau cyllideb.

Cynhelir adolygiadau herio cadarn yng nghanol y flwyddyn i ddod o hyd i unrhyw broblemau sylweddol, ac i lywio'r opsiynau i'w hystyried gan y Cyfarwyddwyr, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog a'r adnoddau i'w hailflaenoriaethu er mwyn parhau i ymateb i ddatblygiadau economaidd.

## 10.24 DEDDFWRIAETH

Nid oes deddfwriaeth gyfredol sy'n galw am ddarpariaeth yng nghynlluniau'r gyllideb ddrafft.

**Crynodeb**

Cyflwynir Cyllideb Ddrafft MEG yr Economi ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor ei hystyried.

**Vaughan Gething**
**Gweinidog yr Economi**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon